

Rhif: WG45197



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Safle Rheoli Ffiniau Parc Cybi

Tachwedd 2021

Mott MacDonald
4th Floor
9 Portland Street
Manchester M1 3BE
United Kingdom

+44 (0)161 914 8880

Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Safle Rheoli Ffiniau Gogledd Cymru

Adroddiad Ymgynghori ac Ymgysylltu
BCP21-006-06-00

Cofnod Cyhoeddi a Diwygio

| Fersiwn ddiwygiedig | Dyddiad | Cychwynnydd | Gwiriwr | Cymeradwywr | Disgrifiad |
|---------------------|----------|-------------|---------|-------------|--|
| 1.0 | 06/07/21 | JG | CC | | |
| 2.0 | 03/08/21 | JG | CC | | Ail gyhoeddiad yn dilyn sylwadau gan y cleient |
| 3.0 | 18/08/21 | JG | CC | | Trydydd cyhoeddiad yn dilyn sylwadau gan y cleient |
| 4.0 | 01/10/21 | JG | CC | | Pedwerydd cyhoeddiad yn dilyn diwygiadau i gyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

Cyfeirnod y ddogfen BCP21-006-06-00 |

Dosbarth y wybodaeth: Safonol

Cyhoeddir y ddogfen hon i'r parti a'i comisiynodd ac at ddibenion penodol sy'n gysylltiedig â'r prosiect a gapsynwyd uchod yn unig. Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu arni ac ni ddylid ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am y canlyniadau os bydd unrhyw barti arall yn dibynnu ar y ddogfen hon neu os caiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall, neu os yw'n cynnwys unrhyw wall neu hepgoriad sy'n deillio o wall neu hepgoriad mewn data a roddwyd inni gan bartïon eraill.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo deallusol perchenogol. Ni ddylid ei dangos i bartïon eraill heb ein caniatâd a chaniatâd y parti a'i comisiynodd.

Cynnwys

| | | |
|----------|---|-----------|
| 1 | Dulliau Ymgysylltu | 1 |
| 1.1 | Nodi Ymgyngoreion | 1 |
| 1.2 | Gwybodaeth a roddwyd i'r Ymgyngoreion | 2 |
| 1.3 | Dulliau o Ymgysylltu ag Ymgyngoreion | 3 |
| 2 | Cofnod o Ymgysylltu ac Ymgynghori | 6 |
| 2.1 | Ymgyngoreion | 6 |
| 3 | Crynodeb o Ganlyniad y Gweithgarwch Ymgysylltu | 12 |
| 3.1 | Ymatebion i'r ymgynghoriad gan ymgyngoreion a nodwyd | 12 |
| 3.2 | Ymatebion i'r ymgynghoriad gan sefydliadau eraill | 24 |
| 3.3 | Adborth a Gafwyd gan Rhanddeiliaid y Ffin Ymgynghori Linell Goch a Rhanddeiliaid Cymunedol Eraill | 24 |
| 4 | Casgliad | 41 |

Tablau

| | | |
|-----------|---|----|
| Tabl 1.1: | Dulliau Ymgysylltu | 3 |
| Tabl 2.1: | Ymgyngoreion | 7 |
| Tabl 3.1: | Ymgyngoreion a nodwyd – Adborth ac Ymateb | 13 |
| Tabl 3.2: | Ymatebion i'r ymgynghoriad gan sefydliadau eraill | 24 |
| Tabl 3.3: | Crynodeb o'r adborth gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus | 27 |

Ffigurau

| | | |
|-------------|---|----|
| Ffigur 1.1: | Y Ffin Ymgynghori Linell Goch | 1 |
| Ffigur 1.2: | Map o Leoliadau Hysbysiadau Safle | 4 |
| Ffigur 1.3: | Trydariad o Gyfrif Llywodraeth Cymru | 5 |
| Ffigur 3.1: | Ffynonellau adborth | 26 |
| Ffigur 3.2: | Themâu adborth cyffredin | 26 |
| Ffigur 3.3: | Ym mha gapasiti rydych yn cyflwyno sylwadau ar y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig a fydd yn gwasanaethu Porthladd Caergybi? (Ticiwch fwy nag un os yw'n gymwys) | 38 |
| Ffigur 3.4: | A ydych yn byw yn agos i'r llwybr dynodedig ar gyfer cerbydau nwyddau trwm rhwng y rhwydwaith ffyrdd lleol a'r safle mewndirol arfaethedig? | 38 |
| Ffigur 3.5: | A ydych yn byw yn agos i'r safle arfaethedig? | 39 |
| Ffigur 3.6: | Lleoliadau ymatebwyr (Ynys Gybi) | 39 |
| Ffigur 3.7: | Lleoliadau ymatebwyr (Ynys Môn) | 40 |
| Ffigur 3.8: | Lleoliadau ymatebwyr (Pob lleoliad) | 40 |

Tablau - Atodiadau

Mae **Atodiad A** i'r adroddiad hwn yn rhestru'r ymgynghoreion a nodwyd ac yr ymgysylltwyd â nhw.

Mae **Atodiad B** i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r sylwadau a gafwyd gan ymgynghoreion technegol.

Mae **Atodiad C** i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r sylwadau a gafwyd gan ymgynghoreion cyhoeddus.

Mae **Atodiad D** i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r sylwadau a gafwyd gan sefydliadau eraill

Mae **Atodiad E** i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r deunyddiau ymgysylltu a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus

Mae **Atodiad F** i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r deunyddiau ymgysylltu a ddarparwyd i randdeiliaid technegol

Mae **Atodiad G** i'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses ddylunio fanwl sy'n sail i Daenlen Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a Chynllun Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig.

Crynodeb gweithredol

Ymadawodd y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Rhagfyr 2020. Daeth rheolau newydd ynglŷn â masnach, teithio a busnesau i'r UE a'r DU i rym ar 1 Ionawr 2021 ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Yng Nghaergybi, byddai angen cynnal archwiliadau ar gyfer nwyddau megis anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fyddai'n dod i mewn i Gymru o Weriniaeth Iwerddon, a elwir yn archwiliadau lechydol a Ffytioechydol. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr archwiliadau hyn. Ar hyn o bryd, nid oes digon o le yn y porthladd i brosesu'r archwiliadau y bydd angen eu cynnal yn y dyfodol.

Byddai angen i ddefnydd arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r safle gael cymeradwyaeth, y mae'n ceisio ei sicrhau o dan ofynion Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan adran 59 o Gynllun Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ymgynghori cyn gwneud gorchymyn datblygu arbennig. Gall Gweinidogion Cymru arfer pwerau sy'n ffafriol i gyflawni eu swyddogaethau neu'n gysylltiedig â chyflawni eu swyddogaethau yn rhinwedd swyddogaethau gweithredol cyfraith gwlad a drosglwyddwyd iddynt drwy adran 58A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn cynnwys y pŵer i ymgynghori.

Parodd yr ymgynghoriad cymunedol am gyfnod o 21 diwrnod rhwng 24 Mawrth 2021 a 13 Ebrill 2021, tra cafodd rhanddeiliaid technegol a nodwyd fwy o amser. Mae'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gwyro oddi wrth bolisi Llywodraeth Cymru i roi cyfnod o 12 wythnos ar gyfer ymgynghori. Y rhesymau dros y gwriad hwn oedd darparu ar gyfer ymgysylltu'n gynnar â rhanddeiliaid ac ystyried y gofynion ar gyfer archwiliadau a nodir o dan Fodel Gweithredu Ffiniau'r DU.

Mae'r Adroddiad ar yr Ymgynghoriad hwn wedi'i lunio ac

- mae'n crynhoi'r canlynol:
 - y dulliau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â'r ymgysylltu â'r ymgynghoreion ynghylch y datblygiad;
 - y wybodaeth a roddwyd i'r ymgynghoreion a phryd y'i rhoddwyd iddynt; ac
 - canlyniadau'r ymgynghoriad â phob ymgynghorai; ac
- mae'n cynnwys:
 - datganiad am y cyfnod a roddwyd i bob ymgynghorai gyflwyno sylwadau ynghylch y datblygiad, nad oedd yn llai na 21 diwrnod calendr ac a ddechreuodd ar y dyddiad y cawsant eu gwahodd i gyflwyno sylwadau o'r fath;
 - copïau o'r cynrychioliadau a gafwyd gan ymgynghoreion.

Diffinnir 'prif sylwadau' fel yr ymatebion swyddogol a ddarperir gan ymgynghoreion sy'n nodi eu barn ar y cynigion yn ysgrifenedig. Ceir copïau o'r sylwadau hyn yn **Atodiadau B, C a D**. Nid yw hyn yn cynnwys gohebiaeth arall ag ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori (e.e. negeseuon e-bost, cyfarfodydd rhithwir neu alwadau ffôn).

Mae **Pennod 1** o'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dulliau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â phartïon â diddordeb er mwyn helpu i ddrafftio Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan adran 59(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Darperir enghreifftiau o ddeunyddiau ymgysylltu ac ymgynghori yn **Atodiad C**.

Mae **Pennod 2** o'r adroddiad hwn yn darparu cofnod o weithgarwch ymgysylltu ac yn cynnwys datganiad am y cyfnod a roddwyd i bob ymgynghorai gyflwyno sylwadau er mwyn helpu i ddrafftio Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan adran 59(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae **Pennod 3** o'r adroddiad hwn yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad â phob ymgynghorai.

Mae **Atodiad A** i'r adroddiad hwn yn rhestru'r ymgynghoreion a nodwyd ac yr ymgysylltwyd â nhw.

Mae **Atodiad B** i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r sylwadau a gafwyd gan ymgynghoreion technegol.

Mae **Atodiad C** i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r sylwadau a gafwyd gan ymgynghoreion cyhoeddus.

Mae Atodiad D i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r sylwadau a gafwyd gan sefydliadau eraill.

Mae **Atodiad E** i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r deunyddiau ymgysylltu a ddarparwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus

Mae Atodiad F i'r adroddiad hwn yn cynnwys copiâu o'r deunyddiau ymgysylltu a ddarparwyd i randdeiliaid technegol.

Mae **Atodiad G** i'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses ddylunio fanwl sy'n sail i Daenlen Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a Chynllun Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig

1 Dulliau Ymgysylltu

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r dulliau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu ag ymgynghoreion ynghylch y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn Llain 9, Parc Cybi er mwyn helpu i ddrafftio Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan adran 59 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

1.1 Nodi Ymgynghoreion

Cynhaliwyd ymarfer mapio helaeth cyn dechrau'r ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod yr holl ymgynghoreion technegol perthnasol yn cael eu nodi.

Ceir rhestr lawn o'r ymgynghoreion a nodwyd yn **Atodiad A**.

Dewiswyd parth ymgynghori er mwyn sicrhau bod yr holl berchenogion a meddianwyr perthnasol yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys:

- perchenogion tir ger y safle;
- meddianwyr tir ger y safle, neu ffyrdd a gaiff eu defnyddio gan gerbydau yn teithio i'r safle ac oddi yno, y mae'r datblygiad yn debygol o effeithio arnynt.

Ffigur 1.1: Y Ffin Ymgynghori Linell Goch



Yr ardal o fewn y Ffin Ymgynghori Linell Goch a ddangosir yn y llun uchod yw'r ardal ymgynghori leol ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig ym Mharc Cybi. Dewiswyd y Ffin Ymgynghori Linell Goch yn seiliedig ar b'un a oedd eiddo wedi'i leoli ger y safle ac allai, felly, gael ei amlygu i draffig ychwanegol ar y rhwydwaith ffyrdd oddi amgylch, mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol ac er mwyn ystyried effeithiau amgylcheddol lleol a allai effeithio ar dderbynyddion yn yr ardal. I'r graddau hyn, penderfynwyd y byddai

unrhyw eiddo masnachol neu breswyl o fewn 1km i'r safle yn cael deunyddiau ymgynghori. Roedd hyn yn golygu bod 459 o gyfeiriadau wedi cael y deunydd ymgynghori drwy'r post, fel y dangosir yn nhabl 1.1. isod.

Mae'r Ffin Ymgynghori Linell Goch yn cynnwys Parc Gwledig Trearddur, Gwasanaethau Arhosfan Loriau Roadking a Premier Inn Caergybi, ynghyd â nifer o eiddo preswyl ger yr A55 a Bae Trearddur y gellid effeithio arnynt am eu bod yn agos i'r safle a'r effaith ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol o ganlyniad i adeiladu a gweithredu'r safle.

Yn ogystal â nodi'r aelodau hynny o'r gymuned â diddordeb yn y safle, roedd yn hanfodol ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol y byddai ganddynt diddordeb ehangach yn y cynllun. Dangosir y rhanddeiliaid allweddol hyn isod.

Mae gan bob un o'r awdurdodau canlynol swyddogaeth o ran y safle neu ran ohono:

- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – awdurdod tân ac achub (fel y'i diffinnir yn adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 2004)(a))
- Cyngor Sir Ynys Môn – awdurdod llifogydd lleol arweiniol (fel y'i diffinnir yn adran 6(7) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (b))
- Cyngor Sir Ynys Môn – awdurdod lleol
- Cyngor Sir Ynys Môn – awdurdod priffyrdd lleol
- Cyngor Sir Ynys Môn – awdurdod cynllunio lleol

Oherwydd eu rolau yn yr ardal leol a'r rhanbarth, cafodd y sefydliadau canlynol eu cynnwys hefyd fel ymgynghoreion ar gyfer y Gorchymyn Datblygu Arbennig hwn:

- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - sef awdurdod cymwys rheoli peryglon damweiniau mawr (COMAH) fel y'i diffinnir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 2015(c) (os yw'r safle neu unrhyw ran ohono mewn ardal perygl i ddiogelwch neu'n cynnwys ardal perygl i ddiogelwch).
- Arolygiaeth Diogelwch Tân Safleoedd y Goron
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith Llywodraeth Cymru
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA)
- Cadw
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd / Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd
- Dŵr Cymru
- Land & Lakes – deiliad tir cyfagos
- Stena Line – perchennog Porthladd Caergybi a gweithredwr fferïau
- Irish Ferries – gweithredwr fferïau

1.2 Gwybodaeth a roddwyd i'r Ymgynghoreion

Rhoddwyd gwybodaeth i'r holl ymgynghoreion a restrir yn **Atodiad A** i'r adroddiad hwn am y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig. Roedd hyn o leiaf yn cynnwys gwybodaeth am leoliad y safle, y defnydd arfaethedig ohono a gwybodaeth gryno am y llwybr cynllunio a'r broses ymgynghori.

Cafodd rhanddeiliaid technegol penodol wybodaeth fanylach, gan gynnwys cynllun arfaethedig y safle ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau a, lle roedd yn bosibl, asesiadau technegol a gynhaliwyd i gefnogi'r cyflwyniad cynllunio. Mae Pennod 2 yn nodi'r wybodaeth a roddwyd i ymgynghoreion penodol a phryd.

At hynny, gwnaethom ymgysylltu'n anffurfiol ag ymgynghoreion wrth baratoi'r cyflwyniad cynllunio. Roedd y gweithgarwch ymgysylltu hwn ar ffurf gohebiaeth drwy e-bost, sgysiau dros y ffôn a chyfarfodydd.

Ceir enghreifftiau o ddeunyddiau ymgysylltu a ddefnyddiwyd i roi gwybodaeth i ymgynghoreion yn **Atodiadau E ac F**. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o'r deunyddiau a ddarparwyd yn y Pecyn Gwybodaeth a sgrinluniau o'r wefan ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig.

1.3 Dulliau o Ymgysylltu ag Ymgynghoreion


Defnyddiwyd amrywiaeth o sianeli cyfathrebu i roi cyhoeddusrwydd i'r cynigion, codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ag ymgynghoreion, fel y'u rhestrir Tabl 1.1: Dulliau Ymgysylltu isod.

Tabl 1.1: Dulliau Ymgysylltu

| Sianel gyfathrebu | Nod | Manylion |
|---------------------------------|---|---|
| Pecynnau Gwybodaeth drwy'r Post | Codi ymwybyddiaeth o'r cynigion, y cyfnod ymgynghori, sut i gael rhagor o wybodaeth ac ymateb i'r ymgynghoriad. | Pecynnau Gwybodaeth a bostiwyd at berchenogion a meddianwyr perthnasol yn y parth ymgysylltu, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">Llythyr hysbysu am ymgysylltu (Cymraeg a Saesneg)Taflen wybodaeth 8 tudalen (Cymraeg a Saesneg)Ffurflen adborth (Cymraeg a Saesneg)Ffurflen ymateb radbostDatganiad preifatrwydd o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (Cymraeg a Saesneg)Cyfarwyddiadau i weld gwefan yr ymgynghoriad https://inlandborderfacilities.uk/ |
| Hysbysiadau safle | Codi ymwybyddiaeth o'r cynigion, y cyfnod ymgynghori, sut i gael rhagor o wybodaeth ac ymateb i'r ymgynghoriad. | Cafodd 78 o hysbysiadau safle yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad eu harddangos o amgylch Caergybi, gan roi cyfarwyddiadau i weld gwefan yr ymgynghoriad https://inlandborderfacilities.uk/ Dengys Ffigur 1.2 isod leoliadau'r holl hysbysiadau safle. |
| Pecynnau Gwybodaeth Electronig | Codi ymwybyddiaeth o'r cynigion, y cyfnod ymgynghori, sut i gael rhagor o wybodaeth ac ymateb i'r ymgynghoriad. Darparu gwybodaeth fanylach am y Safle Rheoli Ffiniau sy'n berthnasol i rôl a chylch gwaith yr ymgynghorai. | Roedd y Pecynnau Gwybodaeth Electronig a e-bostiwyd at ymgynghoreion yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none">Hysbysiad o'r cyfnod ymgynghori ffurfiolCynllun arfaethedig y safleAdroddiad ar yr Amlen Gydsynio |
| Gwefan | Darparu hyb i wybodaeth fanwl gywir am y cynigion ar gyfer y safle a chyfleuster i bartion â diddordeb gyflwyno sylwadau. | Llwyfan y wefan â manylion cryno am y cynigion ar gyfer y safle, dogfennaeth berthnasol a chyfleuster ar-lein ar gyfer rhoi adborth a gynhelir yn https://inlandborderfacilities.uk/ Roedd y dudalen we ar gael yn Gymraeg a Saesneg. |
| Gohebiaeth Llywodraeth Cymru | Er mwyn cysylltu gwefan y Cyfleuster Ffiniau Mewndirol a'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Datblygu Arbennig â chyfryngau swyddogol Llywodraeth Cymru. | Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet Cyfrif Twitter Llywodraeth Cymru (24 Ebrill 2021) (Gweler Ffigur 1.4 isod) Dolen i dudalen Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth Cymru |

| Sianel gyfathrebu | Nod | Manylion |
|---|---|--|
| Cyfarfodydd ag unigolion neu nifer o bobl | Codi ymwybyddiaeth o'r cynigion, trafod problemau neu bryderon a rhannu gwybodaeth dechnegol ag ymgynghoreion perthnasol er mwyn llywio'r cyflwyniad. | Cynhaliwyd cyfarfodydd ag ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol a'r cyfnod ymgysylltu anffurfiol yn ôl yr angen. |
| Negeseuon e-bost a galwadau ffôn | Dwysáu gweithgarwch ymgysylltu ag ymgynghoreion perthnasol, yn enwedig ymgynghoreion technegol a statudol. | Defnyddiwyd negeseuon e-bost a galwadau ffôn yn ôl yr angen i ddwysáu gweithgarwch ymgysylltu a gwella dealltwriaeth o'r cynigion, yr effeithiau posibl a mesurau lliniaru. Cofnodwyd yr holl ohebiaeth ac ymatebwyd iddi yn brydlon. |

Ffigur 1.2: Map o Leoliadau Hysbysiadau Safle



Ffigur 1.3: Trydariad o Gyfrif Llywodraeth Cymru



2 Cofnod o Ymgysylltu ac Ymgynghori

Er mwyn helpu i ddrafftio Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan adran 59 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae'r bennod hon yn crynhoi'r cyfnod o amser a roddwyd i ymgynghoreion gyflwyno sylwadau (gan gynnwys y dyddiad y dechreuodd y cyfnod ymgynghori) a'r wybodaeth a roddwyd i'r ymgynghoreion.

2.1 Ymgynghoreion

Rhoddir crynodeb o'r gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd ag Ymgynghoreion fel Tabl 2.1 isod.

Tabl 2.1: Ymgynghoreion

| Sefydliad | Dechrau a Diwedd y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Cyfanswm y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Gwybodaeth a Roddwyd / Nodiadau | Y Dyddiad y Rhoddwyd y Wybodaeth |
|---------------------------------------|---|--|--|----------------------------------|
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 3 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 112 diwrnod Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Neges e-bost yn cyflwyno'r cynigion a chrynodeb o'r safle | 3 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | | Y cyfarfod cyntaf â'r gwasanaethau brys. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd capasiti'r safle, mesurau diogelwch, mynediad brys a phroses y Gorchymyn Datblygu Arbennig | 12 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | | Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori | 24 Mawrth 2021 |
| | | | Yn ail gyfarfod â'r gwasanaethau brys. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd mesurau diogelwch, mynediad brys, dyluniadau wedi'u diweddarau ar gyfer y safle, ynghyd â lleoliad ac addasrwydd hydrantau tân. | 6 Mai 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 2 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 113 diwrnod Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Neges e-bost yn cyflwyno'r cynigion a chrynodeb o'r safle | 2 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | | Galwad ffôn ragarweiniol â'r Uwch-Gynghorydd ar Dirweddau (CNC) a'r Uwch-Swyddog Tirweddau a Choed (Cyngor Sir Ynys Môn) i drafod cyfyngiadau allweddol y cynllun ar y dirwedd. | 2 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 23 Mehefin 2021 | | Y cyfarfod llawn cyntaf â swyddogion y cyngor. Rhannwyd dyluniadau cysyniadol cychwynnol a chynhaliwyd trafodaethau er mwyn diwallu anghenion rhanddeiliaid. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd capasiti'r safle, mesurau diogelwch, mynediad brys, proses y Gorchymyn Datblygu Arbennig, ystyriaethau amgylcheddol a swyddi/cyflogaeth | 8 Mawrth 2021 |
| | | | Trosolwg o'r strategaeth priffyrdd a thraffig. Cyfarfod ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn, Traffig Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i drafod priffyrdd. | 9 Mawrth 2021 |
| | | | Asesiad Cwmpasu Trafnidiaeth | 11 Mawrth 2021 |
| | | | Cyflwyniad a Sesiwn Holi ac Ateb ynghylch y cynigion i'r holl aelodau etholedig a swyddogion perthnasol | 18 Mawrth 2021 |
| | | | Cyfarfod â Swyddog y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy i drafod y cynigion cychwynnol ar gyfer systemau draenio dŵr wyneb | 18 Mawrth 2021 |
| | | | Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori | 24 Mawrth 2021 |
| | | | Cyflwyniad a Sesiwn Holi ac Ateb ynghylch y cynigion i aelodau Ward etholedig a swyddogion perthnasol | 24 Mawrth 2021 |
| | | | Galwad ffôn ragarweiniol â'r Swyddog Ecoleg i drafod cyfyngiadau allweddol y cynllun ar ecoleg. | 1 Ebrill 2021 |
| | | | Galwad ffôn dechnegol â'r Swyddog Arbenigo mewn Rhywogaethau (CNC) a'r Swyddog Ecoleg (Cyngor Sir Ynys Môn) i gytuno ar y dull o ymdrin ag arolygon ecoleg a gwaith asesu. | 6 Ebrill 2021 |
| | | | Galwad ffôn ragarweiniol â'r Uwch-Gynghorydd ar Dirweddau (CNC) a'r Uwch-Swyddog Tirweddau a Choed (Cyngor Sir Ynys Môn) i drafod golygfannau cyfyngiadau i edrych ar y dirwedd a'r dull o asesu'r dirwedd. | 14 Ebrill 2021 |
| | | | Cynllun Drafft y System Ddraenio | 13 Mai 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | Cynhaliwyd gweithdai gyda Swyddog Ecoleg Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddog Arbenigo mewn Rhywogaethau CNC, Land & Lakes a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ynys Môn. Ymdriniodd y gweithdy â'r asesiadau a'r mesurau dylunio a lliniaru sydd wedi'u rhoi ar waith yn y dyluniad er mwyn sicrhau na fydd y cynllun yn cael effeithiau andwyol sylweddol. | 10 Mehefin 2021 | | |
| | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol a Thrawsluniau | 11 Mehefin 2021 | | |

| Sefydliad | Dechrau a Diwedd y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Cyfanswm y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Gwybodaeth a Roddwyd / Nodiadau | Y Dyddiad y Rhoddwyd y Wybodaeth |
|---|---|---|---|----------------------------------|
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd i'w adolygu | 2 Gorffennaf 2021 |
| Heddlu Gogledd Cymru | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 3 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 112 diwrnod | Neges e-bost yn cyflwyno'r cynigion a chrynodeb o'r safle | 3 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | | Y cyfarfod cyntaf â'r gwasanaethau brys. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd capasiti'r safle, mesurau diogelwch, mynediad brys a phroses y Gorchymyn Datblygu Arbennig | 12 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori | 24 Mawrth 2021 |
| | | | Yn ail gyfarfod â'r gwasanaethau brys. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd mesurau diogelwch, mynediad brys, cynlluniau wedi'u diweddarau o'r safle, ynghyd â lleoliad ac addasrwydd hydrantau tân. | 6 Mai 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 3 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 112 diwrnod | Neges e-bost yn cyflwyno'r cynigion a chrynodeb o'r safle | 3 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | | Y cyfarfod cyntaf â'r gwasanaethau brys. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd capasiti'r safle, mesurau diogelwch, mynediad brys a phroses y Gorchymyn Datblygu Arbennig | 12 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori | 24 Mawrth 2021 |
| | | | Yn ail gyfarfod â'r gwasanaethau brys. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd mesurau diogelwch, mynediad brys, cynlluniau wedi'u diweddarau o'r safle, ynghyd â lleoliad ac addasrwydd hydrantau tân. | 6 Mai 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| Arolygiaeth Diogelwch Tân Safleoedd y Goron | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 24 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 91 diwrnod | Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori | 24 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | | Cyfarfod i drafod y cynnig. Nododd Arolygiaeth Diogelwch Tân Safleoedd y Goron na fyddai angen cysylltu â hi eto nes i'r amlen gydsynio gael ei chyhoeddi er mwyn cael sylwadau arni am ei bod yn ymwneud â rheoliadau adeiladu yn unig. Cyfeiriodd pob mater yn ymwneud â diogelwch tân ar y gwasanaeth tân lleol. | 26 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 3 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 112 diwrnod | Cyfarfod i drafod trosolwg o dirweddau a materion amgylcheddol. | 3 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | | Neges e-bost yn rhoi gwybod bod y cyfnod ymgynghori yn dechrau. | 24 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Galwad ffôn ragarweiniol â'r Swyddog Arbenigo mewn Rhywogaeth i drafod cyfyngiadau allweddol y cynllun ar ecoleg. | 31 Mawrth 2021 |
| | | | Galwad ffôn dechnegol â'r Swyddog sy'n Arbenigo mewn Rhywogaethau (CNC) a'r Swyddog Ecoleg (Cyngor Sir Ynys Môn) i gytuno ar y dull o ymdrin ag arolygon ecoleg a gwaith asesu. | 6 Ebrill 2021 |

| Sefydliad | Dechrau a Diwedd y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Cyfanswm y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Gwybodaeth a Roddwyd / Nodiadau | Y Dyddiad y Rhoddwyd y Wybodaeth |
|--|---|---|---|---|
| | | | Galwad ffôn ragarweiniol â'r Uwch-Gyngorydd ar Dirweddau (CNC) a'r Uwch-Swyddog Tirweddau a Choed (Cyngor Sir Ynys Môn) i drafod golygfannau cyfyngiadau i edrych ar y dirwedd a'r dull o asesu'r dirwedd. | 14 Ebrill 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Cynhaliwyd gweithdai gyda Swyddog Ecoleg Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddog Arbenigo mewn Rhywogaethau CNC, Land & Lakes a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ynys Môn. Ymdrinodd y gweithdy â'r asesiadau a'r mesurau dylunio a lliniaru sydd wedi'u rhoi ar waith yn y dyluniad er mwyn sicrhau na fydd y cynllun yn cael effeithiau andwyol sylweddol. | 10 Mehefin 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol a Thrawsluniau a Chynllun drafft y System Ddraenio. | 11 Mehefin 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd i'w adolygu | 2 Gorffennaf 2021 |
| Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 24 Mawrth 2021 Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 91 diwrnod Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Neges e-bost yn rhoi gwybod bod y cyfnod ymgynghori yn dechrau. Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 24 Mawrth 2021 2 Mehefin 2021 18 Mehefin 2021 |
| Traffig Cymru | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 3 Mawrth 2021 Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 112 diwrnod Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Neges e-bost yn cyflwyno'r cynigion a chrynodeb o'r safle Cyfarfod i drafod trosolwg o'r strategaeth priffyrdd a thraffig â Chyngor Sir Ynys Môn, Traffig Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Asesiad Cwmpasu Trafnidiaeth Neges e-bost yn rhoi gwybod bod y cyfnod ymgynghori yn dechrau. Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill Cyfarfod â Traffig Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i drafod trafndiaeth. Ymhlith y pynciau trafod roedd rhagfynegiadau/effeithiau traffig, ecoleg ac arferion asesu. Dangoswyd a thrafodwyd yr Asesiad presennol o Drafnidiaeth, yn dilyn diweddariadau. Datganiad Drafft am Drafnidiaeth a'r Cynllun Teithio Staff Amlinellol Drafft Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill Cyfarfod â Traffig Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i drafod trafndiaeth. Ymhlith y pynciau trafod roedd rhagfynegiadau/effeithiau traffig, ecoleg ac arferion asesu. Dangoswyd a thrafodwyd yr Asesiad presennol o Drafnidiaeth, yn dilyn diweddariadau. Nodyn Technegol ar Ecoleg | 3 Mawrth 2021 9 Mawrth 2021 11 Mawrth 2021 24 Mawrth 2021 2 Mehefin 2021 10 Mehefin 2021 11 Mehefin 2021 18 Mehefin 2021 22 Mehefin 2021 22 Mehefin 2021 |
| Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 3 Mawrth 2021 Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 112 diwrnod | Neges e-bost yn cyflwyno'r cynigion a chrynodeb o'r safle Cyfarfod â Chyngor Sir Ynys Môn, Traffig Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i drafod trosolwg o'r strategaeth priffyrdd a thraffig. Asesiad Cwmpasu Trafnidiaeth | 3 Mawrth 2021 9 Mawrth 2021 11 Mawrth 2021 |

| Sefydliad | Dechrau a Diwedd y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Cyfanswm y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Gwybodaeth a Roddwyd / Nodiadau | Y Dyddiad y Rhoddwyd y Wybodaeth |
|---|---|---|---|----------------------------------|
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Neges e-bost yn rhoi gwybod bod y cyfnod ymgynghori yn dechrau. | 24 Mawrth 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Cyfarfod â Traffig Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i drafod trafndiaeth. Ymhlith y pynciau trafod roedd rhagfynegiadau/effeithiau traffig, ecoleg ac arferion asesu. Dangoswyd a thrafodwyd yr Asesiad presennol o Drafnidiaeth, yn dilyn diweddariadau. | 10 Mehefin 2021 |
| | | | Datganiad Drafft am Drafnidiaeth a'r Cynllun Teithio Staff Amlinellol Drafft | 11 Mehefin 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| | | | Cyfarfod â Traffig Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i drafod trafndiaeth. Ymhlith y pynciau trafod roedd rhagfynegiadau/effeithiau traffig, ecoleg ac arferion asesu. Dangoswyd a thrafodwyd yr Asesiad presennol o Drafnidiaeth, yn dilyn diweddariadau. | 22 Mehefin 2021 |
| | | | Nodyn Technegol ar Ecoleg | 22 Mehefin 2021 |
| Cadw | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 3 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 112 diwrnod | Neges e-bost yn cyflwyno'r cynigion a chrynodeb o'r safle | 3 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | | Neges e-bost yn rhoi gwybod bod y cyfnod ymgynghori yn dechrau. | 24 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Galwad ffôn dechnegol â'r Uwch-Archaeolegydd Cynllunio (Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd) a'r Uwch-Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd Hanesyddol (Cadw) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ffurf bresennol yr asesiad o dreftadaeth a'r dull o'i gynnal. | 7 Mai 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol a Thrawsluniau | 11 Mehefin 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd i'w adolygu | 2 Gorffennaf 2021 |
| Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 5 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 110 diwrnod | Galwad ffôn i drafod y cynigion a phroses y Gorchymyn Datblygu Arbennig | 5 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 24 Mawrth 2021 | | Galwad ffôn i drafod trosolwg o effeithiau'r cynllun ar dreftadaeth leol ac asedau archaeolegol. | 10 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 91 diwrnod | Neges e-bost yn rhoi gwybod bod y cyfnod ymgynghori yn dechrau. | 24 Mawrth 2021 |
| | | | Galwad ffôn dechnegol â'r Uwch-Archaeolegydd Cynllunio (Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd) a'r Uwch-Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd Hanesyddol (Cadw) i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ffurf bresennol yr asesiad o dreftadaeth a'r dull o'i gynnal. | 7 Mai 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Gweithdy gyda CNC a Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd a gynhaliwyd i drafod yr asesiad a gynhaliwyd a'r gwaith dylunio a wnaed ar gyfer treftadaeth a'r dirwedd er mwyn sicrhau na fydd y cynllun yn cael unrhyw effeithiau andwyol sylweddol. | 10 Mehefin 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol a Thrawsluniau | 11 Mehefin 2021 |

| Sefydliad | Dechrau a Diwedd y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Cyfanswm y Cyfnod Ymgysylltu / Ymgynghori | Gwybodaeth a Roddwyd / Nodiadau | Y Dyddiad y Rhoddwyd y Wybodaeth |
|---------------|---|---|---|----------------------------------|
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd i'w adolygu | 2 Gorffennaf 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd i'w adolygu | 2 Gorffennaf 2021 |
| Dŵr Cymru | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 25 Mawrth 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 90 diwrnod | Galwad ffôn i drafod y cynigion a phroses y Gorchymyn Datblygu Arbennig | 25 Mawrth 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 25 Mawrth 2021 | | Neges e-bost yn rhoi gwybod bod y cyfnod ymgynghori yn dechrau. | 25 Mawrth 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 90 diwrnod | Cyfarfod i drafod y systemau draenio a chynnig y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy | 22 Ebrill 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| Land & Lakes | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 29 Ebrill 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 56 diwrnod | Galwad ffôn i drafod y cynigion, proses y Gorchymyn Datblygu Arbennig a dechrau'r broses ymgynghori | 29 Ebrill 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 02 Mehefin 2021 | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 21 diwrnod | Cynhaliwyd gweithdai gyda Swyddog Ecoleg Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddog Arbenigo mewn Rhywogaethau CNC, Land & Lakes a Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Sir Ynys Môn. Ymdriniodd y gweithdy â'r asesiadau a'r mesurau dylunio a lliniaru sydd wedi'u rhoi ar waith yn y dyluniad er mwyn sicrhau na fydd y cynllun yn cael effeithiau andwyol sylweddol. | 10 Mehefin 2021 |
| | | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol, Trawsluniau a Chynllun drafft y System Ddraenio. | 11 Mehefin 2021 |
| | | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| | | Asesiad o Liwiau Amgylcheddol wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd i'w adolygu | 2 Gorffennaf 2021 | |
| Stena Line | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 29 Ebrill 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 56 diwrnod | Galwad ffôn i drafod y cynigion, proses y Gorchymyn Datblygu Arbennig a dechrau'r broses ymgynghori | 29 Ebrill 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 02 Mehefin 2021 | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 21 diwrnod | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |
| Irish Ferries | Yr Ymgysylltiad Cychwynnol: 29 Ebrill 2021 | Cyfanswm y cyfnod ymgysylltu: 56 diwrnod | Galwad ffôn i drafod y cynigion, proses y Gorchymyn Datblygu Arbennig a dechrau'r broses ymgynghori | 29 Ebrill 2021 |
| | Dechrau'r Ymgynghoriad Ffurfiol 02 Mehefin 2021 | | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Hysbysiad o'r Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 2 Mehefin 2021 |
| | Diwedd yr Ymgynghoriad Ffurfiol 22 Mehefin 2021 | Y cyfnod ymgynghori ffurfiol: 21 diwrnod | Lluniad wedi'i ddiweddarau o Drefniant Cyffredinol y Safle, Adroddiad ar yr Amlen Gydsynio a Nodyn Atgoffa am y Cyfnod Ymgynghori sy'n Weddill | 18 Mehefin 2021 |

3 Crynodeb o Ganlyniad y Gweithgarwch Ymgysylltu

Mae'r bennod hon yn crynhoi canlyniad yr ymgynghoriad â phob rhanddeiliad technegol a gymerodd ran yn y broses ymgynghori.

Ceir copiâu o'r sylwadau a gafwyd gan Ymgynghoreion yn **Atodiad B**.

3.1 Ymatebion i'r ymgynghoriad gan ymgynghoreion a nodwyd

Mae canlyniad y gweithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd ag Ymgynghoreion wedi'i ddarparu fel yn Nhabl 3.1 isod

Tabl 3.1: Ymgynghoreion a nodwyd – Adborth ac Ymateb

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | | |
|----------------------------|---|--|
| <p>Cyngor Sir Ynys Môn</p> | <p>Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r cyfle a gynigir gan y broses ymgysylltu hon ac yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod materion sy'n destun pryder yn lleol ac effeithiau negyddol ar dderbynyddion yn cael eu dileu drwy waith dylunio neu'n cael eu lleihau i lefelau derbyniol o leiaf.</p> | <p>Ystyried Pryderon, Derbynyddion a Mesurau Lliniaru</p> <p>Mae dyluniad y cynllun wedi'i ddatblygu drwy broses iteraidd, gan ystyried yr effeithiau posibl ar y trigolion lleol, seilwaith lleol a'r amgylchedd. O ganlyniad, mae mesurau lliniaru wedi'u hymgorffori yn nyluniad y cynllun, sydd wedi llywio'r cynigion ar gyfer Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig ac Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig. Mae Taenlen Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig (BCP21-006-04-00) yn nodi terfynau arfaethedig mewn perthynas â'r datblygiad adeiledig a ganiateir ar y safle. Mae hefyd yn nodi terfynau arfaethedig i reoli'r gwaith datblygu yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Mae'r Amlen Gydsynio a'r Cyfyngiadau wedi bod yn sail i'r Asesiad Amgylcheddol er mwyn sicrhau na fydd adeiladu a gweithredu'r Safle Rheoli Ffiniau yn cael unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol. Ni chaniateir defnyddio Gorchymyn Datblygu Arbennig o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 os bydd y datblygiad yn cael effeithiau amgylcheddol sylweddol, fel y'u pennir yn unol â Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol.</p> |
| | <p>Defnydd Parhaol a Chyflogaeth</p> <p>Mae yr un mor hanfodol sicrhau cynifer o fanteision a chyflleoedd lleol â phosibl drwy greu swyddi, hyfforddiant a phrosesau caffael drwy roi blaenoriaeth i gyflleoedd i ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol lle y bo'n bosibl, wrth adeiladu a gweithredu'r cyfleuster. Dylai'r datblygiad geisio cyflogi pobl o Ynys Môn ac anogir trafod hyn â'r Ganolfan Gwaith leol / asiantaethau cymorth cyflogaeth lleol megis Môn CF.</p> | <p>Defnydd Parhaol a Chyflogaeth</p> <p>Bwriedir i'r cynllun fod yn ddatblygiad parhaol ac, felly, byddai'n creu cyflleoedd cyflogaeth hirdymor sylweddol, gan gynnwys swyddi sgil uchel megis personél Llywodraeth Cymru a phersonél diogelwch, rheoli traffig ac arolygu a rheoli safle, gan gael effaith fuddiol ar y gymuned leol. Disgwylir tua 60 o gyflogeion fesul sifft gyda thair sifft dros bob cyfnod o 24 awr, gan gynnwys tua 10 marsial sydd eu hangen i reoli cerbydau a cherddwyr yn ddiogel o fewn y cyfleuster.</p> <p>Cwblheir strategaeth cyflogaeth, ar gyfer pob agwedd ar gyflogaeth ar y safle, a bydd yn rhoi ystyriaeth lawn naill ai i Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru neu'r Pecyn Mesur Buddion Cymunedol fel rhan o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru 2021, gan sicrhau y defnyddir cyflogaeth leol cymaint â phosibl i sicrhau budd i'r gymuned leol. At hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y prosiect drwy Fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru ac, felly, bydd y prosiect yn cydymffurfio â gofynion y fframwaith. Bydd y strategaeth hon yn rhan o Gynllun Rheoli Gweithredol y safle a chaiff ei datblygu ar ôl i Lywodraeth Cymru benodi gweithredwr safle. Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Ynys Môn wrth i'r trefniadau hyn ddatblygu.</p> |
| | <p>Gwaith Ymgysylltu Parhaus</p> <p>Deëllir bod caniatâd yn cael ei roi ar gyfer defnydd arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r safle drwy Orchymyn Datblygu Arbennig o dan adran 59(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn rhoi caniatâd parhaol ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau. Mae a wnelo'r gwaith ymgysylltu presennol ag 'Amlen gydsynio' a fydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu cais am Orchymyn Datblygu Arbennig ac sy'n nodi terfyn uchaf y paramedrau a'r cyfyngiadau lle y gall datblygiad ddigwydd.</p> <p>Mae lluniad o'r 'Trefniant Cyffredinol', sy'n dangos y bwriadau presennol ar gyfer dyluniad y safle, wedi'i ddarparu, ynghyd ag 'amlen gydsynio' sy'n dangos y paramedrau y mae'n rhaid i unrhyw ddyluniad a newidiwyd weithio oddi mewn iddynt. Nodir, er bod dyluniad y safle wedi datblygu dros y misoedd, y gallai newid o hyd yn dilyn adborth pellach gan randdeiliaid technegol a mewnbwn gan adeiladwyr a gweithredwyr y safle yn y dyfodol. Yn hyn o beth, hoffai Cyngor Sir Ynys Môn weld y dull cydweithredol a fabwysiadwyd hyd yma yn parhau.</p> | <p>Gwaith Ymgysylltu Parhaus</p> <p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgynghoreion am ddiweddiadau i'r dyluniad a bydd yn rhoi gwybodaeth i randdeiliaid pan fydd yn berthnasol. Rhoddir gwybodaeth i drigolion lleol hefyd yn ystod cerrig milltir pwysig y prosiect megis pan roddir penderfyniad cynllunio ac ar ddechrau'r cam adeiladu.</p> |
| | <p>Ecoleg/ Bioamrywiaeth</p> <p>Er nad yw gwaith arolygu ar y safle neu'n agos ato wedi canfod unrhyw dystiolaeth o fadfallod dŵr cribog, dylid cynnwys rhai nodweddion gwella cynefin ar gyfer y rhywogaeth hon yn y gwaith tirlunio. Er enghraifft, rhai pyllau bach na fyddant yn rhan o systemau Draenio Cynaliadwy.</p> <p>Yn yr un modd, dylid cynnwys rhai manteision mewn gwaith tirlunio ar gyfer ymlusgiaid, er enghraifft gwella cynefin er mwyn cysylltu dwy ardal neu fwy sydd â photensial ar gyfer ymlusgiaid ar hyn o bryd neu weithredu fel 'cerrig sam' rhyngddynt. Mae'n bwysig bod yr holl nodweddion tirwedd sy'n berthnasol i fioamrywiaeth yn destun rhaglen rheoli cadwraeth yn ystod oes y cynnig, ac nid am y 15 mlynedd a gynigir ar hyn o bryd. Nid yw gofynion Deddf yr Amgylchedd Cymru ar gyfer cadw a gwella bioamrywiaeth yn nodi terfynau amser ac mae angen ymrwymiad hirdymor.</p> | <p>Ecoleg / Bioamrywiaeth</p> <p>Ar ôl ymgysylltu'n anffurfiol ac yn ffurfiol â Swyddog Ecoleg Cyngor Sir Ynys Môn, mabwysiadwyd y dull cydweithredol canlynol:</p> <p>Mabwysiadwyd dull gweithredu yn seiliedig ar arolygon DNA amgylcheddol a phresenoldeb/absenoldeb ar gyfer madfallod dŵr cribog ac addaswyd yr arolygon i'r dull gweithredu mwyaf cymesur. Roedd hyn yn cynnwys cynnal arolygon DNA amgylcheddol ar gyfer pob pwll a ffos o fewn 300m a dulliau arolygu llawn ar gyfer y rhai o fewn 250m. Ni chanfuwyd unrhyw fadfallod dŵr cribog.</p> <p>Arweiniodd trafodaethau at y dybiaeth y dylid tybio pob ymlusgiaid i'w cael mewn rhannau o'r safle. Cytunwyd y dylid ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad dull ar gyfer ymlusgiaid gael ei lunio.</p> <p>Awgrymodd y Swyddog Ecoleg y dylid dynodi ardal wlyptir y system ddraenio gynaliadwy er mwyn diogelu bywyd gwylt. Mae'r syniadaeth hon wedi'i chymhwyso at arweinydd y gwaith dylunio, a bydd yn ymgorffori o leiaf ddau bwl a fydd yn denu amffibiaid ac, yn y pen draw, fadfallod dŵr cribog, gobeithio.</p> <p>Ar ôl ymgysylltu â'r Swyddog Ecoleg yng Nghyngor Sir Ynys Môn, diwygiwyd terfyn arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig i gynnal y llain glustogi dirlunio am 15 mlynedd er mwyn sicrhau, petai'n cael ei roi ar waith, y byddai terfyn y Gorchymyn Datblygu Arbennig yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwaith plannu tirlunio gael ei gynnal yn ystod oes y Safle Rheoli Ffiniau. Mae hwn yn derfyn arfaethedig y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu arno yn y pen draw, yn rhinwedd eu swyddogaeth fel awdurdod penderfynu.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau â'r Swyddog Ecoleg, mireiniwyd cyfyngiad y Gorchymyn Datblygu Arbennig ar gyfer goleuadau ymhellach, er mwyn sicrhau na fydd y cynllun yn 'colli golau' ar gynefinoedd a gadwyd na'r ardal ehangach (gan gynnwys yr AHNE). Ers hynny, mae'r cyfyngiad wedi'i fireinio er mwyn sicrhau y cyfyngir 'colli golau' i'r Ardal Ddatblygadwy + 1m yn unig.</p> |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | |
|---|--|
| | |
| <p>Tirwedd</p> <p>Er nad yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi gweld yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol a baratowyd, gwneir y sylwadau canlynol:</p> <p>Mewn perthynas â dulliau o drin ffensys terfyn: mae'n cytuno y dylid defnyddio Asesiad o Liwiau Amgylcheddol er mwyn helpu i bennu'r lliw/gorffeniad: mae'n bosibl y bydd pren wedi'i hindreulio'n naturiol yn dderbyniol hefyd. Awgrymwyd uchder o 4 metr ar gyfer y ffens acwstig a ddangosir ar y trawsluniau (nis dangosir ar 100100493-MMD-XX-DR-AR-0001 DRAFT P01.8) ac, ar yr uchder hwn, gallai gwaith tirlunio ddarparu mesur sgrinio effeithiol ar gyfer y ffens o fewn cyfnod byrrach o amser. Gorffeniadau ffurfiau adeiledig: cynhaliwyd Asesiad o Liwiau Amgylcheddol a nododd amrywiaeth o orffeniadau lliw addas. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ffafrio lliwiau mwy tywyll, o fewn yr ystod y nodwyd ei bod yn ddangosol/addas ar gyfer yr ardal, yn enwedig ar gyfer y to. Dylid defnyddio gorffeniadau mat ar gyfer y to er mwyn osgoi llacharedd. Gellid defnyddio amrywiaeth o liwiau er mwyn lleihau effaith mäs adeilad mewn golygfeydd lleol.</p> <p>Goleuadau: mae angen osgoi llygredd golau a fyddai, ar y cyd â'r llinell sylfaen, yn golygu bod effeithiau andwyol ar gymeriad yr ardal yn yr AHNE yn annerbyniol neu fod golwg y safle yn annerbyniol o amrywiaeth o dderbynyddion gan gynnwys rhai preswyl.</p> <p>Tirlunio: bydd angen rheoli gwaith tirlunio yn yr hirdymor er mwyn iddo fod yn effeithiol o ran lleihau effeithiau. Bydd gwneud y llain glustogi yn lletach fel y cynigir yn cynyddu'r potensial iddi leihau effeithiau gweledol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn digwydd o fewn cyfnod rhesymol o amser i'r graddau y bydd effeithiau andwyol sylweddol, os cânt eu nodi yn yr Arfarniad Tirwedd a Gweledol, yn cael eu lleihau i lefel ganolig.</p> <p>Mae adran 1.2 yn nodi y bydd yr asesiad amgylcheddol ar gyfer y Gorchymyn Datblygu Arbennig yn dangos na fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau andwyol sylweddol. Mae'r atodiad yn nodi ei bod yn hanfodol cadw'r bwnd presennol o lystyfiant ac ychwanegu ato er mwyn lleihau effeithiau andwyol sylweddol ar dderbynyddion gweledol. Heb weld yr Arfarniad Tirwedd a Gweledol, nid yw'n glir a yw effeithiau sylweddol ar olygfannau ger derbynyddion preswyl wedi'u nodi a yw'r pwys priodol yn cael ei roi ar fesurau tirlunio lliniarol er mwyn lleihau effeithiau.</p> | <p>Tirwedd</p> <p>Diweddarwyd yr Asesiad o Liwiau Amgylcheddol yn dilyn sylwadau gan Uwch-Swyddog Tirwedd a Choed Cyngor Sir Ynys Môn a nododd fod lliw arfaethedig y to yn rhy olau. Ers hynny mae'r Asesiad o Liwiau Amgylcheddol wedi cael ei ddiweddarau i balet mwy tywyll a'i ail-anfon i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn iddo wneud sylwadau arno, a nodwyd ei fod yn briodol ar gyfer ardal y cynllun.</p> <p>Goleuadau: Mae'r cynllun mewn rhan rannol ddatblygedig o Barc Cybi ac mae'r ffordd feingefn eisoes wedi'i goleuo'n rhannol. Serch hynny, mae mesurau goleuo wedi'u hymgorffori yn nyluniad y cynllun ac wedi'u nodi fel cyfyngiad arfaethedig yn y Gorchymyn Datblygu Arbennig er mwyn sicrhau bod goleuadau yn gyfeiriol ac o dan gwcwl a'u bod mor isel ag y bo'n ymarferol. Byddai lwcs goleuadau a cholli golau yn cael eu dylunio yn unol â gofynion parth E2 - (Nodyn Cyfarwyddyd ar Olau Ymwthiol GN01/20 - Y Comisiwn Rhyngwladol ar Oleuo, 2020), a fyddai'n sicrhau bod coridor tywyll yn cael ei gynnal o amgylch terfyn allanol y safle. Byddai hyn yn lleihau'r effeithiau ar yr AHNE a derbynyddion preswyl cyfagos er mwyn sicrhau na fydd cyflwyno goleuadau newydd yn cael effaith sylweddol ar y derbynyddion hyn. Felly, ni ragwelir y bydd goleuadau yn cael unrhyw effeithiau sylweddol.</p> <p>Tirwedd: Dylid plannu llain glustogi dirluniol 10m o led yn cynnwys cymysgedd o rywogaethau coed brodorol rhwng y bwnd presennol o goed a'r ardal ddatblygadwy er mwyn cuddio'r datblygiad mewn golygfeydd o'r safle o'r Gorllewin-Dde-Orllewin o dderbynyddion gweledol sensitif sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos. Tua rhan ddwyreiniol y safle, bydd y llain glustogi dirluniol yn cynnwys dwy elfen linellol, un i'r de o'r brif ffordd fynediad a rhan arall yn gyfocrog â'r bwnd presennol â choed. Mewn unrhyw fan unigol, bydd y ddwy elfen, gyda'i gilydd, yn darparu llain glustogi dirluniol sydd o leiaf 10m o led. Caiff y bwnd tirluniol presennol ei gadw ac ychwanegir ato, a fydd yn cuddio'r datblygiad rywfaint yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ddechrau'r cyfnod gweithredu a nes i'r llain glustogi dirluniol ymsefydlu fel y nodir ar y lluniad o'r Amlen Gydsynio 100100943-MMD-PC-XX-DR-AR-0012.</p> <p>Ar ôl ymgynghori â CNC a Chyngor Sir Ynys Môn, mae'r geiriad ar gyfer cynnal a chadw'r Safle Rheoli Ffiniau a'i reoli wedi'i addasu er mwyn sicrhau bod rhaglen cadw a chynnal a rheoli briodol ar waith dros oes y Safle Rheoli Ffiniau. Mae hyn wedi'i gynnwys yn Nhaenlen Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig er mwyn sicrhau bod y gwaith plannu newydd yn cael ei sefydlu'n llwyddiannus.</p> <p>Er na rannwyd yr Arfarniad Tirwedd a Gweledol llawn â'r rhanddeiliaid, rhannwyd y golygfannau a nodwyd ac a aseswyd drwy sawl galwad fideo-gynadledda ac roedd pob rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o ddewis y golygfannau. Rhannwyd canlyniadau'r Arfarniad Tirwedd a Gweledol, gan gynnwys yr olygfa o'r safle o'r golygfannau hyn, ar y sgrin ac fe'u trafodwyd yn helaeth. Trafodwyd dull gweithredu a methodoleg yr Arfarniad Tirwedd a Gweledol â rhanddeiliaid yn ystod y broses hon. Trafodwyd casgliadau'r Arfarniad Tirwedd a Gweledol, sef gyda chyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig ar waith (cyfyngu ar uchder adeiladau, gwaith plannu lliniarol, cadw a gwella llystyfiant presennol gan gynnwys gwaith cynnal er mwyn sicrhau ei fod yn ymsefydlu), ei fod yn rhoi digon o gadarnhad na fydd unrhyw effeithiau sylweddol. Ystyrir bod pwys priodol wedi'i roi ar fesurau tirlunio lliniarol i leihau effeithiau, gan y bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith fel un o gyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig ac y byddant, felly, yn hanfodol i gyflawni'r cynllun.</p> |
| <p>Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS).</p> <p>Er nad yw proses y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB) yn rhan o broses y Gorchymyn Datblygu Arbennig, mae Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy wedi gweld y lluniad o'r 'Trefniant Cyffredinol' ac wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol:</p> <p>Dengys prif nodweddion y systemau draenio cynaliadwy, cynaeafu dŵr, lleiniau hidlo, pantiau, pyllau arafu ac ati, mae angen mwy o fanylion am ddyluniad y systemau draenio e.e. manylion mesurau rheoli gollyngiadau o lwythi ôl-gerbydau a gwahanwyr olew a thanwydd ac ati ond, ar y cyfan, mae dyluniad y safle hwn yn cyd-fynd â thrafodaethau blaenorol.</p> | <p>Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS).</p> <p>Caiff y dŵr wyneb ffo o'r datblygiad arfaethedig ar Lain 9 ei reoli drwy gyfres o nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy. Cynigir y dylid cynaeafu dŵr glaw er mwyn aildefnyddio'r dŵr o doeau, gan leihau faint o ddŵr ffo sy'n llifo o'r safle a'r defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad. Cynigir y dylai cymaint o ddŵr wyneb ffo â phosibl gael ei gludo gan systemau draenio cynaliadwy ar wyneb y ddaear, gan gynnwys lleiniau hidlo, pantiau, draeniau hidlo, basn crynhoi a phalmentydd athraidd. Er bod y cyfraddau ymdreiddio ar y safle yn wael, bydd y systemau draenio cynaliadwy yn ei gwneud yn bosibl i rywfaint o ddŵr ymdreiddio i'r ddaear ond gyda llif y rhan fwyaf o'r dŵr wyneb yn cael ei arafu yn y basn crynhoi. Bydd llifau o'r basn crynhoi yn gollwng i'r cwrs dŵr presennol ond fe'u cyfyngir i gyfradd dŵr ffo Maes glas ar gyfer safle ac mae'r basn crynhoi yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer y digwyddiad storm 1 mewn 100 mlynedd ynghyd â newid o 30% yn yr hinsawdd.</p> |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | |
|---|--|
| | <p>Darperir mesurau atal llygredd o'r dŵr wyneb ffo (sy'n draenio i'r ddaear a/neu'r cwrs dŵr presennol) gan y systemau draenio cynaliadwy, sy'n ffurfio cadwyn drin. Yn ogystal â'r broses lanhau a ddarperir gan gadwyn drin y systemau draenio cynaliadwy, mewn ardaloedd risg uchel, megis mannau parcio cerbydau nwyddau trwm ac ail-lenwi â thanwydd, mae'r dŵr ffo yn mynd drwy wahanwyr cadw / blaengwrt llawn Dosbarth 1 er mwyn tynnu hydrocarbonau a siltiau cyn iddo ollwng i'r cwrs dŵr presennol, drwy'r basn crynhoi. Bwriedir i'r dulliau hyn reoli unrhyw berygl o lifogydd, naill ai ar y safle neu yn yr ardal leol, o ganlyniad i'r datblygiad.</p> |
| <p>Diogelu'r Cyhoedd</p> <p>Dylai fod gan y Rhwystr Acwstig arfaethedig sy'n 5m o led ddwysedd o >25kg/m2 o leiaf a bod yn 'amsugol' yn hytrach nag 'adlewyrchol'. Deëllir mai hwn yw'r opsiwn a ffefrir.</p> <p>Argymhellir y dylid defnyddio Hysbysiad o Ganiatâd Ymlaen Llaw Adran 61 (o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974) (fel y'i defnyddiwyd wrth adeiladu'r cyfleuster stacio presennol ar gyfer cerbydau nwyddau trwm). Mae'n rhestru cyfarpar sy'n cadw sŵn ac yn galluogi'r datblygwr i gytuno ar baramedrau gweithredu a bydd yn ei gwneud yn bosibl i ddyddiadau ac amseroedd gweithredu gael eu rheoli. Ni ragwelir y bydd unrhyw broblemau gydag ansawdd aer ar y safle, yn ystod y cam adeiladu na phan fydd yn cael ei ddefnyddio'n weithredol. Mae angen cytuno ar Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) sy'n nodi mesurau ar gyfer rheoli sŵn, dirgryndod, golau a llwch ac ati.</p> | <p>Diogelu'r Cyhoedd.</p> <p>Nodir sylwadau ar rwystr acwstig a gellir cadarnhau y cytunir ar Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu cyn i unrhyw waith adeiladu ddechrau. Darperir mesurau lleihau sŵn yn unol ag argymhellion yr Asesiad o Effaith Sŵn sydd, yn gwyno, yn cynnwys optimeiddio cynllun y Safle Rheoli Ffiniau er mwyn sicrhau y bydd adeiladau yn sgrinio gweithgareddau ar y safle, rhwystr amsugol 5m ar hyd rhan ddeheuol yr Ardal Ddatblygadwy, cyfyngu ar redeg injans pan na fydd cerbydau nwyddau trwm yn symud, ddim mwy na 22 o gerbydau nwyddau trwm i redeg ar gilfannau'r prif gyflenwad trydan a sicrhau bod sŵn o'r safle yn bodloni meini prawf BS4142 drwy waith dylunio. Mae pob un o'r mesurau hyn wedi'u cynnwys fel un o gyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig.</p> <p>Fel y nodwyd yn ymateb Swyddog Lechyd y Cyhoedd, daethpwyd i'r casgliad, oherwydd amserlen y cyfnod adeiladu (8 mis), y nifer isel o gerbydau nwyddau trwm a'r defnydd o fesurau arfer gorau, na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar ansawdd aer yn ystod y cam hwn. Nododd yr asesiad na fyddai newidiadau mewn llifau traffig a achosid gan y cynllun yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ansawdd aer, ar yr amod y byddai'r polisi ar redeg injans pan na fydd cerbydau yn symud yn cael ei roi ar waith. Cynigir y dylid cyfyngu ar hyn drwy Gyfyngiadau arfaethedig yr Amlen Amgylcheddol. Fel y nodwyd gan Swyddog Lechyd yr Amgylchedd, mae'r angen am gytundeb o adran 61 wedi'i gynnwys fel un o gyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig. Felly caiff terfynau sŵn a dirgryndod adeiladu eu pennu yn unol â BS5228 mewn trafodaeth rhwng y contractwr a Chyngor Sir Ynys Môn.</p> |
| <p>Priffyrdd a Thrafnidiaeth</p> <p>Wrth ystyried ansawdd y rhwydwaith priffyrdd rhwng y safle a'r A55, nid oes unrhyw bryderon mawr o safbwynt Awdurdod Priffyrdd. At hynny, mae nifer y symudiadau traffig (gan gynnwys cerbydau nwyddau trwm/faniau a gaiff eu harchwilio) yn gymharol isel ac wedi'u gwasgaru dros gyfnod o 24 awr. Mae sylwadau penodol sy'n ymwneud â'r Datganiad Drafft am Drafnidiaeth a'r Cynllun Teithio Amlinellol Drafft eisoes wedi'u cyflwyno mewn amlen ar wahân.</p> | <p>Priffyrdd a Thrafnidiaeth</p> <p>Cytunir ar hyn. Adolygodd y Datganiad am Drafnidiaeth yr Asesiad o Drafnidiaeth ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a ddangosodd fod gwaith dadansoddi traffig a wnaed ar gyfer Canolfan Logisteg arfaethedig yn awgrymu y gellid darparu ar gyfer cyfleuster cerbydau nwyddau trwm â chapasiti uwch o fewn cylchfan bresennol yr A55 heb unrhyw effeithiau andwyol ar y Rhwydwaith Priffyrdd. Fel y nodir yn y Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Wylfa, asesodd hyn ganolfan logisteg â galw fesul awr gan gerbydau nwyddau trwm sy'n cyfateb i 40 yr awr, sydd gryn dipyn yn uwch na'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig (sef 26 y dydd, ar gyfartaledd). Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Wylfa (rhif cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio EN010007, Mehefin 2018).</p> |
| <p>Cwestiynau Aelodau Lleol</p> <p>Yn ogystal â'r sesiynau gweithdy gyda swyddogion y cyfeiriwyd atynt uchod, cynhaliodd y Prif Swyddog Cynllunio sesiwn frifffio fewnol gydag aelodau lleol Caergybi ac Ynys Cybi ar 11 Mehefin 2021. Yn ogystal â'r materion a nodwyd yn flaenorol gan aelodau yn y sesiwn frifffio a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Mawrth 2021, codwyd y materion ychwanegol canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Gofynnodd yr aelodau am gadarnhad fod angen y cyfleuster hwn yn yr hirdymor a gwnaethant holi ynghylch y bwriadau o ran y defnydd o'r safle yn y dyfodol.2. Lleisiwyd pryder ynghylch graddau cychwynnol y cynigion a pham nad oedd dull gweithredu mwy graddol neu ddull gweithredu fesul cam mewn ymateb i'r galw yn cael ei gynnig.3. Nodwyd bod yr amserleni presennol ar gyfer dechrau ar y gwaith adeiladu ac i'r safle fod yn gwbl weithredol yn awgrymu y byddai angen trefniadau 'dros dro' o ryw fath. Beth yw'r rhain?4. Mae llifogydd a dŵr ffo yn llifo i eiddo cyfagos yn dal i achosi pryder ac mae angen eu lliniaru. Mae'n bwysig bod y safle hwn yn cael ei ystyried yn 'Safle glas'; o ran dulliau adeiladu a manyleb adeiladau ac yn ystod y cam gweithredu e.e., pwyntiau gwefru i gerbydau tanwydd dwbl. | <p>Cwestiynau Aelodau Lleol</p> <ol style="list-style-type: none">1. Byddai'r Gorchymyn Datblygu Arbennig yn darparu caniatâd parhaol ar gyfer Safle Rheoli Ffiniau, gan nodi'r paramedrau datblygu ar gyfer cam adeiladu a cham gweithredu'r cyfleuster. Os na fydd angen Safle Rheoli Ffiniau ar y safle mwyach, bydd angen gwneud cais i Gyngor Sir Ynys Môn o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer unrhyw newid defnydd neu gynllun i ddatblygu'r safle wedi hynny. Mae'r gofyniad hirdymor ar gyfer y cyfleuster hwn yn ddarostyngedig i Strategaeth Ffiniau ehangach Llywodraeth y DU.2. Ar hyn o bryd, mae dull fesul cam o ymdrin â mesurau rheoli ffiniau ar gyfer nwyddau lechydol a Ffytioiechydol sy'n dod i mewn i'r DU o'r UE. Dechreuodd mesurau rheoli ar gyfer anifeiliaid byw, planhigion a bwyd risg uchel ym mis Ionawr 2021 ond maent yn cael eu cyflawni yn y gyrchfan. Bydd newidiadau pellach ym mis Hydref mewn perthynas â chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid. Nodir y dyddiadau hyn ym Model Gweithredu Ffiniau Llywodraeth y DU sydd, ynghyd â'r gofynion sylfaenol a nodir yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, yn pennu'r cyfleusterau sydd eu hangen i sicrhau dynodiad gweithredol a darparu ar gyfer hapddigwyddiadau. Mae bwyd ac anifeiliaid byw yn sensitif o ran amser ac yn nwyddau gwerth uchel a gludir mewn llongau ac sy'n gofyn am seilwaith pwrpasol. Mae'n rhaid i'r Deyrnas Unedig hefyd gyflawni ymrwymidiadau ei chytundebau masnach.3. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â Llywodraethau'r DU a'r Alban ac yn trafod a oes angen trefniadau dros dro mewn perthynas ag unrhyw gyfleusterau na fyddant yn barod erbyn y dyddiadau a nodwyd gan Lywodraeth y DU yn ei Model Gweithredu Ffiniau. Cynhelir deialog agos â'ch Awdurdod fel rhanddeiliad allweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod y mater â Llywodraethau'r DU a'r Alban.4. Gweler yr ymateb i'r Systemau Draenio Cynaliadwy. I grynhoi, bydd llifau o'r basn crynhoi yn gollwng i'r cwrs dŵr presennol ond fe'u cyfyngir i gyfradd ffoi meysydd glas o'r safle ac mae'r basn crynhoi yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer y digwyddiad storm 1 mewn 100 mlynedd ynghyd â newid o 30% yn yr hinsawdd. Nod y datblygiad yw sicrhau Gradd Ardderchog BREEAM gan ddefnyddio Safonau Adeiladu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | | |
|---|--|--|
| | <p>Sylwadau Cloi</p> <p>I gloi, gellir cadarnhau bod Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi'r egwyddor o greu'r Safle Rheoli Ffiniau ym Mharc Cybi. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mae nifer o amheuan a phryderon wedi'u mynegi'n flaenorol gan swyddogion ac aelodau lleol fel ei gilydd.</p> <p>Ar y cyfan, maent yn canolbwyntio ar yr effeithiau uniongyrchol ar yr eiddo preswyl ger y safle. Mae effeithiau ehangach i'w hystyried hefyd, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill): goleuadau, sŵn, llygredd, systemau draenio, amwynder gweledol, integreiddio â'r dirwedd, ecoleg, rheoli traffig a sicrhau'r manteision economaidd-gymdeithasol mwyaf posibl.</p> <p>Erys y pryderon a'r amheuan hyn ac mae Cyngor Sir Ynys Môn o'r farn ei bod yn hanfodol bod y cais am Orchymyn Datblygu Arbennig yn ymateb i'r materion a godwyd ac yn mynd i'r afael â nhw mewn modd cadarnhaol wrth nodi'r paramedrau datblygu. Mae disgwiliad clir y bydd hyn yn digwydd ac y cânt eu cynnwys yn eich adroddiad ymgysylltu a fydd yn ategu'r cynigion safle-benodol a gyflwynir i Weinidogion Cymru. Hefyd, gofynnir am i Gyngor Sir Ynys Môn a thrigolion lleol gael diweddariadau rheolaidd, wrth i ddatblygiadau ar y safle fynd yn eu blaen.</p> | <p>Sylwadau Cloi</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru ymrwymedig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ymgynghoreion, gan gynnwys aelodau a swyddogion, am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y gwaith cynllunio a dylunio wrth i wybodaeth ddod ar gael. Bydd yn parhau i gynnal deialog weithredol agos â swyddogion.</p> <p>Bydd trigolion lleol hefyd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod cerrig milltir pwysig y prosiect megis ymateb i sylwadau ar yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Gorchymyn Datblygu Arbennig, y penderfyniad cynllunio gan Weinidogion Cymru a (heb effeithio ar y penderfyniad hwnnw ac yn amodol arno) faterion sy'n ymwneud ag adeiladu a gweithredu'r cyfleuster.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn paratoi i gyhoeddi dogfennau technegol allweddol sy'n dangos sut mae'r cais am Orchymyn Datblygu Arbennig yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd mewn modd cadarnhaol wrth nodi'r paramedrau datblygu arfaethedig.</p> |
| <p>Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd / Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd</p> | <p>Asesiad</p> <p>Fel y nodwyd yn eich neges e-bost, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi bod yn trafod materion archaeolegol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig â'ch cydweithwyr, gan gynnwys cymryd rhan yn y gweithdy diweddar ar dreftadaeth a'r dirwedd, a gynhaliwyd yn rhithwir ar 10 Mehefin 2021. Fel yr amlinellwyd yn y trafodaethau hyn, mae safle'r datblygiad arfaethedig wedi bod yn destun rhaglen gynhwysfawr o archwiliadau archaeolegol, a gyflawnwyd cyn creu'r cyfleuster dros dro presennol ar y safle. Nododd y gwaith hwn, a wnaed gan Brython Archaeology yn gynharach eleni, olion archaeolegol ym mhob rhan o'r safle, gan gynnwys anheddiad yn cynnwys cytiau sy'n dyddio, yn ôl pob tebyg, o ddiwedd y cyfnod cynhanesyddol, tystiolaeth bod y safle yn cael ei feddiannu yn gynharach yn y cyfnod cynhanesyddol a nodweddion amaethyddol ôl-ganoloesol. Cafodd yr holl archaeoleg a nodwyd ei chloddio a'i chofnodi'n llawn a chymerwyd samplau o'r ardal wlyptir gyfagos er mwyn cynnal dadansoddiad paleo-amgylcheddol. Er bod y gwaith ôl-gloddio yn mynd rhagddo o hyd, ystyri'r bellach nad yw'r safle yn cynnwys unrhyw beth o werth tystiolaethol ac nad oes angen cynnal rhagor o archwiliadau lliniarol os bydd y safle yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol.</p> | <p>Asesiad</p> <p>Cynhaliodd Mott MacDonald drafodaethau rheolaidd â Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd a Cadw, er mwyn trafod effeithiau posibl y cynllun ar archaeoleg ac asedau treftadaeth. Roedd yn cynnwys darparu'r adroddiadau ymchwilio sy'n ymwneud â datblygiad strategol Parc Cybi a'r Cyfleuster Stacio Brys i Gerbydau Nwyddau Trwm. Roedd hyn yn werthfawr i ddeall y broses gynhwysfawr o ddileu potensial archaeolegol ar y safle.</p> |
| | <p>Yr Amgylchedd Hanesyddol.</p> <p>Nodwyd y prif destun pryder ynghylch yr amgylchedd hanesyddol sy'n gysylltiedig o'r cynllun arfaethedig yn gywir fel yr effaith ar leoliad Siambr Gladdu Trefignath (heneb AN011), sydd gyferbyn â'r safle ac i'r dwyrain ohono. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hyn wedi'i ystyried yn y dyluniad a'r cynllun arfaethedig o'r cychwyn ac yn croesawu'r penderfyniad i gynnwys llain glustogi las ar yr ochr hon i'r safle, sy'n cynnwys y brigiad a'r gwaith plannu newydd. Bydd hyn yn atal datblygiadau adeiledig rhag tresmasu ar safle ac yn lleihau'r effaith weledol i ryw raddau. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried ffactorau megis uchder, lliw, deunyddiau a goleuadau'r cynllun hefyd. Mae'r asesiad o liwiau amgylcheddol a'r trawsluniau a ddarparwyd hyd yma yn ddefnyddiol yn hyn o beth, ond bydd angen lluniadau ychwanegol (ar ffurf croestoriadau, ffotogyfosodiadau ac ati) er mwyn dangos golwg y cynllun pan edrychir arno o'r heneb a galluogi asesiad hyddysg o'r effaith y gall ei chael. Fel y nodwyd yn y gweithdy diweddar, gallai fod goblygiadau archaeolegol i unrhyw gynigion lliniaru oddi ar y safle megis gwaith plannu er budd y dirwedd, amwynder gweledol ac ecoleg. Gallai hyn godi o ganlyniad i gyflwyno rhwystrau newydd yn y dirwedd (gan dorri ar draws llinellau gweld) neu darfu, o bosibl, ar ddyddodion archaeolegol claddedig. Os bydd mesurau o'r fath yn cael eu hystyried, cysylltwch â ni er mwyn cadarnhau a oes unrhyw gyfyngiadau archaeolegol. Yn yr un modd, byddai Llywodraeth Cymru yn fwy na pharod i roi cyngor, petai lle i gynnwys gwybodaeth am archaeoleg y safle yn y cynllun.</p> | <p>Yr Amgylchedd Hanesyddol.</p> <p>Roedd y trafodaethau hyn hefyd yn canolbwyntio ar Siambr Gladdu Trefignath, fel yr ased treftadaeth allweddol y mae'r cynllun yn fwyaf tebygol o effeithio arno. Drwy ddyluniad y cynllun, a drafodwyd ar ôl hynny â Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd a Cadw, bu'n bosibl i Mott MacDonald roi mesurau dylunio a lliniaru ar waith yr oedd pob parti o'r farn eu bod yn ddigonol i atal unrhyw effeithiau sylweddol ar yr ased hwn. Roedd hyn yn cynnwys pennu terfynau ar gyfer uchder adeiladau, lliwio adeiladau a ffensys, meddalu elfennau adeiledig drwy waith plannu o fewn golygfan y siambr gladdu, optimeiddio'r dyluniad yn y gornel ogledd-orllewinol drwy ddefnyddio glaswellt atgyfnerthedig athraidd yn hytrach na tharmac a symud strwythurau nad oeddent yn hanfodol o'r ardal.</p> <p>Mae trawsluniau wedi'u rhannu â Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd a Cadw, sydd wedi chwarae rhan allweddol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch gwaith dylunio ac asesu drwy gydol proses y Gorchymyn Datblygu Arbennig. Nid ystyriwyd bod ffotogyfosodiadau yn gymesur ag effeithiau tebygol y Safle Rheoli Ffiniau, oherwydd cyd-destun y cynllun mewn rhan o Barc Cybi a oedd eisoes wedi'i datblygu a gan y byddai cyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig a fyddai'n cael eu rhoi ar waith yn ddigon i sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd treftadaeth a thirwedd.</p> <p>Yn ystod y broses ymgysylltu ffurfiol, cyfeiriodd Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd at y risg o oblygiadau archaeolegol petai unrhyw waith plannu yn dechrau oddi ar y safle ger y siambr gladdu. Nodwyd y pryder hwn ac, er nad oes unrhyw gynlluniau ar waith i wneud unrhyw waith plannu oddi ar y safle (gan ei bod yn bosibl sicrhau Enillion Net i Fioamrywiaeth ar y safle), petai unrhyw welliannau ychwanegol oddi ar y safle yn cael eu cynnig yn y dyfodol, byddai'r sylwadau yn cael lle blaenllaw yn y broses gwneud penderfyniadau ac ymgynghorid ymhellach â Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ar y mater hwn.</p> <p>O ran yr Asesiad o Liwiau Amgylcheddol, diwygiwyd y palet sy'n golygu bod lliwiau mwy tywyll wedi'u defnyddio ar doeau'r adeiladau. Cytunwyd ar y palet mwy tywyll yn y fersiwn wedi'i diweddarau o'r Asesiad o Liwiau Amgylcheddol â Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd, CNC a Chyngor Sir Ynys Môn.</p> |
| <p>Cadw</p> | <p>Henebion cofrestredig:</p> <ul style="list-style-type: none"> AN011 Siambr Gladdu Trefignath AN012 Maen Hir Tŷ Mawr | <p>Aseswyd a chyflwynwyd effeithiau'r cynllun ar dreftadaeth ddiwylliannol yn yr Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth (BCP21-002-03-00). Pennwyd llinell sylfaen y broses asesu a'r prosesau arfarnu dilynol drwy ymgysylltu â Cadw a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd, a chwaraeodd ran flaenllaw yn y broses gwneud penderfyniadau wrth benderfynu ar y fethodoleg a'r asesiad a fyddai'n cael ei gynnal er mwyn ategu'r Gorchymyn Datblygu Arbennig hwn.</p> |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | | |
|-------------------------------------|--|---|
| | <p>Lleolir yr ardal ddatblygu arfaethedig tua 42m i'r gorllewin o heneb gofrestredig AN011 Siambr Gladdu Trefignath a thua 495m i'r de-ddwyrain o heneb gofrestredig AN012 Maen Hir Tŷ Mawr.</p> <p>Mae Mott MacDonald wedi paratoi dyluniad drafft ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau ac adroddiad sy'n awgrymu amlen a fframwaith ar gyfer datblygiad y Safle Rheoli Ffiniau, gan ddarparu ar gyfer hyblygrwydd o fewn terfynau rhagnodedig penodol. Caiff y Safle Rheoli Ffiniau effaith andwyol ar leoliad yr henebion cofrestredig uchod ac mae'r dyluniad wedi'i baratoi er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol i lefel na fydd yn arwyddocaol. Felly, mae'r terfynau a'r cyfyngiadau arfaethedig a ganiateir ar gyfer dyluniad manwl y Safle Rheoli Ffiniau yn hanfodol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol sylweddol.</p> <p>Mae'r cyfyngiadau a nodwyd gan Mott MacDonald er mwyn cyfyngu ar yr effaith andwyol a gaiff y Safle Rheoli Ffiniau ar leoliad yr henebion cofrestredig fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Uchafswm uchder adeiladau • Osgoi brigiad creigiog • Ardal ddatblygadwy • Gorffeniadau ffurfiau adeiledig • Creu ffyrdd i mewn ac allan • Goleuadau • Tirlunio • Cynnal y gwaith plannu yn yr hirdymor <p>Cytunaf mai'r rhain yw'r cyfyngiadau cywir a bod y terfynau arfaethedig a'r sail resymegol drostynt yn briodol. Yn fy marn i, os defnyddir y paramedrau hyn mewn unrhyw ddyluniad o'r Safle Rheoli Ffiniau yn y dyfodol, ni fydd effeithiau andwyol y Safle Rheoli Ffiniau ar leoliadau'r henebion cofrestredig yn rhai sylweddol.</p> | <p>Cynhaliodd Mott MacDonald drafodaethau rheolaidd â Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd a Cadw, er mwyn trafod effeithiau posibl y cynllun ar archaeoleg ac asedau treftadaeth. Roedd hyn yn werthfawr i ddeall y broses gynhwysfawr o ddileu potensial archaeolegol ar y safle. Roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar Siambr Gladdu Trefignath, fel yr ased treftadaeth allweddol y mae'r cynllun yn fwyaf tebygol o effeithio arno. Drwy ddyluniad y cynllun, a drafodwyd ar ôl hynny â Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd a Cadw, bu'n bosibl i Mott MacDonald roi mesurau dylunio a lliniaru ar waith yr oedd pob parti o'r farn eu bod yn ddigonol i atal unrhyw effeithiau sylweddol ar yr ased hwn. Roedd hyn yn cynnwys pennu terfynau ar gyfer uchder adeiladau, lliwio adeiladau a ffensys, meddalau elfennau adeiledig drwy waith plannu o fewn golygfan y siambr gladdu, optimeiddio'r dyluniad yn y gornel ogledd-orllewinol drwy ddefnyddio glaswellt atgyfnerthedig athraidd yn hytrach na choncrit a symud strwythurau nad oeddent yn hanfodol o'r ardal.</p> <p>Gallai gweithredu'r cynllun effeithio ar asedau treftadaeth o ganlyniad i newidiadau o fewn eu lleoliadau. Felly, mae sawl Cyfyngiad ar gyfer y Gorchymyn Datblygu Arbennig wedi'u cynnig er mwyn lleihau'r effeithiau hyn, gan gynnwys:</p> <p>B1 – Uchafswm uchder adeiladau er mwyn lleihau'r effaith ar leoliad Siambr Gladdu Trefignath B2 – Osgoi brigiad creigiog, er mwyn lleihau effaith newidiadau ar leoliad asedau treftadaeth B3 – Ardal ddatblygadwy, er mwyn lleihau'r effaith ar leoliad Siambr Gladdu B4 – Ffensys/Dulliau Trin Ffiniau er mwyn sicrhau na fydd dyluniad ffensys yn negyddu mesurau lliniaru eraill a gynigir er mwyn lleihau'r effaith ar Siambr Gladdu Trefignath B5 – Gorffeniadau Ffuriau Adeiledig, er mwyn helpu i leihau unrhyw effeithiau gweledol andwyol a gaiff y datblygiad arfaethedig ar yr AHNE a chymeriad tirwedd yr ardal B.7 – Goleuadau, er mwyn lleihau effaith colli golau i'r ardal oddi amgylch B8 – Gwaith tirlunio, er mwyn helpu i guddio'r datblygiad rhag eiddo cyfagos O.7 – Cynnal a chadw'r safle yn yr hirdymor, er mwyn sicrhau y cynhelir gwaith tirlunio a mesurau sgrinio O.9 – Mynediad Brys, er mwyn cwtdogi ar nifer y lleiniau caled newydd a gyflwynir i ardaloedd yn yr AHNE.</p> |
| <p>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</p> | <p>Cyflwyniad</p> <p>Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr uchod, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ar 2/6/2021. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd wedi'i hadolygu yn yr adroddiad Cam B (Mott MacDonald, dyddiedig Mai 2021), gan gynnwys tabl Terfynau a Chyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig.</p> <p>Noder ni fydd sylwadau Llywodraeth Cymru yn effeithio ar unrhyw sylwadau y bydd Llywodraeth Cymru, o bosibl, am eu gwneud pan ymgynghorir â hi fel rhan o broses y Gorchymyn Datblygu Arbennig neu os cyflwynir gwybodaeth fanylach. Ar adeg unrhyw gais, efallai y bydd gwybodaeth newydd ar gael y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei hystyried wrth lunio ymateb ffurfiol.</p> <p>Materion Eraill</p> <p>Mae sylwadau Llywodraeth Cymru uchod ond yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr wirio, y Gwasanaeth Cyngori ar Gynllunio: Pynciau Ymgynghori (Medi 2018), a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried effeithiau posibl ar faterion eraill ac nid yw'n diystyru'r posibilrwydd y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar fuddiannau eraill. Hoffai Llywodraeth Cymru eich atgoffa, yn ogystal â chaniatâd cynllunio, mai chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn cael yr holl hawlenni/caniatadau/trwyddedau sy'n berthnasol i'r datblygiad. Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i gael rhagor o fanylion.</p> | |
| | <p>Tirweddau Gwarchodedig</p> <p>Lleolir y cynnig yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn, yn Ardal Cymeriad Tirwedd 2: Ynys Gybi, fel y'i diffinnir yn Strategaeth Tirwedd Ynys Môn (Diweddariad 2011). Mae a wnelo cyngor Llywodraeth Cymru â'r effeithiau posibl ar yr AHNE.</p> <p>Ymhellach i gyngor ymgynghori blaenorol Llywodraeth Cymru ar 13/4/2021 (CAS-142403-Z5J8), mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod yr ymgynghoriad Cam B hwn yn cynnwys tabl Terfynau a Chyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig sy'n nodi paramedrau, y mae rhai ohonynt yn ymwneud â lleihau effeithiau ar y dirwedd. Fodd bynnag, nodir bod angen gwybodaeth bellach am yr agweddau canlynol.</p> | <p>Nodir eich sylwadau. Gweler isod am wybodaeth am agweddau penodol.</p> |
| | <p>Cynllun Plannu</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylech geisio eglurhad ynglŷn â'r technegau gwella a sefydlu pridd, ynghyd â'r cymysgedd arfaethedig o rywogaethau, mewn perthynas â'r llain glustogi dirlunio 10 o led i'r gorllewin a'r de. Mae natur y safle wedi'i glirio yn awgrymu y gallai'r tir yn yr ardaloedd sydd i'w plannu fod wedi'i gywasgu. Mae angen yr eglurhad hwn er mwyn dangos y bydd y cynllun plannu yn y llain glustogi 10m o led yn effeithiol.</p> | <p>Cynllun Plannu</p> <p>Mae un o Gyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig yn nodi y byddai'r gwaith ar y llain glustogi dirlunio a'r ychwanegiadau at y bwnd a'r coed presennol (sydd i'w cadw) yn cael eu cyflawni, ynghyd â gwaith i'w cadw a'u cynnal a'u rheoli er mwyn sicrhau eu llwyddiant, dros oes y Safle Rheoli Ffiniau. This would include replacement of any failed planting. Byddai hyn yn cael ei gyflawni gan y Prif Gontractwr ar sail cyngor arbenigol. Bydd Cyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig yn sicrhau llwyddiant y gwaith plannu tirlunio.</p> <p>Caiff llain glustogi dirlunio a fydd o leiaf 10m o led ei phlannu â chymysgedd o rywogaethau coed brodorol rhwng y bwnd presennol o goed a'r ardal ddatblygadwy er mwyn cuddio'r datblygiad mewn golygfeydd o'r Gorllewin-Dde-Orllewin o dderbynyddion gweledol sensitif sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos. Tua rhan ddwyreiniol y safle, bydd y llain glustogi dirlunio yn cynnwys dwy elfen linellol,</p> |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | |
|---|---|
| | <p>un i'r de o'r brif ffordd fynediad a rhan arall yn gyfochrog â'r bwnd presennol â choed. Mewn unrhyw fan unigol, bydd y ddwy elfen, gyda'i gilydd, yn darparu llain glustogi dirluniol sydd o leiaf 10m o led. Caiff y bwnd tirluniol presennol ei gadw ac ychwanegir ato, a fydd yn cuddio'r datblygiad rywfaint yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ddechrau'r cyfnod gweithredu a nes i'r llain glustogi dirluniol ymsefydlu fel y nodir ar y lluniad o'r Amlen Gydsynio 100100943-MMD-PC-XX-DR-AR-0012.</p> |
| <p>Asesiad o Liwiau Amgylcheddol</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r penderfyniad i gynnal Asesiad o Liwiau Amgylcheddol ond, fel y nodwyd yn y cyfarfod ar 10/6/2021, yn argemell y dylech ailystyried y palet o liwiau golau iawn a ddewiswyd ar gyfer toeau'r adeiladau. Mae'r asesiad yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol a amlinellir ym Mhapur CNC ar Asesu Liwiau Amgylcheddol ac Asesiad y Sefydliad Tirlunio o Liwiau Amgylcheddol TIN 04/2018 wrth nodi palet lliwiau'r dirwedd bresennol ac adeiladau presennol ond nid yw'n nodi cwmpas yr asesiad nac yn esbonio sut y dewiswyd y palet ar gyfer yr adeiladau ac, yn arbennig, y toeau.</p> <p>Fel y nodir yn adran 4.2 o'r Asesiad o Liwiau Amgylcheddol, lleolir y safle yn AHNE Ynys Môn ac, er bod y safle ei hun yn rhan o'r ystâd ddiwydiannol, lleolir tirweddau gwerth uchel cyfagos i'r de a'r gorllewin. Mae'r adeiladau yn debygol o fod yn weladwy o'r dirwedd fwy sensitif gyfagos yn yr AHNE i'r de, y gorllewin a'r gogledd-orllewin, lle mae'r tir yn codi ac y byddai golygfeydd wrth edrych i lawr tuag at y safle.</p> <p>Mae'r asesiad yn nodi, yn adran 5.3, mai lliwiau sylfaenol y dirwedd yw lliwiau brown a gwyrdd gwan, lliwiau gwyrdd mwsoglyd a lliwiau llwydglas gyda rhai lliwiau acen megis eithin melyn pan fyddant yn blodeuo.</p> <p>Mae'r adran ar yr Amgylchedd Adeiledig yn 6.0 yn nodi natur weladwy iawn adeilad ciwboid gwyn gwesty'r Premier Inn a tho gwyn a theils coch Roadking, lliw glas llachar y cae pêl-droed, lliwiau amrywiol Ystad Ddiwydiannol Penrhos a lliwiau llwyd golau'r gwaith Alwminiwm. Mae pob un o'r adeiladau hyn yn amlwg yn y dirwedd, yn hytrach nag integreiddio â hi, fel y dangosir yn y ffotograffau cysylltiedig. Mae waliau gwyn eiddo traddodiadol hefyd yn weladwy ac, i raddau llai, liw llwyd golau'r felin hanesyddol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y toeau llechi yn tueddu i ymdoddi i'r dirwedd yn y cefndir.</p> <p>O gofio'r lleoliad yn yr AHNE, dylid ceisio integreiddio â'r dirwedd oddi amgylch, yn hytrach na chynyddu'r effaith weledol drwy ddewis lliwiau o adeiladau diwydiannol a masnachol presennol sydd eisoes yn cael effaith weledol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid ailystyried palet lliwiau'r toeau er mwyn adlewyrchu'r lliwiau a'r arlliwiau gwan yn y dirwedd a lleihau effeithiau gweledol yr adeiladau.</p> | <p>Asesiad o Liwiau Amgylcheddol</p> <p>Rhoddodd trafodaethau â Swyddog Tirweddau CNC gyfle da i ail-werthuso palet yr Asesiad o Liwiau Amgylcheddol. Ailymgynghorwyd â CNC ynghylch palet yr Asesiad o Liwiau Amgylcheddol a oedd o'r farn bod arlliwiau tywyll wedi'u diweddaru y toeau yn briodol, gyda chymysgedd o liwiau a lliwiau acen mwy llachar ar nodweddion megis drysau a ffenestri a lliwiau gwan ar rannau mwy sylweddol o adeiladau.</p> <p>Bu'n bosibl lleihau'r effaith ar dderbynyddion tirwedd a derbynyddion gweledol drwy fesurau dylunio a lliniaru megis defnyddio'r palet o'r Asesiad o Liwiau Amgylcheddol, lleihau a chylchfaeo uchderau adeiladau a seilwaith adeiledig, lleihau'r golau a gollir y tu allan i'r Ardal Ddatblygadwy a sefydlu lleiniau clustogi tirluniol. Mae hyn wedi sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau sylweddol, yn enwedig wrth ystyried y cynllun yng nghyd-destun Ystad Ddiwydiannol Parc Cybi.</p> |
| <p>Systemau Draenio Dŵr Budr</p> <p>Fel y nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 13/4/2021, mae Cylchlythyr 008/2018 Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd ac, yn benodol, baragraffau 2.3-2.5, yn pwysleisio mai'r rhagdybiaeth gyntaf bob amser yw darparu system sy'n draenio dŵr budr i garthffos gyhoeddus.</p> <p>Er nad oes unrhyw wybodaeth wedi'i chynnwys yn y tabl Terfynau a Chyfyngiadau er mwyn cadarnhau y bydd y cynnig yn cysylltu â'r brif garthffos, mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybodaeth bellach (neges e-bost oddi wrth Richard Morris, 16/6/2021) sy'n cadarnhau y bydd y cynnig yn cysylltu dŵr budr domestig â'r brif garthffos. Nododd y neges e-bost hefyd y bydd dŵr gwastraff masnach (o'r ardaloedd archwilio) hefyd yn cysylltu â'r brif garthffos, oni fydd yr elfion yn methu profion am halogion pan gaiff yr elfion eu cludo i ffwrdd mewn tancer. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid cofnodi'r wybodaeth a geir yn y neges e-bost yn y tabl Terfynau a Chyfyngiadau. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at drafodaethau pellach â chi mewn perthynas â sicrhau mesurau lliniaru priodol yn y tabl Terfynau a Chyfyngiadau, cyn i chi fynd ymlaen i Gam C, fel y nodir yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar 13/4/2021, Cylchlythyr 008/2018 Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd ac, yn benodol, baragraffau 2.3-2.5, sy'n pwysleisio mai'r rhagdybiaeth gyntaf bob amser yw darparu system sy'n draenio dŵr budr.</p> | <p>Systemau Draenio Dŵr Budr</p> <p>Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i gynnwys sylwadau rhanddeiliaid yn y gwaith dylunio a'r cynnig ar gyfer systemau draenio, nid oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'r amlen gydsynio er mwyn cyfeirio at y systemau draenio. Y rheswm dros hyn yw nad yw'r cais ar gyfer systemau draenio yn rhan o broses y Gorchymyn Datblygu Arbennig a'i fod yn destun cais ar wahân i'r corff cymeradwyo systemau draenio cynaliadwy yn yr awdurdod cynllunio lleol, sef Cyngor Sir Ynys Môn. Gallai unrhyw benderfyniad gan Ynys Môn effeithio ar ddyluniad terfynol y systemau draenio.</p> <p>Ceir dolen i ganllawiau'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy yma: Corff cymeradwyo systemau draenio cynaliadwy (anglesey.gov.uk)</p> |
| <p>Gwastraff</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn eich cyfeirio at y cyngor uchod (systemau draenio dŵr budr) mewn perthynas ag elfion gwastraff o'r datblygiad. Fel y nodir yn ymateb blaenorol Llywodraeth Cymru ar 13/4/2021, argymhellir y dylai'r datblygwr/gweithredwr fod yn ymwybodol o'r canlynol yn ystod y cam adeiladu/gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none">Tybir bod unrhyw wastraff a gynhyrchir o ganlyniad i adeiladu'r cyfleuster yn 'wastraff a reolir' a'i fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y DU ynglŷn â gwastraff. Bydd angen anfon gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i adeiladu'r cyfleuster i safle â thrwydded amgylcheddol briodol gan ddefnyddio cludwr gwastraff cofrestredig. Bydd angen cadw cofnodion o symudiadau gwastraff am o leiaf ddwy flynedd ar ffurf nodiadau trosglwyddo gwastraff neu nodiadau llwythi gwastraff peryglus, yn dibynnu ar y math o wastraff.Tybir bod gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i weithredu'r cyfleuster hefyd yn wastraff a reolir a'i fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth y DU ynglŷn â gwastraff. Bydd angen i'r gweithredwr ymrwymo i ddilyn/gweithredu Canllawiau Technegol WM3 ar Ddosbarthu Gwastraff, 'canllawiau ar ddosbarthu ac asesu gwastraff', ar gyfer gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i weithredu'r cyfleuster. Bydd angen anfon gwastraff â'r cod gwastraff cywir i safle â thrwydded amgylcheddol briodol. Bydd angen cadw cofnodion o symudiadau gwastraff am o leiaf ddwy flynedd ar ffurf nodiadau trosglwyddo gwastraff neu nodiadau llwythi gwastraff peryglus, yn dibynnu ar y math o wastraff. | <p>Gwastraff</p> <p>Nodir y ddau bwynt a chânt eu dwyn i sylw Uned Gweithrediadau Safleoedd Rheoli Ffiniau Llywodraeth Cymru.</p> |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | | |
|-------------------------|--|---|
| | <p>Rhywogaethau Gwarchoddedig</p> <p>Yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad dyddiedig 13/4/2021, nodwyd y dylech asesu effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar rywogaethau gwarchoddedig yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu (gan gynnwys gwaith cynnal a chadw). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud y dylid nodi unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod arolygon wedi'u cynnal mewn perthynas â madfallod dŵr cribog a llygod dŵr. Yn y cyfarfod ar 16/6/2021, gwnaethoch nodi nad oedd unrhyw dystiolaeth o bresenoldeb y rhywogaethau gwarchoddedig hyn wedi'i chanfod. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw'r adroddiad ar yr arolygon wedi'i gyhoeddi eto. Gall Llywodraeth Cymru roi cyngor pellach ar ôl iddi gael yr adroddiad ar yr arolygon o rywogaethau gwarchoddedig a gall roi cyngor ar unrhyw fesurau y byddai angen eu sicrhau yn y Tabl Cyfyngiadau mewn perthynas â rhywogaethau gwarchoddedig.</p> | <p>Rhywogaethau / Safleoedd Gwarchoddedig</p> <p>Dechreuodd trafodaethau â'r Swyddog Rhywogaethau ar 31/3/21, a ddylanwadodd ar y dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer arolygon DNA amgylcheddol a phresenoldeb/absenoldeb ar gyfer madfallod dŵr cribog. Gwnaed penderfyniad ar y cyd gan Mott MacDonald, CNC ac Ecolegydd Cyngor Sir Ynys Môn, na fyddid yn dibynnu ar ganlyniadau arolygon DNA amgylcheddol ond y byddent yn cael eu cynnal ar gyfer pob pwell o fewn 300m. Mabwysiadwyd dull cymesur o gwblhau arolygon presenoldeb/absenoldeb ar gyfer pyllau o fewn 250m. Ni chanfuwyd unrhyw fadfallod dŵr cribog. Fodd bynnag, gan ddilyn cyngor CNC, cofnodwyd canlyniadau negyddol ar COFNOD.</p> <p>Awgrymodd CNC y dylid dynodi ardal wlyptir y system ddraenio gynaliadwy er mwyn diogelu bywyd gwylt a chyfeiriodd at y ffaith y gallai fod angen monitro madfallod dŵr cribog yn y dyfodol at ddibenion cynnal a chadw'r system ddraenio gynaliadwy yn y dyfodol, gan fod madfallod dŵr cribog yn debygol o fod yn byw ynddi yn y dyfodol. Mae hyn wedi'i integreiddio yn nyluniad y system ddraenio. At hynny, caiff y pyllau a'r ardal wlyptir eu cofnodi ar COFNOD.</p> <p>Cafodd trafodaethau ynghylch rhywogaethau eraill sy'n debygol o fod ar y safle megis ymlusgiaid, ystumod, dyfrgwn a llygod dŵr eu trafod hefyd ac mae'r mesurau adeiladu a'r gwaith dylunio sensitif wedi'u hymgorffori yng nghyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu.</p> <p>Caiff adroddiadau technegol allweddol eu cyhoeddi.</p> |
| | <p>Safleoedd Gwarchoddedig</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon, ar yr amod y cydymffurfir â mesurau atal llygredd safonol, na chaiff y datblygiad unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw safle cadwraeth natur dynodedig.</p> | <p>Safleoedd Gwarchoddedig</p> <p>Darperir mesurau atal llygredd o'r dŵr wyneb ffo (sy'n draenio i'r ddaear a/neu'r cwrs dŵr presennol) gan y systemau draenio cynaliadwy, sy'n ffurfio cadwyn drin. Yn ogystal â'r broses lanhau a ddarperir gan gadwyn drin y systemau draenio cynaliadwy, mewn ardaloedd risg uchel, megis manau parcio cerbydau nwyddau trwm ac ail-lenwi â thanwydd, mae'r dŵr ffo yn mynd drwy wahanwyr cadw / blaengwrt llawn Dosbarth 1 er mwyn tynnu hydrocarbonau a siltiau cyn iddo ollwng i'r cwrs dŵr presennol, drwy'r basn crynhoi. Bwriedir i'r dulliau hyn reoli unrhyw berygl o lifogydd, naill ai ar y safle neu yn yr ardal leol, o ganlyniad i'r datblygiad.</p> |
| | <p>Bioamrywiaeth</p> <p>Yn yr ymateb blaenorol, nododd Llywodraeth Cymru y dylech nodi mesurau i reoli neu ddileu rhywogaethau goresgynnol neu eu rheoli yn yr hirdymor yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu. Nododd Llywodraeth Cymru hefyd y dylai manylion am fesurau bioddiogelwch sydd i'w rhoi ar waith yn ystod y cam gweithredu gynnwys yr anifeiliaid a'r planhigion a fydd yn destun archwiliadau ar safle'r cyfleuster.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu yn y tabl Terfynau a Chyfyngiadau sy'n dangos sut y caiff y mesurau bioddiogelwch hyn eu sicrhau. Argymhellir y dylid cynnwys ymrwymiad i gyflawni'r uchod mewn tabl wedi'i ddiweddarau. Gall Llywodraeth Cymru roi cyngor pellach cyn Cam C ar sut i ddrafftio geiriad addas er mwyn sicrhau'r mesurau hyn.</p> | <p>Bioamrywiaeth</p> <p>Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol cynnwys mesurau rheoli bioddiogelwch ar gyfer rhywogaethau goresgynnol yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r Safle Rheoli Ffiniau yn nhabl Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig, gan y byddai'r mesurau angenrheidiol yn cael eu rhoi ar waith gan y contractwr a'r gweithredwr. Mae'r angen am fesurau bioddiogelwch yn ystod y cam adeiladu wedi'i gynnwys yn nogfennau tendro contractwyr, a gaiff eu rhoi ar waith drwy Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu. Yn ystod y cam gweithredu, bydd bioddiogelwch yn elfen hanfodol o'r broses o redeg y Safle Rheoli Ffiniau, lle y byddai rhywogaethau estron a goresgynnol yn cael eu hynysu ac yr ymdrinnid â nhw yn briodol.</p> |
| <p>Land & Lakes</p> | <p>1. Dŵr Wyneb Ffo</p> <p>Mae Land and Lakes yn berchen ar dir i'r de-ddwyrain o Lain 9, Parc Cybi, gan gynnwys y cae o amgylch Siambr Gladdu Trefnath (Heneb). Ger ffin dde-ddwyrainiol y cae hwn, sy'n ffinio â choetir sydd hefyd yn eiddo i Lywodraeth Cymru, ceir cwrs dŵr Ger ffin ogledd-ddwyrainiol y cae hwn, ceir Gwibffordd yr A55. Mae'r cwrs dŵr hwn yn draenio i gwlfert a adeiladwyd o dan yr A55, sy'n gollwng dŵr drwy ffos a chwlfert arall islaw llinell y Rheilffordd Genedlaethol, i system dŵr wyneb â chwlfertau ar safle datblygu Orthios (sef hen safle toddi Anglesey Aluminium), gan ollwng yn y pen draw i'r môr ar draeth Penrhos.</p> <p>Yn flaenorol, comisiynodd Land and Lakes ymgynghorwyr i asesu'r system dŵr wyneb er mwyn deall risgiau sy'n gysylltiedig â gwaredu dŵr glaw i dir yng Nghae Glas. Nododd yr astudiaeth hon yr ardal o dir sy'n cael ei draenio gan y nant y cyfeiriwyd ati uchod, sy'n cynnwys ardal gyfan Llain 9 ym Mharc Cybi, fwy neu lai. (Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi darparu cynlluniau o'r system dŵr wyneb a dynnwyd o'r asesiad, a gyhoeddir yn llawn os byddant yn ddefnyddiol, ar gais.)</p> <p>Pryder Llywodraeth Cymru ynghylch y mater hwn yw bod capasiti'r cwrs dŵr hwn wedi'i gyfyngu i gapasiti'r system â chwlfertau sy'n gollwng o dir Llywodraeth Cymru. Mae cynigion datblygu wedi'u cyfyngu i ddŵr ffo 'maes glas', sy'n gofyn am fesurau arafu ar y safle er mwyn rheoli cyfnodau o lifogydd a lleihau dŵr ffo o adeiladau a lleiniau caled. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ofyn am i gyfyngiadau tebyg gael eu cynnig a'u cymhwyso at system dŵr wyneb Llain 9, gan y bydd cryn nifer o leiniau caled ac olion troed adeiladau ar y safle hwn nad yw wedi'i ddatblygu ar hyn o bryd, yn ôl pob tebyg, a fydd yn cyflymu llif dŵr wyneb ffo o'r safle cyfan.</p> <p>Mae Mr Gradwell wedi rhoi sicrwydd mewn perthynas â'r mater hwn. Fodd bynnag, gofynnir am i wybodaeth ddiagonol gael ei darparu, gan gynnwys cyfrifiadau, er mwyn cadarnhau na fydd y cynnig i ddatblygu Llain 9 yn cynyddu dŵr wyneb ffo o'r lefel bresennol.</p> | <p>1. Dŵr Wyneb Ffo</p> <p>Caiff y dŵr wyneb ffo o'r datblygiad arfaethedig ar Lain 9 ei reoli drwy gyfres o nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy. Cynigir y dylid cynaeafu dŵr glaw er mwyn aildefnyddio'r dŵr o doeau, gan leihau faint o ddŵr ffo sy'n llifo o'r safle a'r defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad. Cynigir y dylai cymaint o ddŵr wyneb ffo â phosibl gael ei gludo gan systemau draenio cynaliadwy ar wyneb y ddaear, gan gynnwys lleiniau hidlo, pantiau, draeniau hidlo, basn crynhoi a phalmentydd athraidd. Er bod y cyfraddau ymdreiddio ar y safle yn wael, bydd y systemau draenio cynaliadwy yn ei gwneud yn bosibl i rywfaint o ddŵr ymdreiddio i'r ddaear ond gyda llif y rhan fwyaf o'r dŵr wyneb yn cael ei arafu yn y basn crynhoi. Bydd llifau o'r basn crynhoi yn gollwng i'r cwrs dŵr presennol ond fe'u cyfyngir i gyfradd dŵr ffo Maes glas ar gyfer y safle ac mae'r basn crynhoi yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer y digwyddiad storm 1 mewn 100 mlynedd ynghyd â newid o 30% yn yr hinsawdd.</p> <p>Darperir mesurau atal llygredd o'r dŵr wyneb ffo (sy'n draenio i'r ddaear a/neu'r cwrs dŵr presennol) gan y systemau draenio cynaliadwy, sy'n ffurfio cadwyn drin. Yn ogystal â'r broses lanhau a ddarperir gan gadwyn drin y systemau draenio cynaliadwy, mewn ardaloedd risg uchel, megis manau parcio cerbydau nwyddau trwm ac ail-lenwi â thanwydd, mae'r dŵr ffo yn mynd drwy wahanwyr cadw / blaengwrt llawn Dosbarth 1 er mwyn tynnu hydrocarbonau a siltiau cyn iddo ollwng i'r cwrs dŵr presennol, drwy'r basn crynhoi.</p> <p>Yn dilyn cyfarfodydd cychwynnol i drafod cynigion y cynllun, mae dogfen cyn ymgeisio wedi cael ei llunio a'i chyflwyno i gorff cymeradwyo systemau draenio cynaliadwy Cyngor Sir Ynys Môn. Cyflwynodd y ddogfen cyn ymgeisio wybodaeth o ddyluniad Cam 2 RIBA. Ymateb y corff cymeradwyo systemau draenio cynaliadwy y byddai'n cefnogi'r cynigion ar gyfer systemau draenio yn y ddogfen cyn ymgeisio a gyflwynwyd, petaent yn cael eu cyflwyno fel cais ffurfiol llawn. Caiff y cais llawn i'r corff cymeradwyo systemau draenio cynaliadwy ei gwblhau a'i gyflwyno yn ystod dyluniad manwl Cam 4 RIBA</p> <p>Caiff cynlluniau o systemau draenio arfaethedig a chyfrifiadau cysylltiedig o ddyluniad Cam 3 RIBA eu rhannu ar ôl i'r cam gael ei gwblhau. Caiff y cynigion terfynol eu rhannu ar ôl i ddyluniad manwl Cam 4 RIBA gael ei gwblhau.</p> |
| | <p>2. Effaith Weledol</p> | <p>2. Effaith Weledol</p> |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

| | | |
|---|---|---|
| | <p>Fel y disgrifiwyd uchod, mae Llain 9 yn ffinio â'r llwybr a fydd yn gwasanaethu datblygiad llety hamdden Llywodraeth Cymru yng Nghae Glas, sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r bwriad i blannu sgrin ar hyd ffin Llain 9 er mwyn lleihau effaith weledol yr adeiladau a gweithrediad y Safle Rheoli Ffiniau. Mae a wnelo pryderon Llywodraeth Cymru ag amseriad y gwaith o blannu'r sgrin hon a sut y caiff ei chynnal a'i chadw yn y dyfodol. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cyfyngiadau yn y gymeradwyaeth a roddir i'r datblygiad i'w gwneud yn ofynnol i'r gwaith plannu sgrin ar hyd y ffin gael ei gyflawni fel cam rhagarweiniol o'r gwaith datblygu, er mwyn cynyddu dwysedd ac effaith y gwaith plannu hwn i'r eithaf pan ddechreuir defnyddio'r safle, ac i'r gwaith plannu hwn gael ei gynnal a'i gadw'n llawn, gan gynnwys unrhyw waith ailblannu, tra bydd y safle yn cael ei ddefnyddio (am byth) fel y Safle Rheoli Ffiniau.</p> <p>Mae daliad tir Llywodraeth Cymru yn cynnwys Siambr Gladdu Trefnath gerllaw, y bydd y defnydd arfaethedig o'r Llain yn effeithio ar ei lleoliad, fel y cydnabyddir yn yr asesiadau sydd wedi'u darparu. Ni ddylid diystyru'r heneb hon ac mae'n pwysleisio'r angen am y rhwymedigaethau uchod.</p> | <h3>Ymateb i'r Adborth a Gafwyd</h3> <p>Y flaenoriaeth yw bod y gwaith plannu tirlunio yn cael ei wneud ar ddechrau'r cynllun, er mwyn manteisio i'r eithaf ar fesurau sgrinio ychwanegol cyn gynted â phosibl. At hynny, bydd y gwaith o gynnal a rheoli'r cynefinoedd a'r gwaith plannu tirlunio yn yr hirdymor a gaiff ei ymgorffori yn y cynllun yn ddarostyngedig i un o Gyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gynnal dros oes y Safle Rheoli Ffiniau. Bydd hyn yn sicrhau y caiff ei sefydlu'n llwyddiannus.</p> <p>Rhoddydd sicrwydd na fydd y cynllun yn cael unrhyw effeithiau sylweddol ar Siambr Gladdu Trefnath a leolir y tu mewn i ffin Land and Lakes. Sicrhawyd hyn drwy fesurau a nodir isod. Mae'r fethodoleg asesu, y mesurau lliniaru a'r casgliadau wedi'u trafod â Cadw a Gwasanaeth Cynllunio Archaeolegol Gwynedd sy'n cytuno, os defnyddir y paramedrau hyn mewn unrhyw ddyluniad o'r Safle Rheoli Ffiniau yn y dyfodol, na fydd effeithiau andwyol y Safle Rheoli Ffiniau ar leoliadau'r henebion cofrestredig yn rhai sylweddol. Felly, ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar y siambr gladdu.</p> <p>B1 – Uchafswm uchder adeiladau er mwyn lleihau'r effaith ar leoliad Siambr Gladdu Trefnath B2 – Osgoi brigiad creigiog, er mwyn lleihau effaith newidiadau ar leoliad asedau treftadaeth B3 – Ardal ddatblygadwy, er mwyn lleihau'r effaith ar leoliad Siambr Gladdu B4 – Ffensys/Dulliau Trin Ffiniau er mwyn sicrhau na fydd dyluniad ffensys yn negyddu mesurau lliniaru eraill a gynigir er mwyn lleihau'r effaith ar Siambr Gladdu Trefnath B5 – Gorffeniadau Ffuriau Adeiledig, er mwyn helpu i leihau unrhyw effeithiau gweledol andwyol a gaiff y datblygiad arfaethedig ar yr AHNE a chymeriad tirwedd yr ardal B.7 – Goleuadau, er mwyn lleihau effaith colli golau i'r ardal oddi amgylch B8 – Gwaith tirlunio, er mwyn helpu i guddio'r datblygiad rhag eiddo cyfagos O.7 – Cynnal a chadw'r safle yn yr hirdymor, er mwyn sicrhau y cynhelir gwaith tirlunio a mesurau sgrinio O.9 – Mynediad Brys, er mwyn cwtogi ar nifer y lleiniau caled newydd a gyflwynir i ardaloedd yn yr AHNE.</p> |
| | <h3>3. Llygredd Sŵn a Golau</h3> <p>Fel y cadarnheir gan ddogfennau'r cynigion a ddarparwyd, disgwylir i'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig weithredu ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos. Felly, bydd yn ffynhonnell sŵn a golau artiffisial a fydd yn effeithio ar feddianwyr eiddo o amgylch y safle ac nad yw'n bodoli ar hyn o bryd.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu ynghylch yr effaith bosibl ar y prosiect hamdden sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru ar ddeall bod y materion hyn yn cael eu hystyried yn y cynigion datblygu ond byddai'n disgwyl i gyfyngiadau penodol gael eu gosod gyda'r gymeradwyaeth a roddir i'r datblygiad ynghylch y lefelau uchaf o sŵn a golau a ganiateir, gan adlewyrchu oriau gweithredu'r cyfleuster hwn.</p> | <h3>3. Llygredd Sŵn a Golau</h3> <p>Nod cyfyngiad arfaethedig ar oleuadau yw sicrhau bod coridorau tywyll o amgylch terfyn allanol y safle yn cael eu cynnal a bod colli golau yn cael ei gyfyngu i'r Ardal Ddatblygadwy +1m yn unig. Felly, ni fyddai unrhyw golli golau a fyddai'n cael effaith sylweddol ar unrhyw eiddo sy'n perthyn i Land and Lakes.</p> <p>Aseswyd effeithiau sŵn ac am fod derbynyddion preswyl wedi'u lleoli gerllaw'r safle (mae'r un agosaf 100m i'r de-orllewin), bydd angen cynnwys mesurau lleihau sŵn, a fydd, yn gwyno, yn cynnwys optimeiddio cynllun y Safle Rheoli Ffiniau er mwyn sicrhau y bydd adeiladau yn sgrinio gweithgareddau swnllyd ar y safle, rhwystr amsugol 100m ar hyd rhan ddeheuol yr Ardal Ddatblygadwy, cyfyngu ar redeg injans pan na fydd cerbydau nwyddau trwm yn symud, ddim mwy na 22 o gerbydau HGV i redeg ar gilfannau'r prif gyflenwad trydan a sicrhau bod sŵn o'r safle yn bodloni meini prawf BS4142 drwy waith dylunio. Mae pob un o'r mesurau hyn wedi'u cynnwys fel un o gyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig.</p> |
| | <h3>4. Capasiti'r System Ffyrdd</h3> <p>Hefyd fel yr esboniwyd uchod, bwriedir i safle llety hamdden Llywodraeth Cymru yng Nghae Glas, sydd wedi cael caniatâd cynllunio, gael ei wasanaethu gan y rhwydwaith ffyrdd drwy Barc Cybi, er mwyn osgoi gorlwytho ffyrdd lleol. Mae Llywodraeth Cymru ar ddeall, ar sail dogfennau'r cynigion a ddarparwyd, y bydd y Safle Rheoli Ffiniau yn gwasanaethu hyd at 40 o gerbydau cludo nwyddau y dydd.</p> <p>Mae a wnelo pryder Llywodraeth Cymru yn hyn o beth â chynnydd pellach yn y defnydd a wneir o'r safle, a allai effeithio ar system ffyrdd Parc Cybi, a fyddai'n achosi oedi a tharfu ar y system ffyrdd, petai'n cael ei chau gan gerbydau cludo nwyddau sy'n aros. Rhoddid sicrwydd drwy gynnwys capasiti gweithredu uchaf a ganiateir ar gyfer y safle, fel cyfyngiad yn y gymeradwyaeth a roddir i'r datblygiad.</p> <p>Byddwn yn ddiolchgar pa gallech gadarnhau y bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn fanwl yn ystod yr asesiad pellach o'r cynnig i ddefnyddio Llain 9 fel hyn a gofynnaf am i Lywodraeth Cymru gael ei hysbysu am yr ystyriaethau canlyniadol yn y gymeradwyaeth a roddir i'r datblygiad, os caiff ei gymeradwyo.</p> | <p>Adolygodd y Datganiad am Drafnidiaeth yr Asesiad o Drafnidiaeth ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a ddangosodd fod gwaith dadansoddi traffig a wnaed ar gyfer Canolfan Logisteg arfaethedig yn awgrymu y gellid darparu ar gyfer cyfleuster cerbydau nwyddau trwm â chapasiti uwch o fewn cylchfan bresennol yr A55 heb unrhyw effeithiau andwyol ar y Rhwydwaith Prifffyrdd. Fel y nodir yn y Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Wylfa, asesodd hyn ganolfan logisteg â galw fesul awr gan gerbydau nwyddau trwm sy'n cyfateb i 40 yr awr, sydd gryn dipyn yn uwch na'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig (sef 26 y dydd, ar gyfartaledd).</p> <p>Nifer y cerbydau nwyddau trwm y gellid eu gorsafu ar Safle Rheoli Ffiniau Parc Cybi ar unrhyw adeg benodol fyddai hyd at 40. Ar gyfartaledd, disgwylid rhwng 25 a 30 o gerbydau nwyddau trwm ar y safle yn ystod unrhyw gyfnod o 24 awr.</p> <p>Mae tagfeydd traffig ar y ffordd leol wedi'u lliniaru drwy ddylunio'r Safle Rheoli Ffiniau yn y fath fodd fel bod y capasiti ar y safle ar gyfer cerbydau nwyddau trwm yn fwy na nifer y cerbydau nwyddau trwm a ddisgwylid ar adegau prysur. At hynny, ni chyfyngir ar gerbydau nwyddau trwm sy'n cyrraedd mynedfa'r Safle Rheoli Ffiniau am bellter byr cyn cyrraedd y glwyd ddiogelwch lle y caiff pob cerbyd ei stopio am amser byr sy'n ddigon hir i sicrhau bod y cerbyd yn bwriadu ymweld â'r safle. Wedyn, caiff cerbydau nwyddau trwm eu dal ar y safle mewn lonydd lle y cynhelir gwiriadau diogelwch arnynt cyn iddynt symud ymlaen i gael eu harchwilio.</p> <p>Yn y dyfodol, os bydd yr angen am fwy o waith datblygu ar y safle yn mynd y tu hwnt i'r hawliau datblygu a ganiateir y cytunwyd arnynt sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn Datblygu Arbennig neu os bydd Llywodraeth Cymru am geisio newid y defnydd a wneir o'r safle, bydd angen gwneud cais ar wahân o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i Gyngor Sir Ynys Môn</p> |
| <p>Llywodraeth Cymru, yr Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith</p> | <h3>Datganiad am Drafnidiaeth a'r Cynllun Teithio</h3> <p>1. Mae angen cynnal asesiad o Gyffordd 2 yr A55 er mwyn nodi pa effaith a gaiff y datblygiad arfaethedig ar y gyffordd. Bydd angen i'r asesiad hwn gynnwys yr holl ddatblygiadau presennol a'r holl geisiadau cynllunio a gymeradwywyd sy'n defnyddio Cyffordd 2. Dylid ei gynnal ar ddyddiad dechrau'r safle ac ar ddyddiad blwyddyn priodol yn y dyfodol er mwyn darparu ar gyfer lefelau traffig blwyddyn yn y</p> | <h3>1: Modelu Traffig</h3> <p>Fel y nodir yn y Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Wylfa, asesodd hyn ganolfan logisteg â galw fesul awr gan gerbydau nwyddau trwm sy'n cyfateb i 40 yr awr, sydd gryn dipyn yn uwch na'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig (sef 26 y dydd, ar gyfartaledd). Felly, nid ystyrir bod angen cynnal asesiad pellach mewn perthynas â Chyffordd 2 yr A55.</p> |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | | |
|-------------------------------------|--|--|
| | <p>dyfodol. Bydd angen i'r asesiad nodi paramedrau gweithio presennol Cyffordd 2 ac, os bydd angen, unrhyw bwyntiau sbarduno ar gyfer mesurau lliniaru y bydd angen eu rhoi ar waith, o bosibl, fel rhan o'r prosiect os canfyddir bod y gyffordd ar neu dros gapasiti.</p> <ol style="list-style-type: none"> 2. Asesiad uno ac ymwahanu i nodi'r effaith ar slipffyrdd a cherbyffyrdd prif linell. 3. Dylai'r Datganiad am Drafnidiaeth gyfeirio at y safleoedd amgylcheddol sy'n deillio o gontract dylunio, adeiladu, ariannu a gweithredu (DBFO) yr A55 ar draws Ynys Môn, y mae rhai ohonynt wedi'u lleoli'n agos at y safle arfaethedig ym Mharc Cybi. 4. Mae angen i'r Datganiad am Drafnidiaeth gynnwys cynllun rheoli argyfyngau neu ddigwyddiadau neu gyfeirio at gynllun o'r fath, gyda mewnbwn gan bob un o'r gwasanaethau golau glas. | <p>2/A/D: Asesiad Uno ac Ymwahanu</p> <p>Cynhaliwyd asesiad uno ac ymwahanu o Gyffordd 2 yr A55 fel rhan o'r Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Wylfa ac, o ystyried y ffigurau llawer uwch ar gyfer y galw fel y'u nodir uchod a'r effeithiau bach iawn y dangoswyd y byddai hyn yn eu cael, nid ystyrir bod angen cynnal unrhyw asesiad pellach o nifer llawer llai o deithiau. Dylid hefyd nodi na ddisgwylir i gerbydau nwyddau trwm sy'n mynd i mewn i'r safle blatwnio oherwydd y gyfran isel iawn o gerbydau y bydd angen iddynt fynd i mewn i'r safle o bob fferi sy'n cyrraedd y porthladd a gan y byddent ar y rhwydwaith sut bynnag, gan ddargyfeirio i'r Safle Rheoli Ffiniau er mwyn cael eu harchwilio. Ni fydd y safle yn creu unrhyw deithiau newydd ar y rhwydwaith.</p> <p>3: Safleoedd Amgylcheddol / Asesiadau Amgylcheddol</p> <p>Nodwyd Pwynt 3 ond nid yw'r safleoedd amgylcheddol yn ffinio â'r safle arfaethedig ac mae traffig cerbydau nwyddau trwm eisoes ar yr A55 sut bynnag p'un a gaiff Safle Rheoli Ffiniau ei ddatblygu ai peidio, sy'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw newid perthnasol sylweddol mewn effeithiau amgylcheddol ar y safleoedd hyn.</p> <p>Lluniwyd Adroddiad Amgylcheddol sy'n cynnwys gwahanol asesiadau er mwyn helpu i ddrafftio Gorchymyn Datblygu Arbennig. Mae'r nodweddion canlynol yn fesurau lliniaru hanfodol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol fel y'u nodir ar gynllun Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai un brif fynedfa/allanfa i'r cerbydau sy'n dod i'r safle. Dim ond i'w defnyddio mewn argyfwng y byddai mynedfeydd ac allanfeydd ychwanegol yn cael eu caniatáu a byddai angen eu hadeiladu gan ddefnyddio glaswellt atgyfnerthedig athraidd. • Byddai adeiladau a lleiniau caled yn cael eu cyfyngu i'r tir a nodwyd fel yr "Ardal Ddatblygadwy". Yn yr ardal hon, cyfyngid ar uchderau adeiladau a byddent yn cael eu rhannu'n dri pharth, 33m uwchlaw datwm ordnans, 28m uwchlaw datwm ordnans a 23m uwchlaw datwm ordnans. Ni fyddai unrhyw fath o waith datblygu yn digwydd yn yr ardal a ddisgrifir fel 'Brigiad Creigiog'. • Byddai angen rhoi mesurau lleihau sŵn ar waith ac mae lleoliad dangosol wedi'i nodi yn ardal ddatblygadwy'r safle. • Byddai'r bwnd tirluniol presennol gyda choed yn cael ei gadw ac ychwanegid ato. • Dylid plannu llain glustogi dirluniol 10m o led yn cynnwys cymysgedd o rywogaethau coed brodorol rhwng y bwnd presennol o goed a'r ardal ddatblygadwy er mwyn cuddio'r datblygiad mewn golygfeydd o'r safle o'r Gorllewin-Dde-Orllewin o dderbynyddion gweledol sensitif sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos. Tua rhan ddwyreiniol y safle, bydd y llain glustogi dirluniol yn cynnwys dwy elfen linellol, un i'r de o'r brif ffordd fynediad a rhan arall yn gyfochrog â'r bwnd presennol â choed. Mewn unrhyw fan unigol, bydd y ddwy elfen, gyda'i gilydd, yn darparu llain glustogi dirluniol sydd o leiaf 10m o led. Caiff y bwnd tirluniol presennol ei gadw ac ychwanegir ato, a fydd yn cuddio'r datblygiad rywfaint yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ddechrau'r cyfnod gweithredu a nes i'r llain glustogi dirluniol ymsefydlu fel y nodir ar y lluniad o'r Amlen Gydsynio 100100943-MMD-PC-XX-DR-AR-0012. • Byddai pwll sy'n bodoli eisoes a leolir yng nghornel dde-ddwyreiniol y safle yn cael ei gadw. <p>4: Cynllun Rheoli Argyfyngau neu Ddigwyddiadau</p> <p>Nid yw'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu eto ond bydd yn rhan o'r Cynllun Rheoli Gweithredol a gaiff ei ddatblygu cyn i'r safle ddechrau gweithredu ac mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau golau glas. Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod eich adran yn cael ei chynnwys yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Rheoli Gweithredol er mwyn sicrhau y mabwysiedir yr arferion gorau wrth ddatblygu gwahanol rannu'r cynllun.</p> |
| | <p>Sylwadau Ychwanegol</p> <p>Mae safle Llain 9 Parc Cybi yn sensitif iawn i lygredd sŵn, golau ac arogleuon a llygredd gweledol oherwydd lleoliad eiddo cyfagos. Rwy'n cymryd y caiff asesiadau priodol eu cynnal er mwyn nodi'r mesurau lliniaru mwyaf priodol, os bydd angen?</p> | <p>Cynhaliwyd yr asesiadau canlynol gan Lywodraeth Cymru wrth gefnogi'r cais arfaethedig hwn am Orchymyn Datblygu Arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Amgylcheddol • Datganiad am Drafnidiaeth • Cynllun â Ffin Linell Goch • Taenlen Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig • Cynllun o'r Amlen Gydsynio • Adroddiad Ymgynghori ac Ymgysylltu • Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd <p>Ni fyddai'r defnydd arfaethedig o'r safle fel Safle Rheoli Ffiniau yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatblygiadau hysbys o'i amgylch ac mae'n cydymffurfio â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol yn ddarostyngedig i nifer o derfynau a gaiff eu nodi yn y Gorchymyn Datblygu Arbennig arfaethedig. Daeth yr asesiad o'r effeithiau sylweddol tebygol posibl i'r casgliad na ragwelir unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r datblygiad arfaethedig ac, felly, nid oes angen cynnal unrhyw asesiad pellach mewn perthynas â'r camau hyn.</p> |
| <p>Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith</p> | <p>Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ganlynol i ategu'r cais hwn neu ailgyflwyno'r cais gyda'r manylion canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> A. mae angen cynnal asesiad o gapasiti cyffordd 2 yr A55 er mwyn ailasesu effaith cerbydau nwyddau trwm ar y gyffordd gyda'r mater o gerbydau nwyddau trwm yn cael eu danfon i'r safle mewn platwn / confoi am eu bod wedi cyrraedd ar long. Hyd ciwiau sy'n ymestyn yn ôl i brif gerbyffordd yr A55 yw'r mater diogelwch allweddol y mae angen ei ddeall; | <p>A: Asesu Capasiti Cyffordd 2 yr A55</p> |

Ymgynghorai Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

| | | |
|-------------------------------------|---|---|
| <p>Llywodraeth Cymru</p> | <p>B. Mae angen ailasesu'r effaith ar Deithio Llesol / diogelwch cerddwyr wrth Gyffordd 2 o ganlyniad i gynnydd sylweddol yn nifer y cerbydau nwyddau trwm;</p> <p>C. Mae adran 2.6.1 yn nodi "Upon meeting the Interchange, there is a clear absence of pedestrian safety measures when crossing over the A55 toward Penrhos Industrial Estate as demonstrated in Figure 2.14, showing a 50mph speed limit immediately before the crossing point". Mae'r adran hon yn nodi nad oes unrhyw fesurau diogelwch ar waith ond bod croesfan nas rheolir. Dylid adolygu'r Datganiad am Drafnidiaeth a thynnu sylw at ardaloedd lle mae angen gwneud gwelliannau am resymau diogelwch oherwydd cynnydd yn nifer y symudiadau gan gerbydau nwyddau trwm neu'r ffaith nad oes unrhyw gyfleusterau i gerddwyr a/neu feicwyr. Mae'n rhaid i welliannau gyd-fynd â Deddf Teithio Llesol Cymru.</p> <p>D. Efallai y bydd angen adolygu'r Asesiad Risg ar gyfer Systemau Cyfyngu Ffyrdd (RRS RA), oherwydd newid yn lefel y traffig cerbydau nwyddau trwm, er mwyn penderfynu a oes angen uwchraddio'r ddarpariaeth o gwbl;</p> <p>E. Rhaid ehangu'r ardal adolygu Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd er mwyn deall a oes unrhyw broblemau y mae angen tynnu sylw atynt ar ffyrdd dynesu i Gyffordd 2. Rhaid deall manylion gwrthdrawiadau traffig ffyrdd hefyd er mwyn i adolygiad llawn allu cael ei gwblhau h.y. a yw pob gwrthdrawiad traffig ffyrdd yr un peth neu a ydynt i gyd yn wahanol?</p> <p>F. Mae angen manylion am arwyddion cyfeiriadol dwyieithog, lle mae'r Gymraeg uwchben y Saesneg, rhwng y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a'r datblygiad arfaethedig ynghyd ag asesiad o'r effaith ar arwyddion presennol?</p> <p>G. Mae angen cadarnhad bod y Datganiad am Drafnidiaeth yn cyd-fynd â'r safonau gofynnol, yn arbennig: Deddf Teithio Llesol Cymru a Llwybr Newydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru</p> <p>H. Materion Cyngorol:</p> <p>i. Sut y byddai cerbyd nwyddau trwm neu gerbyd arall yn gallu mynd i mewn i'r safle, troi a gadael wrth yrru ymlaen os bydd y safle ar gau neu os na fydd angen i'r cerbyd fynd i mewn i'r safle?</p> <p>ii. Sut y bydd beicwyr yn mynd i mewn i'r safle o'r rhwydwaith beicio lleol? A yw ffens derfyn y safle tua chefn y palmant a sut mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau dylunio Teithio Llesol? A yw hyn yn effeithio ar ddodrefn stryd sydd eisoes ar y briffordd?</p> | <p>Fel y nodwyd yn y Cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Wylfa (rhif cyfeirnod yr Arolygiaeth Gynllunio EN010007, Mehefin 2018), asesodd hyn ganolfan logisteg â galw fesul awr gan gerbydau nwyddau trwm sy'n cyfateb i 40 yr awr, sydd gryn dipyn yn uwch na'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig (sef 26 y dydd, ar gyfartaledd). Felly, nid ystyrir bod angen cynnal asesiad pellach mewn perthynas â Chyffordd 2 yr A55.</p> <p>B: Seilwaith Cerddwyr</p> <p>Adolygwyd seilwaith cerddwyr yng nghyffiniau'r Safle Rheoli Ffiniau yn helaeth yn y Datganiad am Drafnidiaeth a nodwyd bod seilwaith o ansawdd uchel eisoes ar gael yn y rhan fwyaf o leoliadau er mwyn hwylyso teithiau cerddwyr. Ystyrir ei bod yn dra annhebygol y bydd nifer sylweddol o gerddwyr yn defnyddio'r llwybr penodol hwn i'r Safle Rheoli Ffiniau. Felly, nid ystyrir bod angen uwchraddio unrhyw seilwaith cerddwyr yng nghyffiniau'r safle. O ystyried y nifer bach iawn o gerbydau nwyddau trwm y disgwyllir iddynt deithio i'r safle ac oddi yno gan ddefnyddio Cyffordd 2 yr A55, nid ystyrir bod hyn yn debygol o gael effaith sylweddol ar ddiogelwch cerddwyr yn y lleoliad hwn.</p> <p>C / E: Adolygiad o Wrthdrawiadau Traffig Ffyrdd</p> <p>Mae pob taith i'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig eisoes yn defnyddio'r rhwydwaith priffyrdd rhwng Porthladd Caergybi a Chyffordd 2 yr A55. Ystyriwyd y llwybr o Gyffordd yr A55 i'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig ac mae dwy ddamwain fach ar y slipffordd a dwy ddamwain ddifrifol ar y gylchfan. Nid yw'r rhain ar ffurf clystrau o ddamweiniau ac ym mhob damwain roedd cerbyd wedi gwrthdaro â cherbyd arall ac nid oeddent yn cynnwys unrhyw ddefnyddwyr ffyrdd agored i niwed.</p> <p>D: Asesiad Risg ar gyfer Systemau Cyfyngu Ffyrdd (RRS RA)</p> <p>O ystyried y nifer bach iawn o gerbydau nwyddau trwm sy'n defnyddio Cyffordd 2 yr A55 a'r ffaith na fydd unrhyw gynnydd yng nghyfanswm nifer y cerbydau nwyddau trwm ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, nid ystyrir bod angen adolygu'r systemau cyfyngu ffyrdd rhwng Porthladd Caergybi a'r safle.</p> <p>F: Arwyddion Dwyieithog</p> <p>Gall Llywodraeth Cymru gadarnhau bod y Datganiad am Drafnidiaeth wedi'i adolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a'i fod yn cyfeirio at y safonau gofynnol gan gynnwys Deddf Teithio Llesol Cymru a Llwybr Newydd Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.</p> <p>i: Gallu Cerbydau Nwyddau Trwm i Symud o fewn y Safle</p> <p>Darperir ardal droi cyn cyrraedd y porthdy fel y nodir ar yr Uwchgynllun o'r Safle.</p> <p>ii / iii: Integreiddio / Teithio Llesol</p> <p>O ran integreiddio â beicwyr a'r ffens derfyn yn cyd-fynd â chanllawiau dylunio Teithio Llesol, mae llwybr beicio a rennir yn rhedeg ar hyd ffordd feingefn Parc Cybi, gan roi mynediad i'r safle. Trafodwyd materion yn ymwneud â diogelwch ac integreiddio yn fanwl ag Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn a chadarnhawyd bod y llwybrau troed yn ddigon llydan i gerddwyr allu eu defnyddio'n ddiogel.</p> |
| <p>Stena Line and Irish Ferries</p> | <p>Rwy'n ateb ar ran Stena Line Ports a'r ddau weithredwr fferïau sy'n defnyddio Porthladd Caergybi, sef Irish Ferries a Stena Line (Ferries) yr wyf wedi anfon copi o'r ateb hwn atynt hefyd.</p> <p>Capasiti'r Safle Rheoli Ffiniau</p> <p>A yw'r cynllunwyr wedi modelu'r trwybwn rhagamcanol a bodloni eu hunain bod capasiti'r Safle Rheoli Ffiniau a'r trefniadau ar gyfer mynd i mewn i'r safle a'i adael yn ddigonol?</p> | <p>Capasiti'r Safle Rheoli Ffiniau</p> <p>Dadansoddodd Llywodraeth Cymru data manifest cyfyngedig 2019 a'u croeswiro â dadansoddiad a thybiaethau cynllunio Llywodraeth y DU. Mae llifau masnach i borthladdoedd yng Nghymru wedi lleihau'n sylweddol o gymharu â lefelau 2019 ac ni all Llywodraeth Cymru ragfynegi i ba raddau y bydd y fasnach hon yn dychwelyd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro'r trafodaethau ynghylch nwyddau sy'n dod o Ogledd Iwerddon ac yn aros am eglurhad pellach gan Lywodraeth y DU. Gallai hyn arwain at lai o reolaethau'r ffiniau ar nwyddau o'r fath. At hynny, mae swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i bennu'r union gyfran o wiriadau, yn seiliedig ar risg, y bydd angen eu cynnal ar gynhyrchion sy'n dod o'r UE. Bydd y gofyniad i fasnachwyr roi gwybod ymlaen llaw am eu mewnfornion i Brydain Fawr o fis Hydref ymlaen yn dechrau rhoi gwell dealltwriaeth i Lywodraeth Cymru o'r llifau masnach hyn a'r union nwyddau sy'n dod drwy'r wlad. Felly, er bod rhai pethau anhysbys yn y data manifest a allai gynyddu nifer y gwiriadau sydd eu hangen, mae ffactorau lleihaol sylweddol hefyd sy'n debygol o roi rhywfaint o gapasiti sbâr ar safleoedd rheoli ffiniau.</p> |
| | <p>Lleoedd Parcio Gorlif</p> <p>A oes angen lleoedd parcio ychwanegol neu lleoedd parcio gorlif?</p> | <p>Lleoedd Parcio Gorlif</p> <p>Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith modelu strategol, gwaith modelu cyffordd na gwaith modelu microefelychu, mae data symudiadau fferïau hanesyddol wedi'u defnyddio i ddatblygu dau senario ar gyfer cerbydau a archwiliir (trwybwn dyddiol cyfartalog a 85fed ganradd) a dau senario ar gyfer cerbydau staff (71% o staff yn cyrraedd mewn car preifat yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad a phob aelod o staff yn cyrraedd mewn car preifat) sy'n cyrraedd ac yn gadael y Safle Rheoli Ffiniau ar ddiwrnod nodweddiadol.</p> <p>O ran yr effaith ar briffyrdd allanol, mae'r cyfnod o oriau prysuraf yn y senario gwaethaf, sef symudiadau traffig yn y 85fed ganradd a holl deithiau staff mewn cerbydau, yn arwain at 32 o gerbydau ysgafn ac un cerbyd nwyddau trwm yn gadael y safle rhwng 5pm a 6pm. Felly, ystyrir bod capasiti'r Safle Rheoli Ffiniau a'r rhwydwaith priffyrdd allanol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer y symudiadau disgwylliedig hyn.</p> <p>O ran y galw am lleoedd parcio, mae'r cyfnod o oriau prysuraf yn y senario gwaethaf yn arwain at sefyllfa lle mae angen lleoedd parcio ar 64 o aelodau o staff gyda 74 o lleoedd parcio ar gael. Darperir 40 o lleoedd parcio i gerbydau nwyddau trwm ar y safle a disgwyllir hyd</p> |

Ymgynghorai **Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd**

Ymateb i'r Adborth a Gafwyd

at 41 o gerbydau ar y safle yn ystod y dydd heb yr un cerbyd nwyddau trwm yn aros mwy na 3 awr. Felly, nid ystyrir bod angen unrhyw leoedd parcio ychwanegol na lleoedd parcio gorlif.

Bydd angen cyflwyno cais cynllunio arall ar gyfer unrhyw gynnydd mewn capasiti.

O ran monitro capasiti, caiff Uwchgynllun Amlinellol ei ddatblygu a fydd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer monitro symudiadau cerbydau a pharcio ar y safle. O ystyried y nifer bach o symudiadau gan gerbydau nwyddau trwm a ddisgwyllir ar y safle, ni ragwelir unrhyw broblemau ond gellir rheoli hyn yn briodol ar y safle os bydd problemau yn codi, sy'n annhebygol o ddigwydd.

3.2 Ymatebion i'r ymgynghoriad gan sefydliadau eraill

Yn ogystal â'r ymatebion a grynhowyd uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyfanswm o un ymateb gan sefydliadau nas nodwyd fel ymgynghoreion i ddechrau.

Ceir copïau o'r sylwadau a gafwyd gan sefydliadau nad ydynt yn ymgynghoreion yn **Atodiad C**.

Tabl 3.2: Ymatebion i'r ymgynghoriad gan sefydliadau eraill

| Sefydliad | Crynodeb o'r Ymatebion a Gafwyd | Yr Ymateb i'r Prosiect |
|--|--|---|
| Cymdeithas Trigolion a Thenantiaid Bae Trearddur | <p>Gwnaeth Cymdeithas Trigolion a Thenantiaid Bae Trearddur y sylwadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">Hwn yw'r safle gorau o ystyried y cyfyngiadau o ran maint a'r tir sydd ar gaelMae ymhell i ffwrdd oddi wrth yr ardal breswyl ac mae'n hawdd ei gyrraedd o'r A55.Mae'r brasgynlluniau cychwynnol o'r safle i'w gweld yn rhesymolA ellir gosod camerâu teledu cylch cyfyng (CCTC) a chamerau adnabod rhif cerbydau yn awtomatig (ANPR) ar y ffordd rhwng y safle a'r porthladd? (er mwyn dal unigolion sy'n taflu sbwriel) | <ul style="list-style-type: none">Nid oes unrhyw ofynion penodol o ran seilwaith er mwyn darparu ar gyfer dynodi'r Safle Rheoli Ffiniau. Mae'r safle wedi'i neilltuo yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fabwysiadwyd. Gall Llain 9 ddarparu ar gyfer y datblygiad strategol hwn.Mae'r Datganiad am Drafnidiaeth yn nodi sut y gellid lleoli'r Cyfleuster Rheoli Ffiniau o fewn y gylchfan bresennol ar yr A55 heb unrhyw effeithiau andwyol ar y Rhwydwaith Priffyrdd. Mae'r cynigion sy'n ymwneud â gwaith tirlunio a lliniaru sŵn a golau yn ceisio osgoi unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol andwyol ar drigolion lleol.Cyhoeddir dyluniadau cysyniadol manylach yn y diweddariadau cymunedol sydd ar fin cael eu llunio drwy www.inlandborderfacilities.ukBydd gweithredwyr safleoedd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid lleol er mwyn sicrhau y caiff ymddygiad gyrwyr ei fonitro ac yr ymdrinnir â chwynion yn amserol. |

3.3 Adborth a Gafwyd gan Rhanddeiliaid y Ffin Ymgynghori Linell Goch a Rhanddeiliaid Cymunedol Eraill

Fel y dangosir yn Ffigur 1.1, dewiswyd Ffin Ymgynghori Linell Goch er mwyn sicrhau bod perchenogion a meddianwyr perthnasol yn cael eu cynnwys yn y broses ymgynghori. Mae hyn yn cynnwys:

- perchenogion tir ger y safle; ac
- meddianwyr tir ger y safle, neu ffyrdd a gaiff eu defnyddio gan gerbydau yn teithio i'r safle ac oddi yno, y mae'r datblygiad yn debygol o effeithio arnynt.


Ymgynghorwyd yn ffurfiol â pherchenogion a meddianwyr sydd wedi'u lleoli yn yr ardal am 21 diwrnod rhwng 24 Mawrth a 14 Ebrill 2021.

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 39 o ymatebion adborth gan rhanddeiliaid y Ffin Ymgynghori Linell Goch a rhanddeiliaid cymunedol eraill.

Ceir copïau o'r sylwadau a gafwyd gan Ymgynghoreion (rhanddeiliaid y Ffin Ymgynghori Linell Goch a rhanddeiliaid cymunedol eraill) yn **Atodiad D**.


Ffigur 3.1 Mae Ffigur 3.1 isod yn crynhoi'r ffyrdd y cafwyd adborth ar y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig. Cafwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan ddefnyddio'r cyfleuster adborth ar-lein ar y wefan www.inlandborderfacilities.uk:

Ffigur 3.1: Ffynonellau adborth



Crynoir y themâu mwyaf cyffredin a godwyd gan berchenogion a meddianwyr perthnasol ynghylch y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn y graff isod. Y themâu mwyaf cyffredin a ddewiswyd gan ymatebwyr oedd yr amgylchedd, yr effaith ar briffyrdd a lleoliad y safle.

Ffigur 3.2: Themâu adborth cyffredin



Mae'r themâu cyffredinol hyn wedi'u rhannu ymhellach i roi darlun mwy cynhwysfawr o'r adborth a gafwyd gan y cyhoedd. Dengys Tabl 3.3: Crynodeb o'r adborth gan gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus isod adborth trigolion wedi'i rannu'n themâu manylach ac ymatebion Llywodraeth Cymru.

Mae'r holl adborth a gafwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cymunedol wedi'i adolygu gan Lywodraeth Cymru cyn y cyflwyniad cynllunio. Oherwydd y cwestiynau a ofynnwyd, bu'n bosibl i'r ymatebwyr godi sawl thema ym mhob ymateb. Felly, roedd y nifer o weithiau y codwyd rhai themâu yn fwy na chyfanswm yr ymatebwyr a gyflwynodd adborth.

Tabl 3.3: Crynodeb o'r adborth gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|---------------|------------------------------------|------------------------------|--|
| Yr amgylchedd | Llygredd sŵn | 18 | <p>Caiff gyrwyr yr holl gerbydau nwyddau trwm sy'n mynd i'r safle eu cyfarwyddo i ddiffodd eu peiriannau tra byddant wedi'u parcio neu'n cael eu harchwilio. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beiriannau a ddefnyddir i oeri ôl-gerbydau rheweddiedig. Mae Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig yn cynnig y dylid cynnwys ffens acwstig yn y dyluniad er mwyn lleihau lefelau sŵn o'r safle. Fodd bynnag, mae cynllun y safle wedi'i optimeiddio er mwyn sicrhau y caiff gweithgareddau swllyd ar y safle eu sgrinio gan yr adeiladau newydd. Bydd ôl-gerbydau rheweddiedig y mae angen cymorth arnynt i gadw eu llwyth yn oer yn gallu cysylltu â chyflenwad trydan a chyfyngir ar nifer y fath ôl-gerbydau er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol oherwydd sŵn. Mae'r safle wedi'i gynllunio fel system unffordd am resymau diogelwch ac er mwyn cwtogi hyd yr eithaf ar nifer y symudiadau gan gerbydau nwyddau trwm.</p> <p>Defnyddir mesurau adeiladu arfer gorau yn ystod y cam adeiladu. Er enghraifft, cynhelir y gweithgareddau mwyaf swllyd yn ystod y dydd yn unig a bydd golau dros dro gyda'r nos ar lefel isel ac yn gyfeiriol a bydd y goleuadau dan gwcwll. At hynny, caiff Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) ei roi ar waith gan y contractwr yn ystod y cam adeiladu, a fydd yn sicrhau bod holl staff y safle yn cydymffurfio â therfynau sŵn, golau a dirgryndod, arferion gorau ac oriau gwaith adeiladu (sydd wedi'u cynnwys fel terfyn arfaethedig ar Daenlen Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig). At hynny, bydd cytundeb Adran 61 â Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdodau Lleol, a fydd yn pennu terfynau ar gyfer sŵn a dirgryndod, ar waith cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.</p> |
| | Llygredd golau | 16 | <p>Ystyrir bod y safle cyfan yn ardal waith ac, felly, o dan reoliadau iechyd a diogelwch, rhaid i'r safle gael ei oleuo i safon ofynnol er mwyn i gerbydau a cherddwyr allu symud yn ddiogel ar draws y safle.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau â'r Swyddog Ecoleg yng Nghyngor Sir Ynys Môn, mireiniwyd terfyn arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig ar gyfer goleuadau ymhellach, er mwyn sicrhau na fydd y cynllun yn 'colli golau' ar gynfynioedd a gadwyd na'r ardal ehangach (gan gynnwys yr AHNE). Ers hynny, mae'r cyfyngiad arfaethedig wedi'i fireinio er mwyn sicrhau y cyfyngir 'colli golau' i'r Ardal Ddatblygadwy + 1m yn unig.</p> <p>At hynny, dim ond pan fyddant yn symud o amgylch y safle y bydd gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yn troi goleuadau eu cerbydau ymlaen. Bydd y bwnd a'r ffens acwstig a gynigir fel rhan o Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a Chyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig hefyd yn lliniaru effaith goleuadau'r cerbydau nwyddau trwm wrth iddynt symud ar draws y safle. Bydd y ffens acwstig a'r gwaith plannu hefyd yn sgrinio goleuadau'r cerbydau nwyddau trwm i ryw raddau wrth iddynt symud ar draws y safle.</p> |
| | Ansawdd aer / llygredd / arogleuon | 14 | <p>Yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, cafodd effeithiau ar ansawdd aer ar gyfer llifau traffig adeiladu a gweithredu eu sgrinio yn erbyn y meini prawf asesu a nodir yn y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd, 'Sustainability and Environment Appraisal Air Quality (DMRB LA 105)'. Ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar ansawdd aer lle nad yw newidiadau amcangyfrifedig mewn llifau traffig yn fwy na meini prawf sgrinio DMRB LA 105. Dangosodd adolygiad o symudiadau cerbydau ar gyfer y cam adeiladu (senario gwaethaf o hyd at 100 o gerbydau nwyddau trwm y dydd) a'r cam gweithredu (senario gwaethaf o hyd at 42 o gerbydau nwyddau trwm mewn cyfnod o 24 awr) nad oedd llifau traffig yn fwy na meini prawf sgrinio DMRB LA 105. Ar y sail hon, ni ddisgwyllir i'r cynnydd mewn traffig sy'n gysylltiedig â'r cynllun gael effeithiau sylweddol ar ansawdd aer yn ystod y cam adeiladu na'r cam gweithredu.</p> |
| | Ecoleg | 13 | <p>Byddai'r mwyafrif o'r llystyfiant presennol yn cael ei gadw ac ychwanegid atynt, fel y cynigir yng Nghyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig. Yng nghornel dde-ddwyreiniol y safle y mae'r rhan fwyaf o'r llystyfiant y byddai angen ei gollu er mwyn darparu ar gyfer allanfa argyfwng a rhai meysydd parcio. Byddai'r ardal hon yn defnyddio cynifer o nodweddion meddal â phosibl, megis glaswellt atgyfnerthedig athraidd ar gyfer y ffyrdd a'r llwybrau troed a bydd yn ymgorffori gwaith plannu ychwanegol er mwyn diogelu golygfeydd o'r siambr gladdu. Er y caiff rhywfaint o laswelltir ger y pwl arafu presennol ei gollu, caiff ei ddatblygu fel rhan o'r Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae systemau draenio cynaliadwy yn atebion draenio sy'n cynnig dewis amgen yn lle sianelu dŵr wyneb yn uniongyrchol drwy rwydwaith o bibellau a</p> |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|-------|--|------------------------------|--|
| | | | <p>charthfossydd i gyrsiau dŵr cyfagos. Yn yr achos hwn, mae systemau draenio cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru yn cael eu dylunio er mwyn diogelu bywyd gwylt a byddant yn darparu cynefin ychwanegol i fadfallod dŵr cribog, ymlusgiaid, amffibiaid ac infertebratau yn ogystal ag adnodd fforio i ystlumod ac, i raddau llai, ddyfrgwn yn yr ardal leol, ar ôl iddynt ymsefydlu. Caiff cynefinoedd yr ystyrir eu bod yn Bwysig lawn o dan Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (brigiadau creigiog, y pwll arafu presennol a glaswelltir heb ei wella sy'n ffinio â llac) eu dynodi'n glir i'w cadw a'u gwarchod yn ystod y cam adeiladu. Mae Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig yn cynnig y byddai goleuadau yn cael eu dylunio er mwyn sicrhau na fydd colli golau yn effeithio ar y coridorau tywyll o amgylch y safle, gan leihau'r effeithiau ar ystlumod a thylluanod gwynion sy'n fforio ac yn cymudo.</p> |
| | | | <p>Mae arolygon ecolegol wedi'u cwblhau a oedd yn cynnwys arolwg Ar Droed Cam 1 ac arolwg o Fadfallod Dŵr Cribog. Roedd yr arolwg Cam 1 yn cynnwys mapio cynefinoedd y safle a'r potensial i gynnal rhywogaethau nodedig a gwarchoddedig. Defnyddiwyd canlyniadau'r arolwg hwn i optimeiddio dyluniad y safle er mwyn osgoi cynefinoedd pwysig (megis y Brigiad Creigiog sy'n cynnwys rhywogaethau botanegol prin). Cynhaliwyd arolygon o fadfallod dŵr cribog rhwng mis Ebrill a diwedd mis Mai 2021. Roedd y rhain yn cynnwys arolygon presenoldeb/absenoldeb ac arolygon samplu DNA amgylcheddol o bob pwll hygyrch o fewn 300m. Cytunwyd ar fethodoleg yr arolygon hyn â CNC a'r Swyddog Ecoleg yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Cadarnhaodd canlyniadau'r arolygon ei bod yn debygol nad oedd unrhyw fadfallod dŵr cribog ar y safle. Pan fo'u hangen, mae pob arolwg, trwydded a datganiad dull priodol angenrheidiol yn benodol ofynnol drwy derfyn arfaethedig yng Nghyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig.</p> |
| | Yr effaith weledol | 11 | <p>Cynigir y dylai lleoliad adeiladau, yr ardal ddatblygadwy ac uchafswm maint adeiladau gael eu rheoli gan gynllun Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a Chyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig. Y flaenoriaeth yw bod y gwaith plannu tirlunio yn cael ei wneud ar ddechrau'r cynllun, er mwyn manteisio i'r eithaf ar fesurau sgrinio ychwanegol cyn gynted â phosibl. At hynny, bydd y gwaith o gynnal a rheoli'r cynefinoedd a'r gwaith plannu tirlunio yn yr hirdymor a gaiff ei ymgorffori yn y cynllun yn ddarostyngedig i un o derfynau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gynnal dros oes y Safle Rheoli Ffiniau. Mae adeiladau ar y safle wedi'u cynllunio i ymdoddi i'r dirwedd o amgylchedd y safle a lleihau'r effaith weledol. Mae trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, Cyngor Sir Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd wedi ein helpu i optimeiddio dyluniad y cynllun. Roedd y trafodaethau hyn yn gyfle da i ail-werthuso lliw/palet yr adeiladau arfaethedig a materion eraill megis uchder adeiladau a gwaith tirlunio arfaethedig. Mae gwelliannau i'r dyluniad oherwydd y trafodaethau hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Newidiwyd lliw toeau'r adeiladau o liwiau mwy tywyll i liwiau mwy golau, yn unol â'r ardal o amgylch y safle • Cyflwynwyd cymysgedd o liwiau a lliwiau acen mwy llachar ar nodweddion megis drysau a ffenestri a lliwiau gwan ar rannau mwy sylweddol o adeiladau • Lleihau a chylchfaeo uchderau adeiladau a seilwaith adeiledig • Lleihau faint o olau a gollir y tu allan i'r Ardal Ddatblygadwy • Llain glustogi dirlunio ychwanegol (o leiaf 1m o led) ar hyd ffin ddeheuol y safle • Cadw'r llystyfiant presennol ar hyd y ffin ac ychwanegu ato |
| | Mae pryderon archaeolegol yn cynnwys yr effaith ar y siambr gladdu | 11 | <p>Drwy ddylunio y cynllun, yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol, bu'n bosibl i Lywodraeth Cymru roi mesurau dylunio a lliniaru ar waith yr oedd pob parti o'r farn eu bod yn ddigonol i atal unrhyw effeithiau sylweddol ar dreftadaeth adeiledig ac asedau archaeolegol. Mae'r rhain wedi'u dogfennu yn Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a'r cyfyngiadau arfaethedig. Roedd hyn yn cynnwys Siambr Gladdu Trefnath. Roedd mesurau i leihau'r effaith ar y siambr gladdu yn cynnwys pennu derfynau ar gyfer uchder adeiladau, lliwio adeiladau a ffensys, meddalau elfennau adeiledig drwy waith plannu o fewn golygfan y siambr gladdu, optimeiddio'r dyluniad yn y gornel ogledd-orllewinol drwy ddefnyddio glaswellt atgyfnerthedig athraidd yn hytrach na choncrit a symud strwythurau nad oeddent yn hanfodol o'r ardal. Roedd gwaith cloddio blaenorol wedi ymchwilio'n llawn i olion archaeolegol ar y safle ac, felly, nid oedd unrhyw bosiblwydd y byddai olion</p> |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|-------------------------|---|------------------------------|---|
| | | | archeolegol claddedig yn cael eu difrodi yn ystod cam adeiladu'r Safle Rheoli Ffiniau. Cadarnhawyd hyn drwy ymgynghori â'r ymddiriedolaeth archaeolegol leol. |
| | Effeithlonrwydd ynni | 2 | Bydd gan y Safle Rheoli Ffiniau radd ardderchog BREEAM a bydd yn cynnwys adeiladau ag U-werthoedd 'Da', paneli solar ffotofoltäig, cyfarpar effeithlon a chyfleuster cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle a darperir pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar y safle. Dim ond os bydd yn cael sgôr o 85% neu'n uwch y gall adeilad gael gradd Eithriadol BREEAM. Mae hyn yn ystyried yr effeithlonrwydd ynni, pa mor gynaliadwy y cafodd ei adeiladu a pha mor dda y bydd yn ymateb i anghenion defnyddwyr. |
| Yr Effaith ar Briffyrdd | Mwy o draffig | 18 | Rhagwelir y bydd rhwng 25 a 30 o gerbydau newydd trwm yn dod i'r Safle Rheoli Ffiniau bob dydd, sy'n gyfran fach o'r cerbydau nwyddau trwm sy'n cyrraedd ar y fferïau, ac ni fyddant yn cael fawr ddim effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Ni fydd angen i bob cerbyd nwyddau trwm fynd i'r cyfleuster: dim ond cyfran o'r cerbydau nwyddau trwm. Mae gan y safle ei hun y capasiti a'r gallu cyffredinol i reoli hyd at 40 o gerbydau nwyddau trwm os caiff cerbydau eu dal ar y safle neu os bydd oedi cyn cwblhau'r archwiliad neu samplu llwyth. Mae'r capasiti ychwanegol yn caniatáu galluoedd brys petai cerbydau yn cael eu hatal rhag gadael y safle o ganlyniad i argyfwng allanol. Hefyd, bwriedir darparu lleoedd parcio ar wahân i staff ar gyfer hyd at 75 o gerbydau ar y safle er yr amcangyfrifir mai dim ond 25 o aelodau o staff a fyddai'n gweithio yno ar unrhyw adeg benodol. Yn ystod y cam adeiladu, ni fyddai nifer y cerbydau nwyddau trwm yn fwy na 100 y dydd, fel y nodir yng Nghyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig. Ceid mynediad i'r safle drwy'r fynedfa bresennol. |
| | Mae pryder ynghylch cerbydau nwyddau trwm yn defnyddio llwybr un lôn/mynd i Fae Trearddur yn Lôn Trefignath | 12 | Bydd arwyddion ffordd amlwg yn cyfeirio cerbydau i'r safle o'r A55. Bydd arwyddion hefyd yn atal cerbydau nwyddau trwm rhag defnyddio'r ffordd un lôn tua Bae Trearddur o'r safle. |
| | Ffyrdd lleol | 10 | Nifer y cerbydau nwyddau trwm: Rhagwelir y bydd rhwng 25 a 30 o gerbydau newydd trwm yn dod i'r Safle Rheoli Ffiniau bob dydd, sy'n gyfran fach o'r cerbydau nwyddau trwm sy'n cyrraedd ar y fferïau. Ni fydd angen i bob cerbyd nwyddau trwm fynd i'r cyfleuster: dim ond cyfran o'r cerbydau nwyddau trwm. Mae gan y safle ei hun y capasiti a'r gallu cyffredinol i reoli hyd at 40 o gerbydau nwyddau trwm os caiff cerbydau eu dal ar y safle neu os bydd oedi cyn cwblhau'r archwiliad neu samplu llwyth. Mae'r capasiti ychwanegol yn caniatáu galluoedd brys petai cerbydau yn cael eu hatal rhag gadael y safle o ganlyniad i argyfwng allanol. Y llwybr i'r Safle Rheoli Ffiniau a diogelwch ar y ffyrdd: Cynlluniwyd y llwybr byr o'r A55 i'w ddefnyddio gan gerbydau nwyddau trwm ac at ddefnydd masnachol yn ardal Parc Cybi ac mae hen Arhosfan Loriau Roadking yn enghraifft o hyn. Cynlluniwyd y Safle Rheoli Ffiniau er mwyn sicrhau na fydd cerbydau nwyddau trwm yn ciwio wrth fynd i mewn i'r safle ond y cânt eu stacio ar y safle ar gyfer eu harchwiliadau diogelwch cyn cael eu symud i adeiladau'r Safle Rheoli Ffiniau. Mesuriadau'r gylchfan: Archwiliwyd dyluniad y gylchfan bresennol a nododd gwaith a wnaed i dracio'r cerbydau nwyddau trwm mwyaf a ganiateir ar ffyrdd y DU fod digon o le ar y gylchfan i gerbydau nwyddau trwm allu droi i mewn i'r safle. Ni chytunwyd eto ar y gofynion gweithredol a fydd yn sicrhau bod cerbydau yn ymweld â'r Safle Rheoli Ffiniau. Mae hyn hefyd yn ystyriaeth ar lefel y DU. |
| | Tagfeydd traffig | 9 | Mae effeithiau traffig ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a'r rhwydwaith ffyrdd strategol yn cael eu hasesu a'u rheoli ar y cyd â phartion ymgysylltu lleol a chenedlaethol. Pan fydd y safle yn weithredol, mae'n bosibl y caiff effeithiau posibl traffig ar ffyrdd cyfagos a achosir gan gerbydau yn teithio i'r Safle Rheoli Ffiniau ac oddi yno eu monitro a'u cofnodi, os bydd angen. Fodd bynnag, mae nifer y cerbydau nwyddau trwm y bwriedir iddynt ddefnyddio'r safle yn fach ac ni fyddent yn cael fawr ddim effaith ar y rhwydwaith ffyrdd. |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|------------------|---|------------------------------|--|
| | Traffig ar hyd yr A55 | 6 | Mae effeithiau traffig ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a'r rhwydwaith ffyrdd strategol yn cael eu hasesu a'u rheoli ar y cyd â phartïon ymgysylltu lleol a chenedlaethol. Pan fydd y safle yn weithredol, mae'n bosibl y caiff effeithiau posibl traffig ar ffyrdd cyfagos a achosir gan gerbydau yn teithio i'r Safle Rheoli Ffiniau ac oddi yno eu monitro a'u cofnodi, os bydd angen. Fodd bynnag, mae nifer y cerbydau nwyddau trwm y bwriedir iddynt ddefnyddio'r safle yn fach ac ni fyddent yn cael fawr ddim effaith ar y rhwydwaith ffyrdd. |
| | Pryderon ynghylch arwyddion | 4 | Bydd arwyddion ffordd amlwg yn cyfeirio cerbydau i'r safle o'r A55. Bydd arwyddion hefyd yn atal cerbydau nwyddau trwm rhag defnyddio'r ffordd un lôn tua Bae Trearddur o'r safle. |
| | Diogelwch ar y ffyrdd | 3 | Nid ystyrir y bydd nifer y cerbydau nwyddau trwm y disgwylir iddynt ddefnyddio'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar ddiogelwch ar y ffyrdd yn y lleoliad hwn. |
| | Cerddwyr yn cymysgu â thraffig | 2 | Mae tagfeydd traffig ar y ffordd leol wedi'u lliniaru drwy ddylunio'r Safle Rheoli Ffiniau yn y fath fodd fel bod y capasiti ar y safle ar gyfer cerbydau nwyddau trwm yn fwy na nifer y cerbydau nwyddau trwm a ddisgwylid ar adegau prysur. At hynny, ni chyfyngir ar gerbydau nwyddau trwm sy'n cyrraedd mynedfa'r Safle Rheoli Ffiniau am bellter byr cyn cyrraedd y glwyd ddiogelwch lle y caiff pob cerbyd ei stopio am amser byr sy'n ddigon hir i sicrhau bod y cerbyd yn bwriadu ymweld â'r safle. Wedyn, caiff cerbydau nwyddau trwm eu dal ar y safle mewn lonydd lle y cynhelir gwiriadau diogelwch arnynt cyn iddynt symud ymlaen i gael eu harchwilio. Mae cryn dipyn o waith dylunio diogelwch wedi'i wneud ar gyfer y llwybr i'r Safle Rheoli Ffiniau (Lôn Trefnath). Mae ganddo lwybr troed â chyrbiau isel i gerddwyr ar ochr orllewinol y ffordd a llwybr troed/llwybr beicio cyfun â chyrbiau isel ar ochr ddwyreiniol y ffordd hon. |
| | Nid oes unrhyw bryderon ynghylch traffig gan y rhagwelir y bydd lefelau traffig yn isel. | 1 | Nid ystyrir y bydd nifer y cerbydau nwyddau trwm y disgwylir iddynt ddefnyddio'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar gapasiti ffyrdd yn y lleoliad hwn. |
| | Cerbydau nwyddau trwm yn parcio ar ffyrdd lleol | 1 | Gall y safle ddal hyd at 40 o gerbydau nwyddau trwm ar unrhyw adeg benodol. Mae hyn yn cynnwys lonydd dal ar y safle i gadw traffig i ffwrdd oddi wrth y rhwydwaith ffyrdd lleol a thua 14 o leoedd parcio i gerbydau nwyddau trwm. Disgwylir rhwng 25 a 30 o gerbydau nwyddau trwm ar y safle bob dydd ar gyfartaledd ac, felly, mae nifer y lleoedd parcio a fydd yn cael eu darparu ar y safle yn fwy na phriodol. At hynny, mae lleoedd parcio ar wahân i staff. Ar hyn o bryd, mae'r llwybr cyfan o'r A55 i'r Safle Rheoli Ffiniau yn destun gorchymyn dim aros a ddynodir gan y ddwy linell felen. Bydd y gorchymyn hwn yn parhau i gael ei orfodi gan Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion o dorri'r gorchymyn yn briodol. O ran taflu sbwriel, fel gyda phob ffordd leol, cynhelir amserlen o waith codi sbwriel gan yr awdurdod priffyrdd lleol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn i fonitro unrhyw achosion o daflu sbwriel ger y safle. |
| Lleoliad y safle | Dylid lleoli'r cynnig rywle arall e.e. yn y porthladd, llain arall ym Mharc Cybi neu'r gwaith Alwminiwm | 32 | Cynhaliwyd proses dewis safle er mwyn nodi'r safle mwyaf addas ar gyfer y Safle Rheoli Ffiniau. Y blaenoriaethau ar gyfer y broses dewis safle oedd sicrhau bod y safle yn agos at y porthladd, ei fod yn ddigon o faint i ddarparu ar gyfer y cyfleuster, ei fod ar gael i'w brynu ac y gellid ei ddatblygu'n gyflym. Yn y diwedd dewiswyd Parci Cybi gan ei fod yn un o'r safleoedd agosaf o faint addas a'i fod wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd cyflogaeth yn y Cynllun Lleol, gan fod cynllun o faint tebyg ar y safle wedi cael caniatâd cynllunio yn flaenorol (19C842A/EIA) ac am fod y safle eisoes yn eiddo i Lywodraeth Cymru ac, felly, ei fod yn perir' risg leiaf yn fasnachol |
| | Agosrwydd at eiddo lleol | 8 | Mae Llain 9 wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd cyflogaeth yn y Cynllun Lleol ac, felly, ni fydd datblygu'r safle fel Safle Rheoli Ffiniau yn mynd yn groes i'r cynlluniau datblygu ar gyfer yr ardal Mae'r safle wedi'i gynllunio er mwyn lleihau'r effaith ar drigolion lleol cymaint â phosibl. Mae gweithrediadau sy'n debygol o greu'r lefelau uchaf o sŵn wedi'u lleoli mor bell â phosibl o'r eiddo presennol ac mae Cyfyngiadau'r Gorchymyn |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|--------------------|---|------------------------------|--|
| | | | Datblygu Arbennig yn cynnig y dylid gosod ffens acwstig hefyd. Mae mesurau lleihau golau wedi'u cynnig er mwyn sicrhau bod goleuadau yn gyfeiriol ac o dan gwcwll. Caiff llain glustogi dirluniol a fydd o leiaf 10m o led ei phlannu â chymysgedd o rywogaethau coed brodorol rhwng y bwnd presennol o goed a'r ardal ddatblygadwy er mwyn cuddio'r datblygiad mewn golygfeydd o'r Gorllewin-Dde-Orllewin o dderbynyddion gweledol sensitif sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos. Tua rhan ddwyreiniol y safle, bydd y llain glustogi dirluniol yn cynnwys dwy elfen linellol, un i'r de o'r brif ffordd fynediad a rhan arall yn gyfochrog â'r bwnd presennol â choed. Mewn unrhyw fan unigol, bydd y ddwy elfen, gyda'i gilydd, yn darparu llain glustogi dirluniol sydd o leiaf 10m o led. Caiff y bwnd tirluniol presennol ei gadw ac ychwanegir ato, a fydd yn cuddio'r datblygiad rywfaint yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ddechrau'r cyfnod gweithredu a nes i'r llain glustogi dirluniol ymsefydlu. |
| | Lleoliad da/prinder lle yn y porthladd | 6 | Nid oes unrhyw ofynion penodol o ran seilwaith er mwyn darparu ar gyfer dynodi'r Safle Rheoli Ffiniau. Mae'r safle wedi'i neilltuo yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fabwysiadwyd. Gall Llain 9 ddarparu ar gyfer y datblygiad strategol hwn. |
| | Gwerthoedd eiddo | 4 | Nid yw colli gwerth eiddo, p'un a yw'n wirioneddol ai peidio, yn ystyriaeth berthnasol y gellir ei hystyried yn y penderfyniad cynllunio. Mae'r safle wedi'i neilltuo yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fabwysiadwyd. |
| Dyluniad y cynllun | Mae'r cynllun yn rhy ddrud/rhy fawr ar gyfer y gofynion | 10 | Mae angen rheolaethau'r ffiniau ar nwyddau lechydol a Ffytioechydol ("SPS") sy'n dod i mewn i'r DU o'r UE ar gyfer unrhyw borthladd sydd am ymdrin â'r mathau hyn o nwyddau. Mae Caerbybi o bwys strategol i'r Deyrnas Unedig a dim ond Dover sy'n bwysicach na hi o ran ymdrin â llwythi rholio ymlaen rholio i ffordd â gyrrwr. Mae'n rhan bwysig o'r 'bont dir' rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r Cyfandir. Mae hefyd yn un o'r ychydig borthladdoedd yn y Deyrnas Unedig a all ymdrin ag anifeiliaid byw. Mae Model Gweithredu Ffiniau Llywodraeth y DU, ynghyd â'r gofynion sylfaenol a nodir yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, yn pennu'r cyfleusterau sydd eu hangen i sicrhau dynodiad gweithredol a darparu ar gyfer hapddigwyddiadau. |
| | Maint yr adeiladau ar y Safle Rheoli Ffiniau | 8 | Mae adeiladau ar y safle wedi'u dylunio i ymdoddi i'r dirwedd o amgylch y safle a lleihau'r effaith weledol. Mae trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, Cyngor Sir Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd wedi ein helpu i addasu'r dyluniad er mwyn iddo weddu i'r safle. Roedd y trafodaethau hyn yn gyfle da i ail-werthuso lliw/palet yr adeiladau arfaethedig a materion eraill megis uchder adeiladau, ardaloedd cylchfaeo a gwaith tirlunio arfaethedig. Cynigir mai'r uchafswm uchder a ganiateir ar gyfer unrhyw strwythurau o dan y Gorchymyn Datblygu Arbennig fydd 15m (a reolir gan derfyn arfaethedig yng Nghyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig). Disgwylir i'r prif ardaloedd archwilio fod tua 8m o uchder ac i'r strwythurau eraill fod yn rhai unllawr. Mae Model Gweithredu Ffiniau Llywodraeth y DU, ynghyd â'r gofynion sylfaenol a nodir yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol, yn pennu'r cyfleusterau sydd eu hangen i sicrhau dynodiad gweithredol a darparu ar gyfer hapddigwyddiadau. |
| | Sylw cyffredinol ynghylch dyluniad adeiladau neu'r cynigion | 7 | Mae dyluniad y cynllun wedi'i optimeiddio er mwyn sicrhau'r ôl troed lleiaf posibl sydd ei angen ar gyfer cynllun cyflawnadwy ac, ar yr un pryd, gadw'r llystyfiant a'r nodweddion tirwedd presennol. Fodd bynnag, oherwydd maint yr adeiladau ac agosrwydd y cynllun at dderbynyddion preswyl cyfagos (~100m yn y man agosaf), mae'n hanfodol cadw'r bwnd presennol o llystyfiant ac ychwanegu ato er mwyn lleihau effeithiau andwyol sylweddol ar dderbynyddion gweledol. Caiff llain glustogi dirluniol a fydd o leiaf 10m o led ei phlannu â chymysgedd o rywogaethau coed brodorol rhwng y bwnd presennol o goed a'r ardal ddatblygadwy er mwyn cuddio'r datblygiad mewn golygfeydd o'r Gorllewin-Dde-Orllewin o dderbynyddion gweledol sensitif sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos. Tua rhan ddwyreiniol y safle, bydd y llain glustogi dirluniol yn cynnwys dwy elfen linellol, un i'r de o'r brif ffordd fynediad a rhan arall yn gyfochrog â'r bwnd presennol â choed. Mewn unrhyw fan unigol, bydd y ddwy elfen, gyda'i gilydd, yn darparu llain glustogi dirluniol sydd o leiaf 10m o led. Caiff y bwnd tirluniol presennol ei gadw ac ychwanegir ato, a fydd yn cuddio'r datblygiad rywfaint yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ddechrau'r cyfnod gweithredu a nes i'r llain glustogi dirluniol ymsefydlu. Mae angen y gwaith plannu yn y llain glustogi er mwyn lleihau'r effeithiau ar y dirwedd ar hyd y ffin ddeheuol a gorllewinol er mwyn lleihau'r effeithiau gweledol andwyol o'r derbynyddion gweledol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Eiddo ym mhen ffordd bengaead Penrhyn Geiriol (yn arbennig Bryn Mawr ac eiddo cyfagos i'r gogledd); |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|-----------|--|------------------------------|---|
| | | | <ul style="list-style-type: none"> • Eiddo ar hyd ochr ogledd-orllewinol Hunters Chase (sef ardal breswyl ymhellach i'r de o Penrhyn Geiriol); • Pobl yn cerdded i'r gogledd ar hyd Lôn Trefignath • Yr eiddo o'r enw Tyddyn Uchaf • Eiddo yn Trearddur Mews <p>Rheolir lleoliad yr ardal ddatblygadwy, maint adeiladau a nodweddion tirwedd gan gynllun Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a Chyfyngiadau arfaethedig y Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu.</p> |
| | Pryderon ynghylch llifogydd / systemau draenio | 7 | <p>Caiff y dŵr wyneb ffo o'r datblygiad arfaethedig ar Lain 9 ei reoli drwy gyfres o nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy. Cynigir y dylid cynaeafu dŵr glaw er mwyn aildefnyddio'r dŵr o doeau, gan leihau faint o ddŵr ffo sy'n llifo o'r safle a'r defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad. Cynigir y dylai cymaint o ddŵr wyneb ffo â phosibl gael ei gludo gan systemau draenio cynaliadwy ar wyneb y ddaear, gan gynnwys lleiniau hidlo, pantiau, draeniau hidlo, basn crynhoi a phalmentydd athraidd.</p> <p>Bydd y systemau draenio cynaliadwy yn ei gwneud yn bosibl i rywfaint o ddŵr ymdreiddio i'r ddaear ond gyda llif y rhan fwyaf o'r dŵr wyneb yn cael ei arafu yn y basn crynhoi. Bydd llifau o'r basn crynhoi yn gollwng i'r cwrs dŵr presennol ond fe'u cyfyngir i gyfradd dŵr ffo o Faes glas ar gyfer y safle ac mae'r basn crynhoi yn ddigon mawr i ddarparu ar gyfer y digwyddiad storm 1 mewn 100 mlynedd ynghyd â newid o 30% yn yr hinsawdd.</p> <p>Darperir mesurau atal llygredd o'r dŵr wyneb ffo (sy'n draenio i'r ddaear a/neu'r cwrs dŵr presennol) gan y systemau draenio cynaliadwy, sy'n ffurfio cadwyn drin. Yn ogystal â'r broses lanhau a ddarperir gan gadwyn drin y systemau draenio cynaliadwy, mewn ardaloedd risg uchel, megis mannau parcio cerbydau nwyddau trwm ac ail-lenwi â thanwydd, mae'r dŵr ffo yn mynd drwy wahanwyr cadw / blaengwrt llawn Dosbarth 1 er mwyn tynnu hydrocarbonau a siltiau cyn iddo ollwng i'r cwrs dŵr presennol, drwy'r basn crynhoi.</p> |
| | Adeiladau uchel – y lleoliad anghywir | 5 | Mae adeiladau wedi'u gosod mewn lleoliad sy'n diwallu anghenion y Safle Rheoli Ffiniau ei hun orau tra cynigir y dylid codi uchder adeiladau drwy Gyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig, gan leihau'r effeithiau ar dirfeddianwyr ger y safle. |
| | Nid yw'r gylchfan wrth y fynedfa yn addas | 1 | Archwiliwyd dyluniad y gylchfan bresennol a nododd gwaith a wnaed i dracio'r cerbydau nwyddau trwm mwyaf a ganiateir ar ffyrdd y DU fod digon o le ar y gylchfan i gerbydau nwyddau trwm allu droi i mewn i'r safle. |
| | Systemau draenio | 1 | Caiff y dŵr wyneb ffo o'r datblygiad arfaethedig ar Lain 9 ei reoli drwy gyfres o Systemau Draenio Cynaliadwy |
| Diogelwch | Ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys gyrrwyr cerbydau nwyddau trwm yn taflu sbwriel | 8 | <p>Cyfyngiadau ar barcio: Ar hyn o bryd, mae'r llwybr cyfan o'r A55 i'r Safle Rheoli Ffiniau yn destun gorchymyn dim aros a ddynodir gan y ddwy linell felen. Bydd y gorchymyn hwn yn parhau i gael ei orfodi er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion o dorri'r gorchymyn yn briodol.</p> <p>Sbwriel: Fel gyda phob ffordd leol, cynhelir amserlen o waith codi sbwriel ar hyd y llwybr i'r Safle Rheoli Ffiniau.</p> |
| | Troseddu | 4 | Bydd mesurau diogelwch ar y safle, ar ffurf camerâu teledu cylch cyfyng (CCTV), ffens, marsaliaid, camerâu adnabod rhif cerbydau yn awtomatig (ANPR) a mesurau gwrthderfysgaeth. |
| | Masnach/mewnfudwyr anghyfreithlon | 3 | <p>Am ei fod yn cael ei ystyried yn rhan o ystad y Llywodraeth, bydd y safle ei hun yn destun Asesiad o Fgythiadau a Risgiau (TARA). At hynny, bydd dyluniad y safle yn cynnwys y gofynion i'r safle gael ei amgylchynu gan ffens wrth-ddringo uchel a mynedfa sylweddol â chlwyd.</p> <p>Os bydd angen (sy'n annhebygol), bydd marsaliaid diogelwch hyfforddedig yn ymddrin ag unrhyw bobl a ganfyddir yn tresmasu neu'n cuddio ar y safle (bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd roi gwybod am y trefniadau lleol ar gyfer dal pobl sy'n cuddio ar y safle pan fydd y Gwnstabiliaeth leol a Llu Ffiniau'r DU wedi cytuno arnynt).</p> |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|----------------------------|--|------------------------------|---|
| | COVID-19/cadw pellter cymdeithasol | 3 | Nid yw bygythiad parhaus a phosibl COVID-19, a'i holl oblygiadau i iechyd pobl, yn fater y gellir ei anwybyddu. Bydd angen i'r safle gydymffurfio â pha reolau bynnag y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â COVID-19 yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r safle a bydd angen i bob aelod o staff a defnyddiwr gadw at y rheolau hynny. |
| | Pryderon cyffredinol ynghylch diogelwch | 3 | Am ei fod yn cael ei ystyried yn rhan o ystad y Llywodraeth, bydd y safle ei hun yn destun Asesiad o Fygythiadau a Risgiau (TARA). At hynny, bydd dyluniad y safle yn cynnwys y gofynion i'r safle gael ei amgylchynu gan ffens wrth-ddringo uchel a mynedfa sylweddol â chlwyd. Os bydd angen (sy'n annhebygol), bydd marsialiaid diogelwch hyfforddedig yn ymdrin ag unrhyw bobl a ganfyddir yn tresmasu neu'n cuddio ar y safle (bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd roi gwybod am y trefniadau lleol ar gyfer dal pobl sy'n cuddio ar y safle pan fydd y Gwnstabiliaeth leol a Llu Ffiniau'r DU wedi cytuno arnynt). |
| | Mae pryder ynghylch cerbydau nwyddau trwm yn gadael Porthladd Caergybi a pheidio â mynd i'r Safle Rheoli Ffiniau | 2 | Dewisir cerbydau ond cymerir camau ar wahân, nad ydynt yn rhan o gylch gwaith y cais hwn, yn erbyn cerbydau nad ydynt yn mynd i'r Safle Rheoli Ffiniau |
| Mae angen safle/manteision | Mae angen safle am resymau sy'n cynnwys Brexit | 9 | Ar ddiwedd y cyfnod pontio, newidiodd cyberthynas Llywodraeth Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn sylweddol, gan ddod â mynediad dirwyst i'r Farchnad Sengl a chyfranogiad yn yr Undeb Tollau i ben. Mae hyn yn golygu bod angen cynnal archwiliadau ffisegol bellach ar nwyddau penodol sy'n dod i mewn i'r Deyrnas Unedig. Bydd y gyfundrefn archwilio newydd yn cwmpasu anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n dod i mewn i Gymru o Weriniaeth Cymru a bydd angen i gyfran o unrhyw fewnforion o'r fath fynd drwy Safle Rheoli Ffiniau. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am wiriadau o'r fath a bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru sicrhau na fydd nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU yn peri risg i iechyd pobl nac o ran lledaeniad clefydau anifeiliaid a phlanhigion. |
| | Mae'r safle eisoes wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio at ddibenion masnachol | 7 | Mae'r safle wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd cyflogaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn drwy'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a fabwysiadwyd. Diffinnir y defnyddiau cyflogaeth fel B1 Busnes – Swyddfeydd, gwaith ymchwil a datblygu'n ymwneud â nwyddau a phrosesau, diwydiant ysgafn sy'n briodol mewn ardal breswyl. B2 Diwydiannol cyffredinol – Defnyddir ar gyfer proses ddiwydiannol heblaw un sy'n perthyn i ddosbarth B1 (ac eithrio gwaith llosgi, gwaith trin â chemegion, gwaith tirlenwi neu wastraff peryglus). B8 Storio neu ddosbarthu – Defnyddir at ddibenion storio neu fel canolfan ddosbarthu. Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys gwasanaethau storio yn yr awyr agored. Ystyrir bod y defnydd a wneir o Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn debyg i ddefnyddiau B2 a B8. |
| | Cyfleoedd cyflogaeth | 5 | Cwblheir strategaeth cyflogaeth, ar gyfer pob agwedd ar gyflogaeth ar y safle, a bydd yn rhoi ystyriaeth lawn naill ai i Themâu, Canlyniadau a Mesurau Cenedlaethol Cymru neu'r Pecyn Mesur Buddion Cymunedol fel rhan o Ddatganiad Polisi Caffael Cymru 2021, gan sicrhau y defnyddir cyflogaeth leol cymaint â phosibl i sicrhau budd i'r gymuned leol. At hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal y prosiect drwy Fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru ac, felly, bydd y prosiect yn cydymffurfio â gofynion y fframwaith. Bydd y strategaeth hon yn rhan o Gynllun Rheoli Gweithredol y safle a chaiff ei datblygu ar ôl i Lywodraeth Cymru benodi gweithredwr safle. Bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Ynys Môn wrth i'r trefniadau hyn ddatblygu. |
| Gweithredu'r safle | Pryder ynghylch oriau gweithredu. (h.y. ddydd a nos, 7 diwrnod yr wythnos) | 8 | Gweithredu 24 awr: Mae gweithredu'r safle am 24 awr yn cyfeirio'n uniongyrchol at y fferïau sy'n cyrraedd y porthladd a'r gofyniad i wasanaethu cyfran fach o'r cerbydau nwyddau trwm sy'n cyrraedd y mae'r math o nwyddau y maent yn eu cludo yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fynd i'r Safle Rheoli Ffiniau er mwyn i'w llwythi gael eu harchwilio. Sŵn a llygredd: Caiff gyrwyr yr holl gerbydau nwyddau trwm sy'n mynd i'r safle eu cyfarwyddo i ddiffodd eu peiriannau tra byddant wedi'u parcio neu'n cael eu harchwilio. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beiriannau a ddefnyddir i oeri ôl-gerbydau rhewieddiedig. Caiff bwnd a ffens |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|-----------|-----------------------------------|------------------------------|---|
| | | | <p>acwstig eu hymgorffori yn nyluniad y safle er mwyn lleihau lefelau sŵn o'r safle, a gynigir yn Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a Chyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig. Bydd ôl-gerbydau rhewiddiedig y mae angen cymorth amynt i gadw eu llwyth yn oer yn gallu cysylltu â chyflenwad trydan. Mae'r safle wedi'i gynllunio fel system unffordd am resymau diogelwch ac er mwyn cwtogi hyd yr eithaf ar nifer y symudiadau gan gerbydau nwyddau trwm.</p> <p>Goleuadau: Ystyrir bod y safle cyfan yn ardal waith ac, felly, o dan reoliadau iechyd a diogelwch, rhaid i'r safle gael ei oleuo i safon ofynnol er mwyn i gerbydau a cherddwyr allu symud yn ddiogel ar draws y safle. Bydd dyluniad y goleuadau yn ystyried eiddo cyfagos a, lle y bo'n bosibl, bydd yn cuddio'r golau o'r lampau. At hynny, dim ond pan fyddant yn symud o amgylch y safle y bydd gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yn troi goleuadau eu cerbydau ymlaen. Bydd y bwnd a'r ffens acwstig hefyd yn lleihau effaith goleuadau'r cerbydau nwyddau trwm wrth iddynt symud ar draws y safle.</p> |
| | Hyd | 3 | Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio caniatâd i ddefnyddio'r cyfleuster hwn yn barhaol. |
| Adeiladu | Tarfu yn ystod y cam adeiladu | 6 | <p>Fel rhan o broses gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig, mae cyfyngiadau arfaethedig wedi'u gosod ar yr oriau a weithir a sŵn a goleuadau ar y safle er mwyn helpu i ddiogelu trigolion cyfagos a sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.</p> <p>Cyfyngir gwaith adeiladu i 07:00-19:00 o'r golch o ddydd Llun i ddydd Gwener a 07:00-13:00 o'r gloch ar ddydd Sadwrn. Bydd angen cael caniatâd o dan Adran 61 ar gyfer unrhyw waith y tu allan i'r oriau hyn.</p> <p>Caiff terfynau ar sŵn a dirgryndod a achosir gan waith adeiladu eu pennu yn unol â BS5228. Bydd unrhyw sŵn a allai fod yn uwch na'r terfynau hyn yn unol â chaniatâd a roddir drwy gais o dan Adran 61.</p> <p>Dim ond pan fydd eu hangen y defnyddir goleuadau adeiladu, byddant yn gyfeiriol ac o dan gwcwll a byddant mor isel ag y bo'n ymarferol.</p> |
| Cynllunio | Pryderon ynghylch safle maes glas | 5 | <p>Mae'r safle wedi'i ddefnyddio'n flaenorol ar gyfer stacio cerbydau mewn argyfwng o dan hawliau datblygu a ganiateir Llywodraeth Cymru ac, felly, mae rhywfaint o waith datblygu wedi'i wneud ar y safle yn ddiweddar. Mae'r safle eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd cyflogaeth gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae Parc Cybi yn destun uwchgynllun amlinellol ar gyfer parc busnes (19C842A/EIA) a gymeradwywyd yn 2004. Mae Uwchgynllun 2004 yn rhoi'r cyd-destun i'r uchelgeisiau hirdymor ar gyfer y Parc Busnes ac roedd wedi nodi Llain 9 fel lleoliad posibl ar gyfer mwy na 350 o leoedd parcio ceir. Nid oes yr un cais yn unol â'r uwchgynllun hwn wedi'i wneud ar gyfer Llain 9, er bod y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig yn cyd-fynd â pharamedrau'r uwchgynllun hwn a gymeradwywyd. Cyfeirir at y safle fel tir sydd wedi'i ddiogelu ar gyfer cyflogaeth a mentrau busnes o dan Bolisi CYF 1: Diogelu, Neilltuo a Chadw Tir ac Unedau ar gyfer Defnydd Cyflogaeth Cynllun Datblygu ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd a fabwysiadwyd. Cyfeirir at Barc Cybi yn benodol fel 'Prif Safle' ar Ynys Môn sydd â chyfanswm arwynebedd o 109.2 hectar ar gyfer defnydd B1, B2 a B8. Gan fod angen y Safle Rheoli Ffiniau, nododd Llywodraeth Cymru Lain 9, Parc Cybi, fel y safle mwyaf ymarferol, yn dilyn proses sifftio safleoedd drylwyr. Mae'r Gorchymyn Datblygu Arbennig yn cynnig cydsyniad amlen, sy'n cyfyngu adeiladau a lleiniau caled i'r ardal ddatblygadwy ac yn cynnig y dylid cyfyngu uchder adeiladau. Mae hefyd yn cynnig y dylai llain glustogi dirluniol a fydd o leiaf 10m o led gael ei phiannu â chymysgedd o rywogaethau coed brodorol rhwng y bwnd presennol o goed a'r ardal ddatblygadwy er mwyn cuddio'r datblygiad mewn golygfeydd o'r Gorllewin-Dde-Orllewin o dderbynyddion gweledol sensitif sy'n byw mewn eiddo preswyl cyfagos. Tua rhan ddwyreiniol y safle, bydd y llain glustogi dirluniol yn cynnwys dwy elfen linellol, un i'r de o'r brif ffordd fynediad a rhan arall yn gyfochrog â'r bwnd presennol â choed. Mewn unrhyw fan unigol, bydd y ddwy elfen, gyda'i gilydd, yn darparu llain glustogi dirluniol sydd o leiaf 10m o led. Caiff y bwnd tirluniol presennol ei gadw ac ychwanegir ato, a fydd yn cuddio'r datblygiad rywfaint yn ystod y cyfnod adeiladu ac ar ddechrau'r cyfnod gweithredu a nes i'r llain glustogi dirluniol ymsefydlu</p> |
| Arall | Ymgysylltu â'r cyhoedd | 13 | <p>Rhoddyd y deunyddiau ymgynghori canlynol i aelodau o'r cyhoedd sy'n byw o fewn 1km i'r safle:</p> <ul style="list-style-type: none"> Llythyr hysbysu am ymgysylltu (Cymraeg a Saesneg) Taflen wybodaeth 8 tudalen (Cymraeg a Saesneg) Ffurflen adborth (Cymraeg a Saesneg) |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|-------|---|------------------------------|--|
| | | | <ul style="list-style-type: none"> Ffurflen ymateb radbost Datganiad preifatrwydd o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) (Cymraeg a Saesneg) Cyfarwyddiadau i weld gwefan yr ymgynghoriad https://inlandborderfacilities.uk/ <p>Cafodd 78 o hysbysiadau safle yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad eu harddangos hefyd o amgylch Caergybi, gan roi cyfarwyddiadau i weld gwefan yr ymgynghoriad.</p> <p>Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ffurfiol a barodd 21 diwrnod, ac ystyriwyd sylwadau gan Lywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi'r defnydd o Orchymyn Datblygu Arbennig. Gan fod caniatâd cynllunio yn cael ei geisio o dan ddeddfwriaeth frys, 21 diwrnod oedd yr adeg y cytunwyd arni ar gyfer ymatebion gan aelodau o'r gymuned.</p> |
| | Effeithiau cronol datblygiad(au) ar seilwaith lleol | 7 | <p>Mae'r safle ei hun mewn ardal sydd wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd cyfogaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hefyd wedi bod yn destun Cais Uwchgynllun (19C842A/EIA). Oherwydd y nifer bach iawn o gerbydau nwyddau trwm y disgwylir iddynt deithio i'r safle ac oddi yno gan ddefnyddio Cyffordd 2 yr A55 a'r terfynau y cynigir y dylid eu gosod ar y datblygiad, fel y'u nodir yng Nghyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig, disgwylir i'r effeithiau ar seilwaith a gwasanaethau lleol fod ar lefel dderbyniol.</p> |
| | Ansawdd bywyd | 6 | <p>Cynigir y nodweddion canlynol yng Nghyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol fel y'u nodir ar gynllun Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> Byddai un brif fynedfa/allanfa i'r cerbydau sy'n dod i'r safle. Dim ond i'w defnyddio mewn argyfwng y byddai mynedfeydd ac allanfeydd ychwanegol yn cael eu caniatáu a byddai angen eu hadeiladu gan ddefnyddio glaswellt atgyfnerthedig athraidd. Byddai adeiladau a lleiniau caled yn cael eu cyfyngu i'r tir a nodwyd fel yr "Ardal Ddatblygadwy". Yn yr ardal hon, cyfyngid ar uchderau adeiladau a byddent yn cael eu rhannu'n dri pharth, 33m uwchlaw datwm ordnans, 28m uwchlaw datwm ordnans a 23m uwchlaw datwm ordnans. Ni fyddai unrhyw fath o waith datblygu yn digwydd yn yr ardal a ddisgrifir fel 'Brigiad Creigiog'. Caiff mesurau lleihau sŵn eu rhoi ar waith. Caiff gyrwyr yr holl gerbydau nwyddau trwm sy'n mynd i'r safle eu cyfarwyddo i ddiffodd eu peiriannau tra byddant wedi'u parcio neu'n cael eu harchwilio. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw beiriannau a ddefnyddir i oeri ôl-gerbydau rheweidiedig. Caiff bwnd a ffens acwstig eu hymgorffori yn nyluniad y safle er mwyn lleihau lefelau sŵn o'r safle. Bydd ôl-gerbydau rheweidiedig y mae angen cymorth arnynt i gadw eu llwyth yn oer yn gallu cysylltu â chyflenwad trydan. Byddai'r bwnd tirluniol presennol gyda choed yn cael ei gadw ac ychwanegid ato. Darperid lleiniau clustogi tirluniol ychwanegol, a fyddai o leiaf 10 m o led o'r bwnd tirluniol presennol. Byddai hyn yn golygu plannu coetir trwchus yn cynnwys cymysgedd o rywogaethau coed brodorol wrth ochr y bwnd presennol o goed er mwyn cuddio'r datblygiad mewn golygfeydd o'r safle o'r Gorllewin-Dde-Orllewin. Byddai pwll sy'n bodoli eisoes a leolir yng nghornel dde-ddwyreiniol y safle yn cael ei gadw. <p>Disgwylir i'r datblygiad gynnig cyfleoedd cyfogaeth lleol hefyd ac efallai y bydd yn annog gwaith datblygu yn ardal Parc Cybi yn y dyfodol gan y bydd Gorchymyn Datblygu Arbennig yn cael ei roi ar sail barhaol. Bydd datblygu'r Safle Rheoli Ffiniau yn helpu i sicrhau bod gweithrediadau porthladd yng Nghaergybi yn para am gyfnod hir iawn, gan gyfrannu at yr economi leol.</p> |
| | lawndal | 3 | <p>Fel arfer, nid oes angen talu iawndal er mwyn datblygu tir onid effeithir ar hawliau eiddo preifat ac nid yw hwn yn fater sy'n effeithio ar b'un a dylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio.</p> |


| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|-------|--|------------------------------|--|
| | Twristiaeth | 2 | <p>Nid ystyrir y bydd y Safle Rheoli Ffiniau yn cael effaith andwyol ar dwristiaeth yn yr ardal. Mae pob taith i'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig eisoes yn defnyddio'r rhwydwaith priffyrdd rhwng Porthladd Caergybi a Chyffordd 2 yr A55 ac maent hefyd yn defnyddio safle cyfagos Roadking yn aml. Felly, mae'n annhebygol yr effeithir ar dwristiaeth.</p> <p>Mae nifer o derfynau arfaethedig wedi'u drafftio ar gyfer y Gorchymyn Datblygu Arbennig er mwyn lleihau effeithiau'r datblygiad ac mae'r rhain wedi'u hystyried wrth asesu a fyddai unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar y dirwedd ac unrhyw effeithiau gweledol. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Terfynau uchaf ar uchder adeiladau, er mwyn lleihau effeithiau gweledol, • Osgoi'r brigiad creigiog, er mwyn cuddio'r safle o'r golwg a chadw cynefin pwysig • Pennu ardal ddatblygadwy er mwyn lleihau effaith weledol mwy o leiniau caled yn yr AHNE a lleihau ôl troed y datblygiad. • Ffens/Dulliau Trin Ffin er mwyn sicrhau bod dyluniad y ffens yn gydnaws â'r ardal leol • Gorffeniadau Ffurfiâu Adeiledig, er mwyn helpu i leihau unrhyw effeithiau gweledol andwyol a gaiff y datblygiad arfaethedig ar yr AHNE a chymeriad tirwedd yr ardal • Cyfyngiadau ar oleuadau, er mwyn lleihau effaith colli golau i'r ardal oddi amgylch • Gwaith tirlunio, er mwyn helpu i guddio'r datblygiad rhag eiddo gerllaw • Cynnal a chadw'r safle yn yr hirdymor, er mwyn sicrhau y cynhelir gwaith tirlunio a mesurau sgrinio • Caiff Mynedfa Frys ei chynnwys a fydd wedi'i wneud o 'grasscrete', er mwyn cwtogi ar nifer y lleiniau caled newydd a gyflwynir i ardaloedd yn yr AHNE a lleihau effeithiau ar leoliad Siambr Gladdu Trefignath. |
| | Pryderon ynghylch archwiliadau o anifeiliaid byw yn cael eu cynnal i ffwrdd oddi wrth y porthladd yn hytrach nag yn y porthladd ei hun | 1 | <p>Selio cerbydau a Thystysgrifau lechyd: Mater i Lywodraeth Cymru fyddai llunio ymateb yn rhoi'r rhesymau dros ei dull o ymdrin â'r gofyniad hwn.</p> <p>Lles anifeiliaid: Mae cynllun mewnol yr adeiladau i anifeiliaid byw yn ystyried y prosesau o ddadlwytho anifeiliaid, eu dal mewn corlannau i'w harchwilio a'u hail-lwytho ar y cerbydau. Ni fwriedir cael corlannau dal allanol. Bydd yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y broses hon yn cynnwys y gwaith angenrheidiol o olchi'r adeiladau.</p> <p>Diogelwch y cerbydau rhwng y porthladd a'r Safle Rheoli Ffiniau: Mater i Lywodraeth Cymru fyddai llunio ymateb yn nodi sut y byddai'n sicrhau na fyddai cerbydau nwyddau trwm perthnasol a'u llwythi yn mynd heibio i'r Safle Rheoli Ffiniau.</p> <p>Rheoli cerbydau sy'n gadael y Safle Rheoli Ffiniau : Fel rhan o'r strategaeth rheoli traffig, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau na chaniateir i gerbydau nwyddau trwm sy'n gadael y safle droi i'r dde i Lôn Towyn Capel tua Threarddur a phentrefi lleol eraill ac y bydd arwyddion gorfodadwy addas yn cefnogi'r bwriad hwn.</p> <p>Trosglwyddo clefydau ar y Safle Rheoli Ffiniau i dda byw lleol: Mater i Lywodraeth Cymru fyddai llunio ymateb yn rhoi'r rhesymau dros y lleoliad a ddewiswyd ganddi ac yn nodi sut y byddai'n sicrhau na fyddai clefydau yn cael eu trosglwyddo yn yr awyr. Gallai'r ateb gynnwys bod yr adeiladau yn fioldiogel, a fyddai'n atal clefydau rhag cael eu trosglwyddo yn yr awyr.</p> |
| | Pryderon ynghylch yr angen am y safle yn y dyfodol – a yw wedi'i ddiogelu at y dyfodol? A gaiff y safle ei adleoli? | 1 | <p>Mae'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a geisir ar Lain 9 ar sail barhaol ac mae'n ymwneud yn benodol â datblygiad y Safle Rheoli Ffiniau. Fodd bynnag, os na fydd angen Safle Rheoli Ffiniau i wasanaethu Porthladd Caergybi mwyach, bydd angen cyflwyno cais ar wahân i Gyngor Sir Ynys Môn o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer unrhyw gynllun i ddatblygu'r safle wedi hynny, gan gynnwys aildefnyddio cyfleusterau'r Safle Rheoli Ffiniau. Mae capasiti'r safle yn seiliedig ar y galw diweddar ynghyd â lwfans ar gyfer cynnydd posibl yn nifer y cerbydau nwyddau trwm drwy borthladd Caergybi. Os bydd yr angen am ragor o waith ddatblygu ar y safle yn y dyfodol yn fwy na'r terfynau a nodir yn y Gorchymyn Datblygu Arbennig, bydd angen cyflwyno cais ar wahân o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i Gyngor Sir Ynys</p> |

| Thema | Crynodeb o'r Adborth a Gafwyd | Nifer yr ymatebion i'r thema | Ymateb i'r Adborth a Gafwyd |
|---|-------------------------------|------------------------------|-----------------------------|
| <hr/> <p>Môn. Os na fydd angen y cyfleuster mwyach, mae cynllun presennol yr adeiladau yn darparu ar gyfer eu symud yn hawdd neu eu defnyddio at ddiben gwahanol yn unol â dynodiad y Cynllun Lleol ac yn amodol ar gyflwyno cais ar wahân o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.</p> <hr/> | | | |


Daeth y gyfran fwyaf o'r ymatebion gan y rhai a nododd nad oeddent yn byw ar lwybr y cerbydau nwyddau trwm (o fewn 100m) a/neu yn yr ardal lle mae'r safle wedi'i leoli (o fewn 1,000m).

Dangosir lleoliadau rhanddeiliaid perthnasol y Ffin Ymgynghori Linell Goch a rhanddeiliaid cymunedol perthnasol eraill mewn perthynas â'r Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig a llwybr y cerbydau nwyddau trwm ar y graffiau isod.


Ffigur 3.3: Ym mha gapasiti rydych yn cyflwyno sylwadau ar y Safle Rheoli Ffiniau arfaethedig a fydd yn gwasanaethu Porthladd Caergybi? (Ticiwch fwy nag un os yw'n gymwys)



Ffigur 3.4: A ydych yn byw yn agos i'r llwybr dynodedig ar gyfer cerbydau nwyddau trwm rhwng y rhwydwaith ffyrdd lleol a'r safle mewndirol arfaethedig?



Ffigur 3.5: A ydych yn byw yn agos i'r safle arfaethedig?




Dangosir lleoliadau'r ymatebwyr agosaf i'r ymgynghoriad cymunedol ynghylch y Safle Rheoli Ffiniau fel piniau glas yn y mapiau isod, gyda lleoliad dangosol y Safle Rheoli Ffiniau wedi'i ddynodi gan bin coch.


Ffigur 3.6: Lleoliadau ymatebwyr (Ynys Gybi)



Ffigur 3.7: Lleoliadau ymatebwyr (Ynys Môn)



Ffigur 3.8: Lleoliadau ymatebwyr (Pob lleoliad)



4 Casgliad

Mae'r broses wedi bod yn effeithiol o ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion, mynd i'r afael â materion technegol a materion cynllunio a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ac ymgysylltu anffurfiol a chyfleu'r angen am y Safle Rheoli Ffiniau i wasanaethu Porthladd Caergybi, gan ei gwneud yn bosibl i nwyddau lechydol a Ffytioechydol o'r UE barhau i gael eu derbyn.

Mae'r broses ymgysylltu ac ymgynghori ynghylch y cynigion bob amser wedi'i llywio gan Egwyddorion Gunning sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae Egwyddorion Gunning fel a ganlyn:

1. rhaid i weithgarwch ymgysylltu ddigwydd pan fo'r cynnig yn dal i fod ar gam ffurfiannol;
2. rhaid cyflwyno digon o wybodaeth am y cynnig er mwyn galluogi ystyriaeth ac ymateb deallus;
3. rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb;
4. rhaid ystyried canlyniad gweithgarwch ymgysylltu yn gydwybodol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod gweithgareddau ymgysylltu ystyrion wedi'u cynnal ac y gellir eu dangos drwy weithgarwch ymgysylltu cynnar â'r ystod lawn o randdeiliaid a'r penderfyniad i fabwysiadu dull dylunio hyblyg. Mae gweithgarwch ymgysylltu cynnar yn y broses dylunio a chynllunio wedi'i gwneud yn bosibl i'r cynllun ddarparu ar gyfer newidiadau o ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd.

Gellid ymgorffori gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol a ddarparodd adborth hanfodol ar gynigion dylunio cynnar a sicrhodd fod effeithiau sylweddol yn cael eu lliniaru yng nghynllun yr Amlen Gydsynio (BCP21-006-05-00) a Thaenlen Cyfyngiadau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig (BCP21-006-06-00).

Mae Atodiad G, 'Crynodeb o'r Broses Ddylunio', i'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses ddylunio fanwl sy'n sail i Daenlen Cyfyngiadau'r Gorchymyn Datblygu Arbennig a Chynllun Amlen Gydsynio'r Gorchymyn Datblygu Arbennig. Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys newidiadau a wnaed yn ystod y broses ddylunio o ganlyniad i fireinio gofynion y cynllun a'r asesiad technegol o'r cynllun. Mae hefyd yn tynnu sylw at ble mae gweithgarwch ymgysylltu wedi effeithio'n uniongyrchol ar newidiadau i'r dyluniad, yr Amlen Gydsynio arfaethedig a therfynau arfaethedig y Gorchymyn Datblygu Arbennig.

Ceir rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid a nodwyd wrth i ddyluniadau a gweithrediadau fynd yn eu blaen. Dangosir ymrwymadau a wnaed i randdeiliaid ynghylch ymgysylltu yn y dyfodol yn adran 3 o'r ddogfen hon.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod y broses ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid a gynhaliwyd hyd yma yn cyd-fynd ag arferion gorau'r diwydiant a'i bod yn debyg o ran ei chwmpas i'r hyn sy'n ofynnol ar gyfer ceisiadau cynllunio yng Nghymru.

Atodiad A. Rhestr o'r ymgynghoreion a nodwyd ac yr ymgysylltwyd â nhw

| Sefydliad | Cyswllt | Manylion cyswllt |
|---|--|--|
| Stena Line (Port) | [REDACTED] | [REDACTED] |
| Stena Line (Operator) | [REDACTED] | [REDACTED] |
| Irish Ferries | [REDACTED] | [REDACTED] |
| Health and Safety Executive | [REDACTED] | [REDACTED] |
| North Wales Police | [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] | [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] |
| North Wales Fire and Rescue Service | [REDACTED] [REDACTED] | [REDACTED] [REDACTED] |
| The Crown Premises Fire Safety Inspectorate | [REDACTED] | [REDACTED] |
| Dŵr Cymru Welsh Water | [REDACTED] | [REDACTED] |
| Welsh Ambulance Service Trust | [REDACTED] [REDACTED] | [REDACTED] [REDACTED] |
| Isle of Anglesey County Council (IACC) | [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] | [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] [REDACTED] |
| Natural Resources / Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) | [REDACTED] [REDACTED] | [REDACTED] [REDACTED] |
| Cadw | [REDACTED] | [REDACTED] |
| Gwynedd Archaeological Trust / Gwynedd Archaeological Planning Service (GAPS) | [REDACTED] | [REDACTED] |
| Land and Lakes | [REDACTED] | [REDACTED] |
| Traffic Wales | [REDACTED] [REDACTED] | [REDACTED] [REDACTED] |
| North and Mid Wales Trunk Road Agent (NMWTRA) | [REDACTED] | [REDACTED] |

Atodiad B. Copïau o'r Prif Sylwadau a Dderbyniwyd gan Ymgynghoreion Technegol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Plas Cefn, Unit 57, Cefn Coed
Parc Nantgarw, Cardiff CF15 7GG
Ffôn 0300 025 6000
E-bost cadw@gov.wales
www.cadw.gov.wales
0300 025 6000
cadw@gov.wales/cadw@llyw.cymru
www.cadw.gov.wales

[REDACTED]

Mott MacDonald

ibf@mottmac.com

Eich cyfeirnod
Your reference

Ein cyfeirnod

Our reference

Dyddiad

Llinell uniongyrchol
Direct line

Ebost

Email:

23 June 2021

0300 0250566

cadwplanning@gov.wales

Dear [REDACTED]

Border control post - Plot 9, Parc Cybi, Holyhead

Thank you for your email of 2 June inviting our comments on the information submitted for the above.

This advice is provided in response to a consultation in regard to a concept design for a Border Control Post (BCP) at Plot 9, Parc Cybi, Holyhead that will establish the parameters to which any future design will have to adhere to, known as a consenting envelope, when a Special Development Order (SDO) under section 59(3) of the Town and Country Planning Act 1990 is sought.

Our Senior Historic Environment Planning Officer has considered the information submitted and has provided the following assessment.

Scheduled monuments:

AN011 Trefignath Burial Chamber

AN012 Ty-Mawr Standing Stone

The proposed development area is located some 42m west of scheduled monument AN011 Trefignath Burial Chamber and some 495m southeast of scheduled monument AN012 Ty Mawr Standing Stone.

Mott MacDonald have prepared a draft design for the BCP and a report suggesting an envelope and framework for the BCP development, allowing for flexibility within certain prescribed limits. The BCP will have an adverse impact on the setting of the above scheduled monuments and the design has been prepared to reduce any adverse impact to a level that will not be significant. As such the proposed limits and constraints allowed for the detailed design of the BCP are essential in order to ensure that significant adverse impacts do not occur.

Mae Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn hyrwyddo gwaith cadwraeth ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru a gwerthfawrogiad ohono.

The Welsh Government Historic Environment Service (Cadw) promotes the conservation and appreciation of Wales's historic environment.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.
We welcome correspondence in both English and Welsh.



BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE



The constraints identified by Mott MacDonald to restrict the adverse impact of the BCP on the setting of the scheduled monuments are:

- Maximum building height
- Avoidance of rocky outcrop
- Developable area
- Built form finishes
- Formulation of access/egress
- Lighting
- Landscaping
- Long-term maintenance of planting

I concur that these are the correct constraints and that the proposed limits and the rationale for them are appropriate. In my opinion, if these parameters are used in any future design of the BCP, the adverse impact of the BCP on the settings of the scheduled monuments will not be significant.

If you have any further queries please do not hesitate to contact us via cadwplanning@gov.wales

Yours sincerely



Diogelu a Pholisi/ Protection and Policy



21st June 2021

Our Ref: 0621je/D3502.01

Private and Confidential

[REDACTED]
Welsh Government BCP sites Stakeholder Engagement Team
Mott MacDonald
Stoneham Place
Stoneham Lane
Southampton
SO50 9NW

Dear James,

Pre-planning consultation: Plot 9, Parc Cybi, Holyhead

Thank you for the above consultation. As noted in your email, we have already been in discussion with your colleagues about archaeological matters associated with the proposed development, including participation in the recent heritage and landscape workshop, held virtually on 10th June 2021. As outlined in these discussions, the proposed development site has been subject to a comprehensive programme of archaeological investigation, which preceded the creation of the current temporary facility at the site. This work, undertaken by Brython Archaeology earlier this year, identified archaeological remains across the site, including a probable later prehistoric hut settlement, evidence of earlier prehistoric occupation, and post-medieval agricultural features. All the identified archaeology was fully excavated and recorded, and samples were taken from the adjoining wetland area for palaeoenvironmental analysis. While post-excavation work is ongoing, the site is now considered to be archaeologically sterile, with no requirement for further mitigation investigation in the event of future development.

The principal historic environment concern for the proposed scheme has been correctly identified as the impact upon the setting of the Trefignath Burial Chamber (scheduled monument AN011), which is opposite and to the east of the site. We acknowledge that this has been considered in the proposed design and layout from inception, and welcome the inclusion of a green buffer on this side of the site, incorporating the outcrop and new planting. This will alleviate the encroachment of built development and the visual impact to a degree; however, factors such as the height, colour, materials and lighting of the scheme must also be considered. The environmental colour assessment and cross-sections provided to date are useful in this regard, but additional illustrations (in the form of cross-sections, photomontages etc) will be necessary to show the appearance of the scheme as viewed from the monument, and enable informed assessment of the impact it may have.

As noted in the recent workshop, any off-site mitigation proposals such as planting for landscape, visual or ecological benefit, could have archaeological implications. This may be through introducing new barriers in the landscape (interrupting sightlines) or potentially disturbing buried archaeological deposits. Should such measures be considered, please contact us to establish whether any archaeological constraints may exist.

Cadeirydd/Chair - David Elis-Williams MA(Oxon), MSc, CPFA

Prif Archaeolegydd/Chief Archaeologist - Andrew Davidson, B.A., F.S.A., MCIfA

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn Gwmni Cyfyngedig (Ref Cof. 1180515) ac yn Elusen (Rhif Cof. 508849)
Gwynedd Archaeological Trust is both a Limited Company (Reg No. 1180515) and a Charity (Reg No. 508849)





Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor, Gwynedd LL57 2RT Ffon/Tel 01248 370926 Ffacs/Fax 01248 370925
[REDACTED] web site: www.heneb.co.uk

Similarly, we would be pleased to advise should there be scope for incorporating information about the archaeology of the site within the scheme.

Please do not hesitate to contact me with any queries regarding the above.

Yours sincerely

[REDACTED]

Senior Planning Archaeologist

Ymgysylltu ffurfiol ar ran Llywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau ar gyfer safle rheoli ffiniau ym Mhlot 9, Parc Cybi, Caergybi

Cyfeiriaf at yr uchod ac at y wybodaeth bellach a ddarparwyd ar 2 Mehefin 2021 yn ceisio sylwadau gan Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) er mwyn cynorthwyo wrth ddatblygu cynigion.

Mae CSYM yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r cyfle a rydd yr ymgysylltu hwn ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i sicrhau fod materion sy'n peri pryder yn lleol ac effeithiau negyddol ar dderbynyddion yn cael eu cynllunio allan, neu eu bod o leiaf yn cael eu lliniaru hyd at lefelau rhesymol.

Mae'r un mor hanfodol sicrhau y manteisir i'r eithaf ar fuddion a chyfleoedd lleol drwy greu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant a chaffael drwy flaenoriaethu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi leol lle bo'n bosib, yn ystod cyfnod adeiladu a chyfnod gweithredol y cyfleuster. Dylai'r datblygiad geisio cyflogi pobl o Ynys Môn ac anogir trafod hyn gyda'r Ganolfan Waith leol / asiantaethau cymorth cyflogaeth lleol megis MonCF.

Deallir bod defnydd arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r safle'n cael ei ganiatáu drwy Orchymyn Datblygu Arbennig o dan adran 59(3) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn darparu caniatâd parhaol ar gyfer safle rheoli ffiniau.

Mae'r ymgysylltu cyfredol mewn perthynas ag 'amlen Ganiatâd' a fydd yn darparu'r fframwaith datblygu ar gyfer cais Gorchymyn Datblygu Arbennig ac mae'n nodi'r paramedrau uchaf a'r cyfyngiadau ar gyfer y datblygiad.

Mae lluniad 'Trefniant Cyffredinol' yn dangos bwriadau presennol ar gyfer dyluniad y safle wedi cael ei ddarparu ynghyd ag 'amlen ganiatâd' sy'n dangos y paramedrau y bydd rhaid i unrhyw ddyluniad diwygiedig weithio oddi mewn iddo.

Formal engagement on behalf of the Welsh Government on plans for a border control post at Plot 9, Parc Cybi, Holyhead

I refer to the above and to the further information provided on the 2 June 2021 seeking representations from the Isle of Anglesey County Council (IACC) to assist in developing proposals.

The IACC welcomes and appreciates the opportunity afforded by this engagement and urges the Welsh Government to ensure that issues of local concern and negative impacts on receptors are designed out, or as a minimum mitigated down to acceptable levels.

It is equally essential to ensure that local benefits and opportunities through job creation, training and procurement are maximised by giving priority to local supply chain opportunities where possible, during both construction and operation of the facility. The development should seek to employ people from Anglesey and discussion this with the local Job Centre / local employment support agencies such as MonCF is encouraged.

It is understood that the Welsh Government's proposed use of the site is being consented through a Special Development Order (SDO) under section 59(3) of the Town and Country Planning Act 1990 to provide a permanent consent for a border control post.

The current engagement is for a 'Consenting envelope' that will provide the framework for development for an SDO application and sets the maximum parameters and limitations for which development can occur.

A 'General Arrangement' drawing showing current intentions for site design has been provided and a 'consenting envelope' that shows the parameters to which any altered design must work within.

Er bod dyluniad y safle wedi datblygu dros gyfnod o fisoedd, nodir y gallai newid eto yn dilyn adborth technegol bellach gan randdeiliaid a mewnbwn gan ddarpar adeiladwyr a gweithredwyr y safle. Yn y cyswllt hwn, byddai CSYM yn gwerthfawrogi pe bai'r dull cydweithredol a fabwysiadwyd hyd yma yn parhau.

Yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion CSYM yn ddiweddar mewn gweithdy pwnc penodol i adolygu'r amlen ganiatâd, dyluniad cyfredol y safle ac i rannu canfyddiadau asesiadau technegol a gyflawnwyd hyd yma, gellir crynhoi sylwadau swyddogion ar y meysydd pwnc fel a ganlyn;

Ecoleg/Bioamrywiaeth

Er na chanfu arolwg ar y safle a'r cyffiniau unrhyw dystiolaeth o fadfallod cribog, dylid cynnwys rhai nodweddion gwella cynefin sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth hon yn y gwaith tirlunio. Er enghraifft, rhai pyllau bach na fydd yn rhan o'r systemau draenio cynaliadwy (SuDS).

Yn yr un modd, dylid cynnwys rhai buddion ar gyfer ymlusgiaid yn y gwaith tirlunio, er enghraifft, gwella cynefinoedd i gysylltu neu i fod yn 'gerrig camu' rhwng dwy ardal neu fwy sydd â photensial ar gyfer ymlusgiaid ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig fod yr holl nodweddion tirwedd sy'n berthnasol i fioamrywiaeth yn cael eu rheoli drwy gydol oes y cynnig, ac nid am y 15 mlynedd sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd. Nid yw gofynion Deddf Amgylchedd Cymru ar gyfer gwarchod a gwella bioamrywiaeth yn pennu cyfyngiadau amser ac mae angen ymrwymiad hirdymor.

Tirwedd

Er nad yw CSYM wedi gweld yr Asesiad o'r Dirwedd a'r Effaith Weledol a baratowyd, gwneir y sylwadau a ganlyn;

It is noted that whilst the site design has evolved over the months, it could still change following further technical stakeholder feedback and input from future site constructors and operators. In this respect, the IACC would appreciate if the collaborative approach adopted thus far continues.

Following recent topic specific workshop discussions with IACC officers to review the consenting envelope, current site design and communicate the findings of technical assessments undertaken thus far, the officer comments on these topic areas can be summarised as follows;

Ecology/ Biodiversity

Even though survey on and near to the site has not found evidence of crested newts, some habitat enhancement features suitable for this species should be included in the landscaping. For example, some small ponds which will not be part of Sustainable Drainage systems (SuDS)

Likewise, some benefits in landscaping for reptiles should be included, for example habitat improvement to link or act as 'stepping stones' between two or more areas which currently have reptile potential.

It is important that all biodiversity-relevant landscape features are to be subject to conservation management for the lifetime of the proposal, and not the 15 years currently proposed. The Environment Wales Act requirements for conserving and enhancing biodiversity does not specify time limits and a long-term commitment is required.

Landscape

Whilst the IACC have not had sight of the Landscape and Visual Impact Assessment (LVIA) that has been prepared the following comments are made;

Mewn perthynas â thriniaethau ar gyfer y ffensys o gwmpas ffiniau'r safle: cytuno gyda defnyddio Asesiad Amgylcheddol o Liwiau er mwyn helpu i benderfynu ar liw/gorffeniad: gallai pren sydd ag ôl tywydd naturiol arno fod yn dderbyniol hefyd. Awgrymwyd uchder o 4m ar gyfer y ffens acwstig a ddangosir ar y lluniadau croestoriad (nid yw'n cael ei ddangos ar 100100493-MMD-XX-DR-AR-0001 DRAFT P01.8) ac ar yr uchder hwn, byddai gwaith tirlunio o bosib yn effeithiol i guddio'r ffens dros gyfnod hwy o amser.

Gorffeniadau ffurfiau adeiledig: cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol o Liwiau ac mae wedi nodi ystod o liwiau addas. Mae'n well gan CSYM liwiau tywyllach, oddi fewn i'r ystod a nodwyd fel rhai dangosol/addas ar gyfer yr ardal, ac yn arbennig y to. Dylid defnyddio gorffeniad di-sglein ar gyfer toeau er mwyn osgoi llewyrch. Gellid defnyddio ystod o liwiau i leihau effaith mas o adeiladau mewn golygfeydd lleol.

Goleuadau: mae angen osgoi llygredd golau a fyddai, o'i gyfuno â'r llinell sylfaen, yn ychwanegu mewn ffordd annerbyniol at effeithiau andwyol ar gymeriad yr ardal oddi mewn i'r AHNE, neu ymddangosiad y safle o ystod o dderbynyddion gan gynnwys rhai preswyl.

Tirlunio: bydd angen ei reoli yn yr hirdymor os yw am fod yn effeithiol o ran lleihau effeithiau. Byddai lledu'r glustog arfaethedig yn cynyddu'r potensial iddi leihau effeithiau gweledol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn digwydd mewn cyfnod amser rhesymol fel y byddai effeithiau andwyol sylweddol pe byddent yn cael eu nodi yn yr Asesiad o'r Dirwedd ac Effeithiau Gweledol yn cael eu gostwng i lefel ganolig.

Mae adran 1.2 yn nodi y bydd yr asesiad amgylcheddol ar gyfer y Gorchymyn Datblygu Arbennig yn darparu tystiolaeth na fydd y cynnig yn cael effeithiau amgylcheddol sylweddol. Mae'r atodiad yn nodi *bod 'cadw a gwella'r bwnd â*

In respect of fencing boundary treatments: agree with use of Environmental Colour Assessment (ECA) to help determine colour/finish: naturally weathered timber may also be acceptable. A height of 4 metres was suggested for the acoustic fence shown on the cross section drawings (it is not shown on 100100493-MMD-XX-DR-AR-0001 DRAFT P01.8) and at this height, landscaping would potentially provide effective screening for the fence within a longer timeframe.

Built form finishes: an ECA has been carried out and has indicated a range of suitable colour finishes. The IACC preference is for darker colours, within the range identified as indicative/suitable for the area particularly for the roof. Matt finishes should be used for the roof use to be used to avoid glare. A range of colours could be used to reduce the effect of building mass in localised views.

Lighting: needs to avoid light pollution such that it would in combination with the baseline add unacceptably to adverse effects on the character of the area within the AONB, or the appearance of the site from a range of receptors including residential ones.

Landscaping: will require long-term management if it to be effective in reducing effects. Widening the buffer as proposed will increase the potential for it to reduce visual effects; however, this will not occur within a reasonable timeframe such that substantial adverse effects, if identified in the LVA would be reduced to medium.

Section 1.2 notes that the environmental assessment for the SDO will evidence that the proposal will not result in significant environmental effects. The appendix notes that *'the retention and enhancement of the existing vegetated*

llystyfiant arno sydd eisoes yn bodoli yn hanfodol i leihau effeithiau niweidiol sylweddol i dderbynyddion gweledol. Heb weld yr Asesiad o'r Dirwedd a'r Effeithiau Gweledol, nid yw'n eglur a nodwyd effeithiau sylweddol i olygfeydd gerllaw dderbynyddion preswyl ac a yw pwysau priodol yn cael ei roi i fesurau lliniaru yn gysylltiedig â'r dirwedd i leihau effeithiau.

Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS)

Er nad yw'r broses Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SAB) wedi'i chynnwys yn y broses Gorchymyn Datblygu Arbennig, mae Ymgynghoriaeth Gwynedd, YGC, wedi gweld y 'Trefniant Cyffredinol' ac wedi gwneud y sylwadau a ganlyn;

Mae'n dangos prif nodweddion system ddraenio gynaliadwy, casglu dŵr, lleiniau hidlo, pantiau, pyllau arafu ac ati, ond mae angen mwy o fanylion ynghylch dyluniad y system ddraenio e.e. manylion rheoli gollyngiadau o lwythi trelar a gwahanwyr olew a thanwydd ac ati, ond ar y cyfan, mae'r dyluniad safle hwn yn cyd-fynd â thrafodaethau blaenorol.

Gwarchod y Cyhoedd.

Dylai'r Rhwystr Acwstig 5m arfaethedig fod â dwysedd o >25kg/m² o leiaf a dylai fod yn 'amsugol' yn hytrach nag yn 'adlewyrchol'. Deallir mai dyma yw'r opsiwn a ffafrir.

Argymhellir defnyddio Hysbysiadau Caniatâd Ymlaen Llaw Adran 61 (o dan Ddeddf Rheoli Llygredd 1974) (fel y defnyddiwyd wrth adeiladu'r cyfleuster stacio lorïau presennol). Bydd hyn yn caniatáu rheoli dyddiadau ac amseroedd gweithredu, rhestru cyfarpar sy'n cynhyrchu sŵn ac yn caniatáu i'r datblygwr gytuno ar baramedrau gweithredu.

Ni ragwelir bod problemau o ran ansawdd aer ar y safle; naill ai yn ystod y cyfnod gweithredu na'r cyfnod adeiladu.

